

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR ARCHWILIO	AUDIT COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 24 MEDI 2013 am 2.00 o'r gloch y prynhawn	TUESDAY, 24 SEPTEMBER, 2013 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Annibynnol / Independent

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas

Plaid Cymru / The Party of Wales

T Ll Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), John Griffith a Vaughan Hughes

Llafur / Labour

Raymond Jones

Heb Ymaelodi / Unaffiliated

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair) a P S Rogers

AELODAU LLEYG/LAY MEMBERS

Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog.

2 **COFNODION CYFARFOD 23 GORFFENNAF, 2013** (Tudalennau 1 - 10)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **CRONFA BENSIWN LLYWODRAETH LEOL GWYNEDD**

Derbyn diweddariad ar berfformiad y Gronfa Bensiwn ac unrhyw fater perthynol.

4 **DATGANIAD O GYFRIFON 2012/13 A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL** (Tudalennau 11 - 134)

- Cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon am 2012/13 ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol ynglyn â'r archwiliad o'r Datganiadau Ariannol. (Adroddiad ISA 260)

5 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 135 - 152)

- Cyflwyno diweddariad Archwilio Allanol ar waith perfformiad.
- Cyflwyno Llythyr Asesiad Gwella 1

6 **RHEOLI RISG AC YSWIRIANT** (Tudalennau 153 - 156)

Derbyn diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â rheoli risg ac yswiriant.

7 **ARCHWILIO MEWNOL - ADRODDIAD CYNNYDD EBRILL I AWST, 2013** (Tudalennau 157 - 164)

Cyflwyno adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Awst, 2013.

8 **TREFNIADAU ADRODD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 165 - 168)

Derbyn adroddiad ar drefniadau adrodd Archwilio Mewnol yn cynnwys adrodd ar gynnydd ar weithredu argymhellion.

9 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL A LLYGREDD** (Tudalennau 169 - 176)

Derbyn yr Adroddiad Blynyddol am 2012/13 ar drefniadau atal twyll a llygredd.

10 **RHEOLI TRYSORLYS CHWARTER 1 2013/14** (Tudalennau 177 - 188)

Derbyn adroddiad diweddarau Rheoli Trysorlys am Chwarter 1 2013/14.

11 ARCHWILIO'R COFRESTRAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw adborth o'r archwiliad o'r cofrestrau a datganiadau o ddiddordeb.

(Hysbysir Aelodau y bydd y cofrestrau ar gael i'w harchwilio ganddynt am 1:15 tan 1:45 ar brynhawn y 24 Medi cyn cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor am 2 o'r gloch)

12 CYFARFOD NESAF SYDD WEDI'I DREFNU

2:00 o'r gloch y prynhawn, dydd Mercher, 11 Rhagfyr, 2013.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2013

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Robert Ll Jones (Cadeirydd) Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Is-Gadeirydd) Y Cynghorwyr Jim Evans, John Griffith a Dafydd Rhys Thomas Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes
WRTH LAW:	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 Rheolwr Archwilio (JF) Rheolwr Cyfrifeg (TF) Pennaeth Gwasanaeth (ET) Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (eitem 10) Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol (HP) (eitem 11) Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Vaughan Hughes a P S Rogers
HEFYD YN BRESENNOL	Mr Barry Williams (Cyfrifydd), Mr Patrick Green (RSM Tenon), Mrs Lynn Pamment (PwC), Mr Ian Davies (PwC), Mr Andy Bruce (SAC)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD AR 5 CHWEFROR 2013

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2013 a chadarnhawyd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi –

- Gan gyfeirio at yr adborth y gofynnwyd amdano gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) ynglŷn â'r cynnydd gyda mynd i'r afael â materion llywodraethu mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau, dywedodd y Rheolwr Archwilio wrth y Pwyllgor bod y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) wedi cadarnhau bod nifer o'r materion oedd wedi codi yn cael sylw drwy'r Rhaglen Trawsnewid ond er hynny, byddai'n fodlon mynychu cyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor Archwilio i roi diweddariad i'r Aelodau.

Cytunwyd bod diweddariad am y cynnydd gyda mynd i'r afael â materion llywodraethu o ran yr UCA yn cael ei ohirio tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.

Camau Gweithredu yn codi: Y Rheolwr Archwilio i gadarnhau gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) y trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl i gyfarfod 24 Medi o'r Pwyllgor Archwilio.

3 DATGANIAD CYFRIFON 2012/13 - DYFARNIADAU AC AMCANGYFRIFON MAWR

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn nodi'r dyfarniadau a'r amcangyfrifon allweddol yn y Datganiad Cyfrifon 2012/13 er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cyfrifo bod Datganiad Cyfrifon Drafft 2012/13 y Cyngor wedi ei arwyddo gan y Swyddog Adran 151 ar 28 Mehefin 2013 a hynny cyn diwedd yr amser cau statudol ym Mehefin a'i fod wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ddechrau mis Gorffennaf. Roedd y gwaith o archwilio'r datganiadau cyfrifo yn ffurfiol bellach wedi cychwyn. Aeth y Swyddog yn ei flaen i ddweud bod y cyfrifon sydd yn cynnwys y cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013 yn ddatganiadau mawr a chymhleth a'u bod yn cael eu paratoi ar gyfnod mewn amser ac fel y cyfryw, rhaid gwneud dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifo a thybiaethau am y dyfodol a phethau eraill sy'n ansicr yn y dyfodol.

Eglurodd y Swyddog mai pwrpas yr adroddiad yw rhoi mwy o eglurder ar y dyfarniadau hynny ac y dylid darllen yr adroddiad ochr yn ochr â'r Datganiad Cyfrifon llawn. Roedd yr adroddiad yn rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau ar feysydd oedd wedi eu hamlygu i gael ystyriaeth a hynny mewn paratoad at gyflwyno'r cyfrifon yn ffurfiol ac Adroddiad ar Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol yr Archwilydd Apwyntiedig i gyfarfod mis Medi. Cyfeiriodd y Rheolwr Cyfrifo at y canlynol fel rhai o'r meysydd a'r agweddau allweddol ar gyfer sylw'r Pwyllgor -

- Y rhagair esboniadol sy'n cysylltu'r canlyniadau yn ôl i'r gyllideb am y flwyddyn a'r gwaith monitro yn ystod y flwyddyn
- Y datganiad am y symudiadau yn yr arian wrth gefn sy'n crynhoi'r arian wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor, wedi ei ddisbarthu i gategoriâu y gellir eu defnyddio ac na ellir eu defnyddio arr symudiadau yn ystod y flwyddyn
- Darpariaethau sy'n cynnwys symiau o arian a neilltuwyd ar gyfer digwyddiadau hysbys a thebygol.
- Penderfyniadau beirniadol ac ansicrwydd amcangyfrif. Mae'r rhain wedi'u crynhoi a'u hesbonio yn Nodiadau 3 a 4 o'r Datganiad Cyfrifon ac yn cael eu hatgynhyrchu fel Atodiadau C a CH yn yr adroddiad.

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad ac yn y drafodaeth lawn a gafwyd i ddilyn ar y wybodaeth a gyflwynwyd, ceisiwyd cael eglurhad pellach ar y materion canlynol –

- Y goblygiadau i'r Cyngor o gyflawni ei rwymedigaethau o dan Gynllun Trefniant Yswiriant Municipal Mutual gyda'i gredydwy, maint ei rwymedigaethau yn y cyswllt hwn a'r amserlen.
- A fyddai'r arian wrth gefn a grëwyd gan arbedion costau tirlenwi o ganlyniad i fynd a gwastraff i'w ailgylchu ar gael i'w ddefnyddio ac eithrio mewn cysylltiad â mentrau ailgylchu.
- Y sefyllfa o ran Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor a'r rhesymau, yr effeithiau a'r goblygiadau o orwario neu danwario ar wasanaethau penodol.
- A oedd yr arbedion diwedd blwyddyn a gyflawnwyd yn y cyllidebau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhai damweiniol neu yn rhai a sicrhawyd o ganlyniad i strategaeth hirdymor a gynlluniwyd.
- Y sefyllfa gyda'r gronfa bensiwn a'r cynnydd o £18.4m yn yr ymrwymiad pensiwn net yn ystod 2012/13 o £63.7m £83.1m a goblygiadau hynny. Roedd yr aelodau'n credu y byddai o gymorth iddynt ddeall y symudiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn ffigwr rhwymedigaethau'r pensiynau a'r rheswm amdanynt pe baent yn cael cyflwyniad gan gynrychiolydd o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd.
- Y sefyllfa mewn perthynas â balansau ysgolion ac yn benodol yr ysgolion oedd mewn sefyllfa o ddiffyg a'r camau oedd wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig cael system o rybuddion i amlygu problemau posibl yn fuan yn ogystal â dysgu o brofiadau blaenorol a rhoddi mesurau ataliol yn eu lle er mwyn sicrhau na fydd ysgolion yn mynd i sefyllfa o falansau negyddol yn y lle cyntaf ac na fyddai eu sefyllfa yn gwaethygu wedi hynny
- Llithrant sylweddol yr adroddwyd amdano mewn gwariant ar y Cynllun 3 Tref a'r rheswm am y llithriad hwnnw. Cafwyd cais i'r Pwyllgor dderbyn dadansoddiad o'r cyllid grant ar gyfer y cynllun adfywio hwn.
- Y rhesymeg dros fod â balans o £2m yn y Gronfa Yswiriant pan fo hawliadau yn erbyn y gronfa yn isel a phan y gellid ei ddefnyddio'n well yn rhywle arall. Gan y gallai cyfarfod â

chostau tebygol fod yn fwy na £2m gyda hynny yn mynd i mewn i'r arian wrth gefn cyffredinol, byddai lawn cystal cadw'r arian yn yr arian wrth gefn cyffredinol yn y lle cyntaf.

- Cafwyd cais am fwy o wybodaeth yng nghyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynlluniau i reoli'r cyllidebau mwy a'r gwasanaethau lle mae arbedion yn debygol neu y rhagwelir y byddant yn cael eu cyflawni fel y gall yr Aelodau gysylltu'r gyllideb, unrhyw orwario ac ymateb y gwasanaeth. Nodwyd bod gan y Pwyllgor Archwilio gyfrifoldeb i sgrwttineiddio canlyniadau ond hefyd i ystyried effaith y newidiadau mewn gwariant, ac roedd angen iddo gael gwybodaeth gyd-destunol mewn perthynas â rheoli risg - yn arbennig o safbwynt meysydd sensitif - a'r canlyniadau posibl allai godi o newidiadau mewn gwariant.

Ymatebodd y swyddogion i'r pwyntiau penodol a ofynnwyd gan roi gwybodaeth bellach i'r Aelodau. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y bydd pob elfen o wariant refeniw yn cael ei sgrwttineiddio dros y misoedd i ddod ac fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, byddir yn ystyried opsiynau gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor a bydd cynlluniau arbedion / rheoli cyllideb yn cael eu rhannu gydag aelodau mewn gweithdy sydd wedi ei gynllunio. Fel rhan o'r broses o nodi arbedion byddir yn gofyn i wasanaethau egluro'r effaith ar ddarparu gwasanaeth. Dywedodd y Rheolwr Cyfrifo mewn perthynas â'r canlyniadau refeniw dros dro ar gyfer 2012/13, bod yn rhaid ystyried newid yn y sefyllfa rhwng y trydydd a'r pedwerydd chwarter a'r arbedion a gafwyd yn nhermau'r hyn y maent yn ei olygu mewn perthynas â sefyllfa ariannol sylfaenol y Cyngor o ran cryfhau'r sefyllfa a darparu ar gyfer yr Cyngor fwy o opsiynau na'r hyn oedd wedi ei ragamcanu ar y cychwyn a'r cyfle i ystyried dewisiadau eraill.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r eitemau allweddol oedd wedi eu hamlygu ynghyd â'r pwyntiau trafod oedd yn codi.

CAMAU GWEITHREDU YN CODI:

- **Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i wahodd cynrychiolydd o Gronfa Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd ynghyd â'r Cynghorydd H.Eifion Jones fel cynrychiolydd yr Awdurdod hwn ar y Pwyllgor Cronfa i annerch y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ar berfformiad y Gronfa Bensiwn ac unrhyw faterion sy'n codi o hynny.**
- **Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i ddarparu i Aelodau'r Pwyllgor ddadansoddiad o'r cyllid grant ar gyfer y Cynllun Adfywio 3 Tref.**

4 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2012/13

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymgorffori'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft (DLIB) ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 er ystyriaeth y Pwyllgor a'i sylwadau ynghyd â Chynllun Gweithredu Llywodraethu ar gyfer 2013/14 oedd yn nodi'r prif faterion llywodraethu oedd angen sylw yn y flwyddyn i ddod. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y drafft cyfredol o'r DLIB oedd yn cael ei gyflwyno yn parhau yn y cyfnod ymgynghori a'r cyfnod herio a bydd yn cael ei anfon ymlaen i Swyddogion ac Aelodau am eu sylwadau cyn y deir â fersiwn derfynol yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio am ei gymeradwyaeth yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Gan gymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan Mr Andy Bruce ynglŷn â gwerthusiad Swyddfa Archwilio Cymru o DLIB yr Awdurdod (cyfeirir at eitem 5) aeth y Pennaeth Gwasanaeth yn ei flaen i roi cyflwyniad gweledol i'r Aelodau oedd yn amlygu rhai o'r heriau gyda llunio'r DLIB 2012/13 wrth i'r awdurdod ddod allan o gyfnod o ymyrraeth yn nhermau rheoli'r newidiadau a mynd i'r afael â materion mewn perthynas â'r fframwaith llywodraethu ddarniog bresennol a allai fod wedi cael ei datblygu sawl gwaith dros gyfnod yr ymyriad gyda hynny'n golygu nad ydynt o anghenraid yn gysylltiedig â weledigaeth y Cyngor; nifer o safbwyntiau a'r diffyg system i werthuso effeithiolrwydd a chyfyngiadau amser.

Yn dilyn hynny, mae argymhellion wedi eu llunio nid yn unig mewn perthynas â chryfhau llywodraethiant corfforaethol yr Awdurdod ond hefyd o safbwynt gwella ymarferion gweithio o ran coladu gwybodaeth, ehangu'r fframwaith llywodraethu a llyfnhau hunanasesiadau. Mae gweithgor o swyddogion wedi ei sefydlu i hwyluso'r broses hon. Cyfeiriodd at yr hyn a ddisgwylir gan y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'i gyfrifoldebau trosolwg a'i ddyletswydd i gael sicrwydd ynglŷn â

chadernid fframwaith llywodraethu'r Awdurdod a threfniadau ac i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Llywodraethu.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau holi'r swyddog ar gynnwys y DLIB ac a oedd ei ddisgrifiad o'r trefniadau llywodraethu'n rhoi cyfrif digonol a chywir o'r trefniadau hynny a hefyd a oedd yn taro'r nodau allweddol o ran materion llywodraethu sylweddol. Roedd yr Aelodau am gael eglurhad ar y datganiad a thra eu bod yn derbyn y DLIB fel adlewyrchiad o'r trefniadau llywodraethu oedd yn eu lle ar y pryd roeddent yn nodi y gallai fod yn fwy penodol mewn manau yn arbennig o ran monitro perfformiad ac o ran gosod targedau sydd wedi eu diffinio'n glir ac sydd yn dangos penderfyniad i wella ar berfformiad y flwyddyn flaenorol. Roedd yr Aelodau hefyd yn awyddus i wybod a fyddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei rannu'n gyfnodau amser ac yn ddeilliannau penodol gyda hynny'n ei gwneud yn haws i'r Pwyllgor Archwilio fonitro cynnydd trwy iddo fod yn gwybod beth yw'r deilliannau a ddymunir a hefyd y cyfnod amser ar gyfer eu cyflawni.

Penderfynwyd nodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft am 2012/13 ynghyd â'r sylwadau a wnaed ynglŷn â diffinio targedau yn well o fewn y Datganiad.

CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Dirprwy Brif Weithredwr i roi diweddariad yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu Llywodraethu.

5 ADOLYGIAD ARCHWILIO ALLANOL O LYWODRAETHU LLEOL 2013

Cyflwynwyd yr Adroddiad Archwilio Allanol ynglŷn ag Adolygiad Llywodraethu'r Awdurdod Lleol er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn nodi sgôp astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru, y casgliad cyffredinol a hefyd yn rhoi gwerthusiad mwy manwl o ystod, cadernid a thrylwyredd adolygiad yr Awdurdod o lywodraethu a hefyd ei adnabyddiaeth o feysydd yr oedd angen eu gwella a chynlluniau i fynd i'r afael â hwy.

Dywedodd Mr Andy Bruce Swyddfa Archwilio Cymru mai casgliad yr astudiaeth Archwilio Allanol oedd bod adolygiad llywodraethu'r Cyngor yn datblygu ac wedi ei sylfaenu ar egwyddorion cadarn, bod angen ehangu'r trefniadau i roi sicrwydd pellach ar weledigaeth y Cyngor a'i ddeilliannau i'r cyhoedd. Roedd adolygiad y Cyngor o'r trefniadau llywodraethu yn darparu lefel o sicrwydd ond roedd sgôp i werthuso effeithiolrwydd ei reoliadau. Dywedodd y Swyddog bod y Cyngor wedi nodi materion pwysig o'i drefniadau llywodraethu a'i fod yn cymryd camau cadarnhaol i wella ei drefniadau. Bydd canlyniad adolygiadau llywodraethu pob Cyngor yn cael eu casglu at ei gilydd a'u datblygu yn adroddiad cenedlaethol fydd yn nodi patrymau a themâu sy'n gyffredin.

Penderfynwyd nodi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar adolygiad llywodraethu'r Awdurdod a diolch i'r Swyddog am yr adborth.

DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI

6 ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIO

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth ddiweddariad Swyddfa Archwilio Cymru ar statws y gwaith cyfredol a'r gwaith a gynlluniwyd (yn genedlaethol ac yn benodol i Fôn) o dan y Rhaglen Waith Perfformiad.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

7 ARCHWILIO ALLANOL – CYNNYDD GYDA'R ARCHWILIAD ARIANNOL

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd Archwilio Allanol er gwybodaeth y Pwyllgor.

Dywedodd Mrs Lynn Pamment, Partner Ymgysylltu PwC wrth yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad yw darparu rheolaeth a rhoi i'r Pwyllgor Archwilio ddiweddariad ar gynnnydd yr archwiliad ariannol yn erbyn y cerrig milltir allweddol terfynol a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Ariannol 2012/13 ac yng nghyswllt gwaith ardystio grant.

Cyfeiriodd y Swyddog at yr agweddau canlynol yn y datganiad sefyllfa archwilio ariannol gyda'r cynnydd hyd yn hyn -

- Y rhestr a statws y gwaith archwilio ariannol yng nghyswllt archwilio'r Datganiad Cyfrifon 2012/13 yn arwain at ddarparu'r farn Archwilio a'r dystysgrif cwblhau.
- Y sefyllfa gyda chwblhau'r Datganiad Cyfrifon 2011/12 yn dilyn derbyn nifer o wrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwr lleol oedd angen mwy o wybodaeth ac ymchwiliad pellach. Roedd y materion oedd ar ôl gyda'r mater hwn bellach wedi eu cwblhau. Cyn rhyddhau tystysgrif gwblhau, edrychwyd unwaith yn rhagor ar amcangyfrifon sylweddol yn y cyfrifon er mwyn cael sicrwydd nad oeddent wedi eu cam-ddyfynnu i raddau helaeth yng ngoleuni unrhyw ddigwyddiad neu wybodaeth ddiweddarach. Cadarnhaodd y Swyddog bod y dystysgrif gwblhau bellach wedi ei rhyddhau gan yr Archwilydd Apwyntiedig.
- Roedd yr holl hawliadau grant 2011/12 bellach wedi eu hardystio ac eithrio'r grant Budd-dal Tai sydd yn ei gyfnod adolygiad technegol terfynol.
- Yng nghyswllt hawliadau grant 2012/13 roedd gwaith maes wedi dechrau ar yr hawliadau Cymunedau'n Gyntaf a Budd-dal Tai.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

8 ARCHWILIO ALLANOL - AMLINELLIAD ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL

Cyflwynwyd amlinelliad Archwiliad Ariannol Blynyddol am flwyddyn archwilio 2012/13 er gwybodaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r agwedd tuag at archwilio'r datganiadau ariannol; y prif risgiau gweithredol ac ariannol oedd yn cael eu hwynebu gan yr Awdurdod a allai effeithio ar yr archwiliad; rôl yr Archwilydd Allanol yn gwerthuso trefniant yr Awdurdod ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau ynghyd â'r ffi archwilio arfaethedig.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at recriwtio fel maes risg o safbwynt paratoi'r cyfrifon yn nhermau llenwi swyddi yn barhaol yn y tîm Cyllid ac awgrymodd bod gan y Pwyllgor Archwilio efallai rôl yn hyrwyddo'r Gwasanaeth Cyllid fel gyrfa gyda disgyblion ysgolion uwchradd ar yr Ynys ac yn annog prentisiaethau yn yr Adran Gyllid.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI.

9 ARCHWILIO ALLANOL – ARDYSTIO GRANTIAU A DYCHWELIADAU 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar ardystio grantiau a dychweliadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 i sylw'r Pwyllgor er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o nifer yr hawliadau grant a'r dychweliadau ariannol a ardystiwyd ynghyd â'u gwerth; gwybodaeth am nifer yr hawliadau na chawsant eu hamodi yn ogystal â hawliadau yr oedd angen eu hamodi neu eu diwygio a'r rhesymau dros hynny. Er yr ystyriwyd bod yr Awdurdod wedi gwella'r trefniadau ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno hawliadau grant 2011/12, daeth yr archwiliwr i'r casgliad bod lle i wella o hyd ac roedd yr adroddiad yn cynnwys 8 o argymhellion i'r Awdurdod wella'i berfformiad ymhellach o ran rheoli cynlluniau grant a'r hawliadau cysylltiedig. Roedd atodiadau 1 i 4 yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r grantiau a ardystiwyd, rhestr o'r newidiadau a'r amodau, tabl o argymhellion a chrynodeb o'r gwaith a oedd ar ôl i'w wneud.

Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r adroddiad a nodwyd yr ymddengys bod rhai o'r argymhellion yn rhai elfennol ac yn ymwneud â gweithdrefnau y byddai disgwyl iddynt gael eu gweithredu fel mater o drefn ar gyfer rheoli a llunio hawliadau grant. Dywedodd Mrs Lynn Pamment, Partner Ymgysylltu, PwC, bod rhai o'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn gyffredin i awdurdodau eraill hefyd, er enghraifft tystiolaethu costau staff a darparu dogfennau cefnogol ar gyfer codi tâl.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI.

10 RHEOLI RISG AC YSWIRIANT

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cynnydd a wnaed gyda gweithredu'r Fframwaith Rheoli Risg ynghyd â fersiwn ddiwygiedig o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a diweddariad ar Hawliadau Yswiriant.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) wrth yr Aelodau bod yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â gwreiddio trefniadau rheoli risg ar draws yr Awdurdod. Mae'r trefniadau hynny'n parhau i ymsefydlu a chydabyddir bod yna rai risgiau y mae angen i swyddogion eu hegluro ymhellach.

Dywedodd y Rheolydd Risg ac Yswiriant bod y Grŵp Adolygu Perfformiad wedi adolygu'r Cofrestrau Risgiau Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar 2 Gorffennaf 2013. Mae argymhellion y Grŵp wedi eu hymgorffori yn fersiwn ddiwygiedig y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan gynnwys nodi'r pedwar risg uchaf i'r Cyngor fel yr amlinellir nhw yn yr adroddiad. Aeth y Swyddog ymlaen i gyfeirio at brofiadau gyda hawliadau Yswiriant y Cyngor am y cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2013 lle gwelwyd cynnydd o 40% yn yr hawliadau atebolwydd cyhoeddus yn ystod 2012/13, sef cynnydd y gellir ei briodoli i hawliadau am ddifrod i gerbydau oherwydd cyflwr ffyrdd y Cyngor.

Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r adroddiad gan ddwyn sylw at y materion isod fel pwyntiau i'w trafod –

- Mae gor-ddatgan difrod i enw da fel risg yn parhau i fod yn nodwedd o Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig yr Awdurdod, yn arbennig felly oherwydd bod y cyfeiriadau ato mewn perthynas â rhai meysydd risg penodol yn ymddangos fel rhai ar hap a dianghenraid ac yn dwyn sylw at faterion hanesyddol.
- Mae'n ymddangos bod y gofrestr Risg Gorfforaethol yn or-brysur a theimlir nad yw hynny'n cynorthwyo'r Pwyllgor yn ei swyddogaeth o oruchwyllo rheolaeth risg yn yr Awdurdod. Nodwyd yr adroddwyd i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2012 y byddai'r Gofrestr Risg yn cael ei mireinio i roi sylw i'r deg prif faes risg.
- Diffyg gwybodaeth ynghylch canlyniadau a ddisgwylir mewn perthynas â rheoli'r meysydd risg, sy'n golygu bod y gofrestr yn canolbwyntio ar fewnbwn yn hytrach nag allbwn.
- Y rhesymau am y newid yn y risgiau mwyaf yn y cyfnod ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2013. Er bod tri o'r pum risg uchaf yr adroddwyd arnynt ym mis Chwefror wedi disgyn allan o'r categori hwn, roedd dau risg newydd yn y pedwar uchaf ond nid oedd unrhyw resymau yn nodi pam.

Esboniodd y Rheolydd Risg ac Yswiriant bod y Grŵp Adolygu Perfformiad yn parhau i ystyried difrod i enw da fel risg mewn sawl maes, ond bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r gofrestr ac wedi penderfynu cadw cofrestr lawn yn hytrach na fersiwn gynilach.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ei ffurf gyfredol yn cael ei datblygu a chydabyddir nad yw'n adlewyrchu'r canlyniadau a'r manylion am liniaru / cael gwared ar risgiau. Dros y misoedd nesaf caiff y gofrestr ei datblygu ymhellach i gynnwys gwybodaeth gan y swyddogion perthnasol. Cadarnhaodd y Swyddog fod y Grŵp Adolygu Perfformiad yn adolygu'r gofrestr a bod rhai pethau wedi dod i mewn i'r gofrestr o'r newydd, a phethau eraill wedi disgyn allan, ond y byddai, o hyn ymlaen, yn adrodd ar y newidiadau hynny i'r Pwyllgor Archwilio a pham maent wedi digwydd.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a nodi eu cynnwys.

CAM GWEITHREDU YN CODI: Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar symudiadau'r risgiau oddi mewn, ac i mewn ac allan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r rhesymau drostynt.

11 RHEOLI GWYBODAETH A DIOGELWCH DATA

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, Adroddiad gan y Rheolydd Archwilio ar ddatblygiadau cyfredol mewn perthynas â Rheoli Gwybodaeth a diogelwch data gyda chyfeiriad yn benodol at archwiliad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer prosesu data personol a gynhaliwyd gan archwilwyr y Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod mis Gorffennaf 2013.

Rhoddodd y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol grynoded i'r Aelodau o'r cefndir deddfwriaethol i reoli gwybodaeth a diogelwch data, gan gynnwys pwerau'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r cosbau ariannol am dorri Deddf Diogelwch Data 1998. Dywedodd y Swyddog fod gwendidau rheoli sylweddol wedi eu nodi mewn nifer o adroddiadau rheoleiddiol mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli gwybodaeth, llywodraethu gwybodaeth a diogelwch data a bod yr adroddiad Gwella Blynyddol eleni hefyd yn dwyn sylw at y maes hwn fel ffactor sy'n llesteirio gallu'r Cyngor i wella. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ddiweddarau am y cynnydd a wnaed o ran rhoi sylw i'r materion hyn. Yn dilyn achosion gan y Cyngor o dorri Deddf Diogelwch Data 1998, gwnaed ymrwymadau ffurfiol gan y Cyngor dan y Ddeddf gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Ionawr 2011 a Ionawr 2012. O ganlyniad, cytunodd y Cyngor y byddai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal archwiliad cydsyniol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer prosesu data personol. Gwnaed y gwaith maes ar gyfer yr archwiliad yn wythnos gyntaf mis Gorffennaf. Mae'r adroddiad ar yr archwiliad gan Archwilwyr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn debygol o gadarnhau ac efallai ychwanegu at yr argymhellion mewn adroddiadau rheoleiddio cynharach. Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cydnabod parodrwydd y Cyngor i roi gwybod am y materion hyn, ei systemau adrodd sy'n darparu ar gyfer adolygiad prydlon o ddigwyddiadau o'r fath a'r camau priodol i ostwng risg. Dywedodd y Swyddog wrth y Pwyllgor bod prosiect ar lywodraethu gwybodaeth wedi cychwyn mewn parodrwydd ar gyfer yr archwiliad gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar y meysydd penodol a nodir yn yr adroddiad ac y bydd rhaglen waith y prosiect yn cynnwys bwrw ymlaen gyda'r cynllun gweithredu a ddisgwyllir ar gyfer archwiliad cydsyniol y Comisiynydd Gwybodaeth.

Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r adroddiad ac roeddynt yn awyddus i gael sicrwydd bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i roi sylw i'r materion hynny a nodwyd fel rhai sydd angen sylw ac i ganiatáu ar gyfer cwblhau'r broses honno'n brydlon. O gofio bod diffyg cydymffurfiaeth gyda rheolau diogelwch data wedi ei amlygu fel un o risgiau mwyaf y Cyngor, rhagdybir y bydd cyllid sylweddol yn cael ei neilltuo i'r pwrpas hwn. Ar ôl blaenoriaethu gwaith, pwysleisiodd yr aelodau y dylid cymryd camau ar fyrder ynghylch materion rheoli gwybodaeth, a dylid cael sicrwydd bod yr adnoddau ar gael a bod amserlen wedi ei sefydlu ar gyfer prysuro ymlaen gyda'r materion hyn. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddiariad pellach yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Dywedodd y Rheolydd Archwilio y disgwyllir cael adroddiad terfynol y Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Medi ac y bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn penderfynu'r lefel o adnoddau sy'n angenrheidiol ac a fydd ar gael i roi sylw i'r argymhellion fydd yn codi o'r adroddiad. Awgrymwyd y dylid gwahodd archwilwyr y Comisiynydd Gwybodaeth i annerch y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi ynglŷn â'u persbectif ar y trefniadau rheoli gwybodaeth yn y Cyngor, a bod cynrychiolydd o'r UDA yno hefyd i ymateb i'r adroddiad.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

CAM GWEITHREDU YN CODI: Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol i wahodd archwilwyr y Comisiynydd Gwybodaeth i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhelir ym mis Medi, ynghyd â chynrychiolydd o'r UDA i ymateb i adroddiad y Comisiynydd Gwybodaeth.

12 ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/13

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol am 2012/13 gan yr Adain Archwilio Mewnol er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr Adroddiad yn crynhoi'r gweithgareddau archwilio yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 gan gynnwys allbynnau ar ffurf adolygiadau archwilio a gynhaliwyd; perfformiad yn erbyn targedau mewnol, y casgliad archwilio cyffredinol ar y meysydd a archwiliwyd a lefel y risg i'r

Awdurdod y mae hynny'n ei adlewyrchu, yn ogystal â'r meysydd penodol y mae angen rhoi rhagor o sylw iddynt.

Dygodd y Rheolydd Archwilio sylw at y pwyntiau allweddol mewn cyflwyniad gweledol fel a ganlyn -

- Cynhaliwyd cyfanswm o 60 o adolygiadau (terfynol a drafft/agos at drafft) yn ystod 2011/12 o gymharu â 61 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y 60 o adolygiadau yn cynnwys 13 o adroddiadau terfynol nad oeddent wedi eu cynllunio ac a gyhoeddwyd yn 2012/13. Fe'u cynhaliwyd i ddibenion asesu risg/cydymffurfiaeth neu o ganlyniad i waith mewn perthynas â chyfeiriadau.
- Cwblhawyd 81% o gynllun archwilio 2012/13 i drafft yn y flwyddyn yn erbyn targed o 90%.
- Mae'r 53% o'r argymhellion Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na'r targed 80%. Fodd bynnag, gweithredwyd mwy o argymhellion Uchel, sef 74% ohonynt. Bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r argymhellion sydd heb gael sylw a bydd yn gweithio unwaith yn rhagor gyda'r gwasanaethau yn 2013/14 i ddiweddarau'r system 4action gyda'r data gweithredu diweddaraf y gobeithir y bydd yn dangos gwelliant yn erbyn y targed.
- Mae'r graddfeydd Gwyrdd/Ambr ar gyfer adolygiadau systemau ac ysgolion yn golygu nad oes ond risg isel i'r awdurdod yn seiliedig ar sgôp y gwaith a wnaed ac ar yr amod bod y camau gweithredu a argymhellwyd i'r rheolwyr yn cael eu cymryd a bod y systemau hynny'n parhau i weithredu fel y bwriedir.
- Mae'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag dibynnu ar y systemau rheolaeth fewnol ar gyfer y systemau hynny a adolygwyd yn ystod y flwyddyn wedi eu nodi isod -
 - Parhad Busnes
 - Rheoli Risg
 - Llywodraethu
 - Rheoli Gwybodaeth

Penderfynwyd ymhellach i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol gan yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13 a nodi ei gynnwys.

DIM CAM GWEITHREDU YN CODI

13 ARCHWILIO MEWNOL - STRATEGAETH AM A CHYNLLUN CYFNODOL 2012/15

Cyflwynwyd y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/2015 a'r Cynllun Cyfnodol ar gyfer 2013/14 i'r Pwyllgor er ystyriaeth a sylw.

Dygodd y Rheolydd Archwilio sylw at y pwyntiau allweddol trwy gyflwyniad gweledol fel a ganlyn –

- Mae'r ymagwedd archwilio yn seiliedig ar risg ac er mwyn nodi'r meysydd y mae angen i'r Adain Archwilio Mewnol roi sylw iddynt, mae'n rhaid deall y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Cynhaliwyd asesiad risg diwygiedig ar gyfer 2013/14 i 2014/15 gan ddefnyddio'r prosesau a'r meini prawf nodwyd dan adran 2 yn Cynllun.
- Mae'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol yn amlinellu'r meysydd y bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn fel y gwelir yn Atodiad A i'r adroddiad. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar yr Asesiad o Anghenion Archwilio ac ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Adain Archwilio Mewnol yn y cyfnod.
- Mae dadansoddiad o'r adnoddau sydd ar gael yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14 (cyfanswm o 1444 o ddyddiau) i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad. Yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael, a chan gymryd i ystyriaeth ddyddiau na chodir amdanynt mewn perthynas â gwyliau ac absenoldeb salwch, hyfforddiant, gweinyddiaeth a gwaith pwyllgor sy'n weithgareddau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag adolygiadau archwilio, yn ogystal â dyddiau a neilltuwyd ar gyfer gwaith sydd heb ei raglennu, cyfanswm y dyddiau archwilio mewnol sydd ar gael ac a raglennwyd ar gyfer gwaith archwilio mewnol yn erbyn cynllun 2013/14 felly yw 686 o ddyddiau.

Rhoddodd yr aelodau sylw i'r adroddiad a holwyd y swyddogion am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i'r Adain Archwilio Mewnol i wneud y gwaith a raglennwyd ,a hynny o gofio'r tebygolrwydd o gael ceisiadau am adolygiadau mewn meysydd na wnaed cynlluniau ar eu cyfer. Trafodwyd y broses ar gyfer cyllido adolygiadau yr oedd gwasanaethau wedi gofyn yn benodol amdanynt, yn ogystal â'r posibilrwydd o ddod ag adnoddau ychwanegol i mewn i wneud gwaith nad oedd wedi ei raglennu.

Mewn ymateb i ymholiadau'r Aelodau ynghylch digonolrwydd yr adnoddau i ganiatáu i'r Adain Archwilio Mewnol wneud a chyflawni'r hyn yr oedd gwasanaeth wedi ei gynllunio ar gyfer 2013/14, dywedodd y Rheolydd Archwilio y bydd hyblygrwydd adolygiadau'n cael ei drafod gyda'r gwasanaethau unigol. Dywedodd y Swyddog ei fod yn fodlon y gall yr Adain Archwilio Mewnol gynnal 56 o adolygiadau gyda'r staff cyfredol a'i fod yn credu bod lefel yr adnoddau ar hyn o bryd yn briodol i fedru rhoi sicrwydd i'r rheolwyr.

Penderfynwyd derbyn Cynllun Strategol AM ar gyfer 2012/15 a Chynllun Gweithredol AM ar gyfer 2013/14.

DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI

14 ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD GWAITH CHWARTER 1 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am chwarter cyntaf 2013/14 er ystyriaeth y Pwyllgor.

Dygodd y Rheolydd Archwilio sylw at y pwyntiau allweddol mewn cyflwyniad gweledol fel a ganlyn:

- Mae tabl 1 yr adroddiad yn dangos statws yr adolygiadau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac / neu'r adolygiadau a gwblhawyd hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod, ynghyd â'r farn archwilio
- Mae prif gasgliadau'r adroddiadau i'w gweld yn rhan 2 yr adroddiad
- Ni chyhoeddwyd unrhyw adolygiadau archwilio Sicrwydd Coch. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad ymgynghorol mewn perthynas â'r fframwaith partneriaeth yn dwyn sylw at fylchau yn y trefniadau, yn arbennig absenoldeb fframwaith ffurfiol ar gyfer Llywodraethu Partneriaethau - ystyrir bod hyn yn risg sylweddol.
- Roedd 50% o'r Cynllun Archwilio wedi ei gwblhau ar gyfer y chwarter cyntaf. Mae hynny i'w ddisgwyliedig oherwydd dechreuodd y chwarter gyda chwblhau a chyhoeddi wyth o adroddiadau terfynol a oedd yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol ac na chawsant eu cynnwys yn y targed ffigwr canrannol.
- Mae canran yr argymhellion lefel Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na'r targed, sef 51%. Mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi adolygu'r llinellau adrodd ar gyfer gweithredu argymhellion a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio nesaf ar ganlyniadau'r gwaith hwn. Y nod yw codi proffil gweithredu argymhellion ymysg uwch-reolwyr a gwella'r cyfraddau gweithredu yn sgil hynny.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI

15 ADOLYGIAD 2012/13 AR REOLI'R TRYSORLYS

Cyflwynwyd yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blyneddol am 2012/13 i'r Pwyllgor am sylw.

Dywedodd y Rheolydd Cyfrifeg wrth y Pwyllgor fod y gweithgareddau rheoli trysorlys yn 2012/13 yn gyson â'r strategaeth y cytunwyd arni ar 5 Mawrth 2012 cyn dechrau blwyddyn ariannol 2012/13. Mae'r strategaeth wedi gweithredu'n llwyddiannus ac mae'r adroddiad yn nodi canlyniadau'r strategaeth ar ffurf perfformiad benthycy a buddsoddi yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at weithgareddau cyfalaf, dangosyddion trysorlys a darbodus; symudiadau mewn

cyfraddau llog a gweithgareddau manwl ynghylch dyledion. Ymhelaethodd y Swyddog ar sefyllfa net y Cyngor o ran benthyca a'i agwedd tuag at fenthyca, sef dim ond benthyca i ddibenion cyfalaf. Mae'r gweithgareddau benthyca wedi eu cyfyngu gan ddangosyddion darbodus ar gyfer benthyca net a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (angen y Cyngor i fenthyca) a therfynau awdurdodedig. Roedd amgylchedd buddsoddi heriol y blynyddoedd diwethaf yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2012/13 ar ffurf dychweliadau isel o fuddsoddiadau a risgiau uwch gwrthbartion. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw sefydliadau yr oedd yr Awdurdod wedi buddsoddi ynddynt wedi cael unrhyw anhawster ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r adroddiad gan nodi y byddent yn dymuno gweld parhad ymagwedd gwrth-risg tuag at fuddsoddi.

Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Adolygu Rheoli Trysorlys ar gyfer 2012/13 a'i anfon at y Cyngor Sir.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

16 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR GYFER 2013/14

Cyflwynwyd dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2013/14 ac fe'u nodwyd er gwybodaeth.

**Cynghorydd R.Llewelyn Jones
Cadeirydd**

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	24 MEDI 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	CYFRIFON TERFYNOL 2012/13
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ADRODDIAD YNGHYLCH CYFLWYNO DATGANIAD CYFRIFON TERFYNOL, GAN WNEUD SYLWADAU AR Y PRIF FATERION SY'N CODI O'R ARCHWILIAD O'R CYFRIFON
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)
GWEITHREDU:	ARGYMELL DERBYN Y DATGANIAD

1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd cyfrifon drafft y Cyngor Sir ar gyfer 2012/13 i'w harchwilio ar 28 Mehefin 2013. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi ei gwblhau i raddau helaeth ac mae'r Adroddiad gan yr Archwiliwr wedi'i gyhoeddi. Mae nifer o newidiadau i'r drafft wedi eu hymgorffori yn y Cyfrifon. Ar yr amod y byddant yn cael eu cadarnhau gan y Cyngor Sir, bydd y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), Swyddog Adran 151 y Cyngor, ac fe'u cyhoeddir ar ôl derbyn barn yr Archwiliwr.

2. ANSAWDD Y BROSES

2.1 Rwy'n falch o ddweud mai 2012/13 yw'r ail flwyddyn yn olynol y llwyddwyd i gwrdd â dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig.

2.2 Rwyf hefyd yn falch o gydnabod bod y gwelliannau yn y broses archwilio a nodwyd y llynedd wedi parhau a bod yr holl faterion a gododd yn ystod yr archwiliad wedi cael sylw'n brydlon ac yn foddhaol.

3. NEWIDIADAU I'R CYFRIFON

3.1 Mae manylion y prif newidiadau i'r cyfrifon drafft i'w gweld yn Atodiad 3 i Adroddiad yr Archwiliwr ac, felly, ni chânt eu rhestru yma eto. Efallai y bydd angen gwneud mân gywiriadau i destunau ac i sicrhau cysondeb cyn y gellir llofnodi'r cyfrifon.

3.2 Mae'r newidiadau sylweddol yr oedd angen eu gwneud i'r datganiadau drafft wedi eu cyfyngu'n bennaf i:

- Newidiadau i'r Fantolen mewn perthynas â symudiadau ym mhriadau asedau sefydlog.
- Newidiadau i'r dadansoddiad yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant i adlewyrchu gwallau cyfadfer mewn incwm a gwariant.
- Newidiadau i lefelau arian wrth gefn a darpariaethau i adlewyrchu gofynion diwygiedig yn dilyn archwiliad, yn arbennig mewn perthynas â safle tirlenwi Penhesgyn, lle gwnaed trosglwyddiad rhwng arian wrth gefn a darpariaethau i gydymffurfio gyda chyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt costau ôl-ofal gyda'r math hwn o gyfleuster.

4. NEWIDIADAU HWYR A GWYBODAETH YCHWANEGOL

- 4.1** Mae'r Datganiad Cyfrifon yn dwyn ynghyd nifer o eitemau o wybodaeth sy'n gyfrifoldeb trydydd parti ond sy'n cael effaith ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Rydym yn dwyn meysydd pryder i sylw'r Pwyllgor hwn. Eleni, hoffwn ddwyn sylw'r Pwyllgor at sefyllfa Cronfa Bensiwn Gwynedd. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cynnwys amcangyfrif o gyfrifoldeb pensiwn y Cyngor yn seiliedig ar ffigyrau a ddarparwyd gan actiwari a benodwyd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn wedi dwyn i sylw anghysonderau rhwng nifer yr aelodau gweithredol a gohiriedig yn y cynllun rhwng Chwefror ac Awst 2013, a allai gael effaith ar werth y cyfrifoldeb pensiynau yng nghyfrifon 2012/13. Mae gwaith yn cael ei wneud i benderfynu a yw'r newid posib i'r cyfrifoldeb pensiynau yn swm o bwys, ond dylai Aelodau fod yn ymwybodol fod posibilrwydd y bydd cyhoeddi'r dystysgrif archwilio derfynol ar gyfer 2012/13 yn mynd i gael ei ddal yn ôl oni fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau o fewn yr amserlen statudol ar gyfer cau'r cyfrifon. Rhoddir diweddariad llafar yn y cyfarfod.

5. DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2012/13

- 5.1** Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012/13. Mae'r drafft cyfredol a gyflwynir gyda'r adroddiad yma yn fersiwn sydd wedi ei ddiweddarau o'r drafft a roddwyd o flaen y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf, ac mae'n ymgorffori sylwadau'r Pwyllgor Archwilio ynghyd â'r rhai gan swyddogion ac Aelodau. Mae'r ddogfen hefyd wedi ei ddiweddarau ar gyfer adroddiadau rheoleiddwyr ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Y prif newidiadau o'r drafft y rhodddwyd ystyriaeth iddo ym mis Gorffennaf yw :

- cynnwys cyfeiriad at adroddiad SAC ar Sgriwtini;
- cynnwys amlinelliad o drefniadau llywodraethu Aelodau;
- cynnwys cyd-destun ynglyn â threfniadau aswariant;
- newidiadau mewn ymateb i sylwadau swyddogion ac eraill yr ymgynghorwyd a hwy.

6. Y BROSES GYMERADWYO

- 6.1** Y Cyngor Sir sydd bellach yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon. Y Pwyllgor Archwilio sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sgriwtineiddio'r cyfrifon. Rwy'n argymhell, felly, fod y Pwyllgor Archwilio yn gofyn i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r cyfrifon ar 26 Medi 2013.

7 RHAGLEN Y 3 TREF

- 7.1** Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y Rhaglen 3 Tref gan fod y Datganiad Cyfrifon yn cyfeirio at lithriad yn y gwariant yn 2012/13. Mae'r gyllideb gyfalaf gyfan ar gyfer y prosiect yn £8.25m, ac mae rhaglen gyfalaf y Cyngor hwn yn cynnwys £6.85m ar ei gyfer. Mae'r balans o £1.4m yn ymwneud â chyllid uniongyrchol gyda Menter Môn. Ar ddiwedd Mawrth 2013, gwariwyd bron i £5.6m, gyda'r gwariant hwnnw wedi ei rannu rhwng y tair tref fel a ganlyn:

- Caergybi - £2.3m
- Llangefni - £1.8m
- Amlwch - £1.5m

Mae hyn yn gadael balans o £2.65m sydd ar gael i'w wario yn ystod gweddill oes y rhaglen, sydd wedi ei hymestyn gyda chytundeb y partneriaid cyllido i 30 Mehefin 2014. Bydd yr arian hwn yn cael ei wario'n bennaf ar Gynllun Treftadaeth Treflun Caergybi, gyda'r nod o adnewyddu eiddo yng nghanol y dref fel y gellid eu hailddefnyddio ac i adfer a diogelu eu nodweddion pensaernïol unigryw.

8. ARGYMHELLIAD

- 8.1** Cynigir bod y Pwyllgor Archwilio yn argymhell i'r Cyngor Sir gadarnhau derbyn Datganiad Cyfrifon 2012/13.
- 8.2** Bod y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan gyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.

**CYNGOR SIR
YNYYS MÔN**

**DATGANIAD
CYFRIFON
2012/13**

CYNNWYS

		Tudalen
	Rhagymadrodd Eglurhaol	3
	Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon	11
	Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn	12
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	13
	Y Fantolen	14
	Datganiad Llif Arian	15
Nodyn 1	Datganiad o Bolisiau Cyfrifo	16
Nodyn 2	Safonau cyfrifo a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto wedi eu mabwysiadu	32
Nodyn 3	Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisiau Cyfrifo	33
Nodyn 4	Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol o ran amcangyfrifon a ffynonellau eraill o ansicrwydd	33
Nodyn 5	Eitemau Sylweddol o Incwm a Gwariant	34
Nodyn 6	Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen	34
Nodyn 7	Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu dan Reoliad	35
Nodyn 8	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	37
Nodyn 9	Balansau Ysgolion	38
Nodyn 10	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	38
Nodyn 11	Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio	39
Nodyn 12	Gwariant Gweithredol Arall	42
Nodyn 13	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	42
Nodyn 14	Incwm Treth a Grantiau Amhenodol	43
Nodyn 15	Eiddo, Offer a Chyfarpar	43
Nodyn 16	Ymrwymiad Cyfalaf Sylweddol	45
Nodyn 17	Asedau Treftadaeth	45
Nodyn 18	Eiddo Buddsoddiad	46
Nodyn 19	Asedau Anniriaethol	47
Nodyn 20	Gwariant Cyfalaf a Chyllido	47
Nodyn 21	Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	48
Nodyn 22	Prydlesau	48
Nodyn 23	Rhestrau stoc	49
Nodyn 24	Dyledwyr	49
Nodyn 25	Arian Parod a Chywerthoedd Arian	50
Nodyn 26	Credydwyr	50

Nodyn 27	Darpariaethau	51
Nodyn 28	Dadansoddiad o Addasiadau i Warged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	52
Nodyn 29	Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi	53
Nodyn 30	Llif Arian o Weithgareddau Ariannu	53
Nodyn 31	Symiau yr Adroddwyd Arnynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau	53
Nodyn 32	Gweithrediadau Masnachol Sylweddol	58
Nodyn 33	Lwfansau Aelodau	58
Nodyn 34	Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	58
Nodyn 35	Pecynnau Ymadael	60
Nodyn 36	Ffioedd Archwilio Allanol	60
Nodyn 37	Incwm Grantiau	61
Nodyn 38	Partïon Cysylltiedig	62
Nodyn 39	Cronfeydd Ymddiriedol	64
Nodyn 40	Cynllun Pensiynau Athrawon	65
Nodyn 41	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	65
Nodyn 42	Rhwymedigaethau Amodol	69
Nodyn 43	Asedau Amodol	70
Nodyn 44	Offerynnau Ariannol	70
Nodyn 45	Datgeliad ynghylch natur a lefel y risgiau sy'n codi o'r offerynnau ariannol	73
Nodyn 46	Cydbwyllgorau	76
Nodyn 47	Troi Tai'n Gartrefi	76
Nodyn 48	Y Dreth Gyngor	76
Nodyn 49	Trethi Cenedlaethol Annomestig	77
	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	78
	- Datganiad Incwm a Gwariant	79
	- Datganiad Symudiadau ar Falans CRT	80
	- Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai	82
	Geirfa	82
	Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn	89

RHAGYMDRODD EGLURHAOL

1. RHAGARWEINIAD

Mae Datganiad Cyfrifon 2012/13 wedi cael ei baratoi gan ddefnyddio'r arferion cyfrifo gorau a bennwyd gan Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r rhagair yn cynnig canllawiau dealladwy ar y materion pwysicaf yr adroddir arnynt yn y Cyfrifon ynghyd â throsolwg o sefyllfa ariannol y Cyngor yn gyffredinol.

Mae Cyfrifon y Cyngor am 2012/13 yn cynnwys yr isod-

- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon** – mae'n nodi cyfrifoldebau'r Cyngor a Swyddog Adran 151 y Cyngor, y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau);
- **Datganiad Llywodraethu Corfforaethol** – mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer rheoli ac adolygu llywodraethiant corfforaethol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer archwilio mewnol.
- **Datganiadau Ariannol** – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys pedwar o ddatganiadau ariannol sylfaenol, sef:-
 - a) **Datganiad o'r Symudiad mewn Arian Wrth Gefn (MIRS)** – sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor wedi ei ddadansoddi yn ôl arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio ac arian wrth gefn nad yw ar gael i'w ddefnyddio;
 - b) **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** – sy'n dangos y gost o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o drethiant a grantiau cyffredinol yn unol â rheoliadau statudol;
 - c) **Y Fantolen** - sy'n nodi sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2013 fel y cafodd ei hadlewyrchu yn lefel y balansau a'r arian wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor ynghyd â lefel yr asedau a'r ymrwymadau a ddelir gan y Cyngor;
 - ch) **Datganiad Llif Arian** – sy'n crynhoi'r llif arian i mewn ac allan yn ystod y flwyddyn, yn codi o drafodion gyda thrydydd bartïon i ddibenion refeniw a chyfalaf.
- **Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol** – y bwriedir iddynt egluro'r ffigyrau allweddol a ddangosir yn y datganiadau ariannol. Mae'r nodiadau'n cynnwys y Datganiad ar Bolisiau Cyfrifon sy'n cefnogi ac yn egluro sail y ffigyrau yn y Cyfrifon ac yn nodi'r polisiau cyfrifo pwysicaf a'r technegau amcangyfrifo a ddefnyddir i baratoi'r Cyfrifon.

2. FFRAMWAITH STATUDOL

Yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (OS 2005/368 (W.34), fel y cafodd ei ddiwygio), rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Mae Rheoliad 25 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) (OS 2003/3239 (W.319), fel y cafodd ei ddiwygio), yn nodi gweithdrefnau priodol ar gyfer paratoi'r Datganiad Cyfrifon. Yn bennaf, mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys y Côd Ymarfer ar Gyfrifeg Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2012/13 â'r Cod Ymarfer ar Adrodd ar Wasanaethau 2012/13 a gyhoeddwyd gan CIPFA, wedi eu cefnogi gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR).

3. NEWIDIADAU YN Y DRINIAETH GYFRIFO

Nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r driniaeth gyfrifo yn 2012/13 ac o'r herwydd, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r polisiau cyfrifo sy'n cael eu defnyddio yn y Cyngor.

4. GWARIANT AC INCWM REFENIW 2012/13

Beth yw Gwariant ac Incwm Refeniw?

Cyn cychwyn blwyddyn ariannol, mae'r Cyngor yn paratoi ei gyllideb refeniw blynyddol sy'n adlewyrchu'r gwariant a'r incwm y disgwylir y bydd eu hangen yn ystod y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau. Mae gwariant yn ymwneud â chostau rhedeg megis cyflogau gweithwyr a gorbenion, trwsio a chynnal a chadw, costau ynni, trethi a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r defnydd o adeiladau'r Cyngor, cost rhedeg y fflyd gerbydau a chostau cyflenwadau a gwasanaethau i gefnogi adrannau'r Cyngor. Mae incwm yn ymwneud â derbyniadau o werthu nwyddau a ffioedd a thaliadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor a grantiau a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru a chyrrff allanol eraill.

Y swm yr oeddem yn bwriadu ei wario

Roedd cyfanswm y gyllideb refeniw a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2012/13 yn £119m, ar ôl cynnwys grant cyffredinol o £0.729m a defnyddio £1.2m o'r balansau. Roedd hyn i'w gyllido o Grant Cymorth Refeniw'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, sef £73.544m, derbyniadau o'r Gronfa Trethi Cenedlaethol Annomestig, sef £18.787m, a derbyniadau Treth Gyngor o £26.704m.

Y swm a wariwyd mewn gwirionedd

a) Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor

Roedd y gyllideb refeniw net am 2012/13 yn £119m a oedd yn cynnwys gostyngiadau o £3.7m mewn gwariant a defnyddio £1.2m o'r arian wrth gefn.

Derbyniodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor adroddiad ar y canlyniadau dros dro yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2013 a oedd yn nodi tanwariant net o £1.1m, yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y Cyngor.

Dyma'r rhesymau am y tanwariant yn gyffredinol:

- Moratoriwm gwario ar rai mathau o wariant yn ystod rhan olaf y flwyddyn;
- Cyfyngiadau cyffredinol ar wariant gan wasanaethau mewn ymateb i sefyllfa ariannol rhagamcanedig y Cyngor;
- Cyfres o amrywiadau cyllidebol sylweddol ar draws yr holl wasanaethau – ceir manylion yn y paragraffau sy'n dilyn.

Dysgu Gydol Oes

- Gorwariant o £0.358m yng Nghyllideb Integreddio'r Adran Addysg;
- Grant ychwanegol o £0.230m wedi ei dderbyn i gyllido lleoedd chweched dosbarth;
- Tanwariant o £0.093m yn y Gwasanaeth Ieuentid;
- Gwelliant yng nghost net y gwasanaeth prydau ysgol, sydd £0.2m yn well na'r gyllideb.

Gwasanaethau Cymunedol

- Gorwariant net o £0.303m yn yr Adain Plant a Theuluoedd. Mae hyn oherwydd cynnydd yn nifer a chostau'r Plant y Gofelir Amdanynt sy'n achosi gorwariant o £0.663m, a chostau ychwanegol staff asiantaeth o £0.160m. Mae'r gorwariant wedi cael ei wrthbwysu gan arbedion o £0.532m - £0.179m mewn costau maethau a mabwysiadu, £0.203m mewn Gweithgareddau a Gwasanaethau Eraill i Deuluoedd a £0.150m yn sgil cau Canolfan Queen's Park;
- Gorwariant net o £0.381m yn yr Uned Ddarparu yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghostau cartrefi preswyl, cyfleusterau Teleofal a Thai Gwarchod;
- Gorwariant net o £0.068m yn y Gwasanaethau Hamdden a Chymuned yn bennaf oherwydd gorwariant o £0.097m mewn perthynas â'r Parciau a Chyfleusterau Agored, £0.049m yn yr Archifau a £0.065m yn yr Amgueddfeydd. Mae'r gorwariant hyn wedi cael eu gwrthbwysu gan arbediad o £0.111m yng nghostau rhedeg y canolfannau hamdden.

Datblygiad Cynaliadwy

- Mae arbediad o £0.143m yng ngostau'r gwasanaeth Cynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith fod rhai ffrydiau incwm yn y gwasanaeth wedi gor-gyflawni;
- Gwarged net o £0.180m yn y Gwasanaethau Eiddo yn codi o arbedion o £0.096m yn y contract glanhau a £0.074m mewn gweithgareddau eraill yn ymwneud ag eiddo;
- Arbedion o £0.254m yn yr Adran Briffyrdd a Drafnidiaeth yn bennaf oherwydd arbedion o £0.191m yng nghostau goleuadau stryd a £0.102m yn y Cyfrif Gweinyddu Gwaith;
- Arbedion o £0.270m yn y Gwasanaethau Gwastraff oherwydd gostyngiadau o £0.198m yng ngost net rheoli Safle Penhesgyn ac arbediad net bychan o £0.072m mewn gwasanaethau gwastraff eraill.

Dirprwy Brif Weithredwr

- Arbediad o £0.254m yng ngostau gweithredol y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu oherwydd arbedion staffio.

Risgiau Corfforaethol

- Gostyngiad sylweddol yng nghost darparu lleoedd Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn all-sirol sydd wedi arwain at arbedion o £0.149m a £0.333m yn y drefn honno;
- Gostyngiad o £0.183m yng nghostau budd-daliadau tai oherwydd newid yn lefel ddisgwyliedig y cymhorthdal i'w dderbyn mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2011/12.

Roedd y gwelliant cyffredinol yn y canlyniadau dros dro ar gyfer 2012/13 yn golygu y byddai'r angen i ddefnyddio arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol o £1.2m ar gyfer y flwyddyn yn gostwng i £0.092m. Rhyddhawyd adnoddau yn sgil hyn a fydd o gymorth i'r Cyngor gwrdd ag unrhyw ddiffyg cyllidol yn codi o'r cyfyngiadau cyffredol ar arian y sector cyhoeddus.

Ers adrodd ar y ffigyrau i'r Pwyllgor Gwaith, mae'r canlyniadau gwirioneddol wedi cael eu cwblhau a nodwyd gwelliant pellach gyda chynnydd yn y balans cyffredinol o £0.212m yn hytrach na gostyniad o £0.092m fel yr adroddwyd yn flaenorol.

b) Cyfrif Refeniw Tai

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn nodi costau ac incwm a wariwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â stoc dai y Cyngor ei hun. Yn 2012-13, llwyddwyd i gyllido'r holl wariant gweithredol o'r cyfrif a gwnaed cyfraniadau cyfalaf o £2m tuag at y gwaith o gynnal a chadw ac uwchraddio'r stoc yn y tymor hir tra'n cadw balans gweithio o £0.482m.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar y CRT ar gael yn y Datganiadau Atodol i'r Cyfrifon ar dudalen 78.

Defnydd o arian wrth gefn referniw a balansau

Cronfa'r Cyngor

Rhagdybiwyd yng nghyllideb 2012/13 y byddid yn cymryd £0.9m o falansau Cronfa'r Cyngor i gefnogi gwasanaethau. Dengys y canlyniadau fod Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2013 wedi cynyddu gan £0.114m o £5.796m i £5.910m. Gellir gweld symudiadau yn ystod y flwyddyn yng Nghronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Arian Wrth gefn ar dudalen 12.

Cronfeydd wrth Gefn a Clustnodedig

Ar 1 Ebrill 2012, roedd gan y Cyngor £12.882m o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig. Rhagdybiodd cyllideb 2012/13 y byddai £0.3m yn cael ei dynnu o'r Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig i Gefnogi'r Gyllideb referniw. Mae'r canlyniadau gwell wedi arwain at godiad sylweddol yng ngwerth y cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd bellach werth £16.627m, cynnydd o £3.745m yn y flwyddyn. Mae'r gwelliant i'w briodoli'n bennaf i newid technegol yn y categoreiddiad o £2.1m o incwm grant wedi ei neilltuo ar gyfer Cefnogi Pobl (fe'i dangoswyd eisoes yn y cyfrif fel blaen dderbyniadau), cynnydd net o £1.1m yng nghronfeydd wrth gefn gwasanaethau eraill a chreu cronfa wrth gefn o £0.860m ar gyfer gwaith trwsio mawr yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Balansau Ysgolion

Mae defnydd o gronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn cael ei gyfyngu i'r defnydd hwnnw a gymeradwywyd gan yr ysgolion unigol ac mae'r sefyllfa'n amrywio o ysgol i ysgol. Roedd gan deg o ysgolion ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (undeg pedwar ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf) ac mae nifer o ysgolion eraill yn rhagweld diffyg yn y blynyddoedd i ddod.

Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd gwariant net gan ysgolion at ostyngiad yn eu cronfeydd wrth gefn (cyfanswm) gan £0.068m, fel bod cyfanswm cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth 2013 yn £1.18m (£1.25m yn 2011/12). Gweler manylion ynghylch gwerth y cronfeydd wrth gefn fesul y math o ysgol yn nodyn 9 y Cyfrifon ar dudalen 38.

Balans y CRT

Roedd balans y CRT yn £0.482m ar 31 Mawrth 2013, cynnydd o £0.235m o gymharu â'r balans o £0.247m ar 31 Mawrth 2012, sydd yn lefel dderbyniol ar gyfer balans y CRT.

GWARIANT CYFALAF 2012/13

Beth yw Gwariant Cyfalaf?

Mae gwariant cyfalaf yn golygu cost darparu neu wella asedau neu wariant arall lle mae'r manteision yn parhau y tu draw i'r flwyddyn ariannol dan sylw.

Yr hyn yr oeddem wedi bwriadu ei wario

Cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £32.274m ar gyfer 2012/13, yn bennaf i gwrdd ag ymrwymiad y Cyngor i ddod a'i stoc dai i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) ac i weithredu prosiectau pwysig sef ail-leoli Ysgol y Bont, menter adfywio'r 3 tref a gwaith gwella ar y mân-ddaliadau.

Yr hyn a wariwyd gennym mewn gwirionedd

Rhoes y Pwyllgor Gwaith sylw i adroddiad ar ganlyniadau cyfalaf yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2013, a ddangosodd bod y Cyngor wedi gwario £25.4m mewn gwirionedd ar brosiectau cyfalaf yn 2012/13. Mae manylion gwariant yn erbyn cyllidebau prosiect unigol fel a ganlyn:

Prosiect	Cyllideb ar	Gwariant	Amrywiad yn y Flwyddyn £000	Gwariant Cronnol £000	Cyfanswm y
	gyfer	Gwirioneddol			Gyllideb ar gyfer
	2012/13 £000	yn 2012/13 £000			Prosiectau £000
Ail-leoli Ysgol Y Bont,	6,203	4,335	(1,868)	4,562	10,932
Y Stoc Dai – SATC	6,650	7,378	728	28,470	35,000
Prosiectau Tai Cyngor Eraill	3,150	1,373	(1,777)	1,373	3,150
Tai Cronfa'r Cyngor	2,315	1,088	(1,227)	1,088	2,315
Adfywio'r 3 Tref	1,601	669	(932)	4,765	8,248
Yr amgylchedd arfordirol	502	538	36	4,718	4,590
Safle Mwynderau Dinesig Penhesgyn	992	986	(6)	986	1,000
Mân-ddaliadau – gwaith gwella	(546)	1,043	1,589	3,489	6,300
Menter Benthycia Llywodraeth Leol	1,700	1,795	95	1,796	5,300
Isadeiledd Strategol Eraill ar Ynys Môn	150	0	(150)	0	2,013
Arall	9,557	6,223	(3,334)	6,223	9,557
Cyfanswm	32,274	25,428	(6,846)	57,470	88,405

Roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf, sef £25.428m, yn llai gan £6.846m na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y rhaglen gyfalaf. Y prif resymau am y tanwariant yw:

- Mae'r gwaith o godi'r adeilad newydd yn Ysgol y Bont ar ei hôl hi oherwydd oedi yn sgil yn dywydd mawr. Disgwylir yn awr y bydd yr adeilad wedi'i gwblhau ym mis Ionawr 2014;
- Mae gwaith effeithlonrwydd ynni yn nhai'r Cyngor ar ei hôl hi a bydd yn llithro i 2013/14 oherwydd oedi contractyddol gyda chyflenwyr allanol;
- Mae oedi gyda chymeradwyo strategaeth adfywio newydd y Cyngor a ddigwyddodd at ddiwedd 2012, wedi arwain at lithriad sylweddol yn y rhaglen grantiau gwella;
- Mae estyniad amser ar gyfer Cynllun y Tair Tref i 2014/15 wedi ei gytuno oherwydd llithriad sylweddol o ran gwariant ar y prosiect;
- Mae gwaith gwella ar y mân-ddaliadau yn dangos gorwariant sylweddol o gymharu â'r gyllideb. Mae hun oherwydd y ffaith y bwriedir i'r rhaglen fod yn hunangyllidol a chael ei chyllido o werthu'r eiddo. Ar ddiwedd 2011/12, roedd gwariant ar y cynllun £0.546m yn uwch na'r incwm gan arwan at sefyllfa gyllidebol negyddol. Disgwylir y bydd y sefyllfa yn cywiro ei hun yn ystod 2013/14 pryd disgwylir i'r incwm fod yn llawer uwch na chost y gwaith;
- Roedd y gyllideb ar gyfer Cynlluniau Eraill yn cynnwys £0.9m ar gyfer y rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif sydd wedi cael ei gohirio hyd 2013/14. Mae'r tanwariannau eraill yn ymwneud â llithriad ar Gynlluniau Priffyrdd (£0.523m), Gwasanaethau eiddo (£0.676m) a Chynlluniau Adrannol eraill (£1.248m) i 2013/14.

Sut y talwyd am y rhaglen gyfalaf

Mae cyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn dibynnu ar adnoddau grantiau, derbyniadau cyfalaf a ragwelir ac ar lefel o fenthycia sy'n agos at y lefel a dybiwyd gan Lywodraeth Cymru wrth weithio allan y gefnogaeth refeniw.

Mae nifer fechan o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer benthyciadau di-gefnogaeth i'w cyllido drwy gyllidebau neu ffynonellau incwm newydd. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw'r prosiect SATC Tai sydd wedi cael ei gyllido'n rhannol yn y modd hwn ers 2010.

	Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Gwariant Cyfalaf	16,677	8,751	25,428
Grantiau a Chyfraniadau	8,518	2,600	11,118
Cyfraniadau Refeniw	1,209	2,000	3,209
Derbyniadau Cyfalaf	929	30	959
Benthycia gyda Chefnogaeth	3,084	0	3,084
Benthycia Di-gefnogaeth	2,937	4,121	7,058
Cyfanswm y Cyllid	16,677	8,751	25,428
Yr Adnoddau oedd ar gael ar 31 Mawrth 2013			
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwariant Cyfalaf	1,000	0	1,000
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwella Cyfleusterau Hamdden	196	0	196
Benthycia gyda chefnogaeth a ddygwyd ymlaen	2,901	0	2,901
Cyfanswm ar gael	4,097	0	4,097

Roedd gwerth £6.8m o ymrwymadau cyfalaf yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cronfeydd wrth gefn cyfalaf o £1m a chapasiti benthycia a gymeradwywyd ac sydd heb ei ddefnyddio o £2.9m wedi cael eu rhoddi o'r neilltu i gwrdd yn rhannol â'r ymrwymadau hyn. Rhagwelir y bydd balans gweddilliol yr ymrwymadau cyfalaf cyfredol a chostau prosiectau newydd sy'n cael eu dwyn ymlaen yn y blynnyddoedd i ddod yn cael eu cyllido o grantiau cyfalaf, derbyniadau a ragwelir o werthu asedau a benthyciadau.

BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU

Ni aeddfedodd unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd oherwydd penderfynwyd mai defnyddio balansau arian oedd y peth gorau i'w wneud yn yr hinsawdd economaidd gyfredol. Arweiniodd hyn at fenthyciadau allanol o £96.1m ar ddiwedd y flwyddyn, dim newid i'r balans ar 31 Mawrth 2012 gan arwain at fenthycia allanol ar gyfartaledd yn 2012/13 o 5.53% - dim newid i'r sefyllfa fel yr oedd yn 2011/12.

O ganlyniad i'r trafodion hyn a newidiadau mewn dyledwyr, credydwyr ac eitemau eraill, roedd gostyngiad yng nghyfanswm y buddsoddiadau a'r arian parod ar ddyddiad y fantolen o £3.8m i £12.4m erbyn diwedd y flwyddyn, a hynny'n rhannol o ganlyniad i gynnydd yn ddyledwyr tymor byr.

Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2013

Yn ystod 2012/13, cynyddodd rhwymedigaeth pensiwn net amcangyfrifedig y Cyngor gan £16.3m i £80.0m (2011/12 cynnydd £17.1m ac ymrwymiad o £63.7m). Mae'r amcangyfrif yma'n ddibynol iawn ar y tybiaethau wnaed ac mae i'w briodoli'n bennaf i elw bondiau'n disgyn a dychweliadau buddsoddi gwael. Mae'r rhagamcan o gostau pensiwn ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd wedi codi am yr un rhesymau, gan leihau'r graddfa dychweliad disgwylidiedig ar asedau.

Y cynnydd yn y rhwymedigaeth pensiynau yw'r ffactor sengl fwyaf sy'n effeithio'r symudiad yn fantolen y Cyngor, gyda gwerth net y Cyngor yn gostwng o £163.596m yn 2011/12 i £150.461m erbyn 31 Mawrth 2013.

EITEMAU O BWYS

Yr asesiad gorau o gadernid ariannol yw'r graddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth ar gyfer ymrwymadau y gwyddys amdanynt a maint yr arian wrth gefn dosbarthadwy sydd ar gael i ddarparu ar gyfer risgiau ac ansicrwydd arall. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth lawn ar gyfer yr holl ymrwymadau a nodwyd lle bynnag y mae arferion cyfrifo priodol yn mynnu hynny. Mae'r amgylchiadau y mae angen gwneud darpariaeth benodol ar eu cyfer yn cael eu nodi yn eitem 13 dan Nodyn 1 y Datganiad. Mae cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi cael eu sefydlu lle mae eu hangen i gwrdd â gofynion statudol neu reoleiddiol, oherwydd amodau grant, yn unol â chynlluniau penodol y Cyngor neu lle mae'n beth doeth gwneud hynny er mwyn caniatáu ar gyfer risgiau ac ansicrwydd. Fel y dywedwyd uchod, roedd y Cyngor yn wreiddiol wedi cynllunio i ddefnyddio £1.2m o'r balansau i gefnogi gwariant yn 2012-13 ond oedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn mewn gwirionedd yn dangos cynnydd o £0.114m yn y balansau i £5.9m a oedd yn cryfhau'n sylweddol sefyllfa ariannol sylfaenol y Cyngor. Er y byddem yn croesawu'r newyddion hwn ar unrhyw adeg, mae'n newyddion da iawn ar adeg pan mae'r Cyngor yn ymgymryd â rhaglen o drawsnewid corfforaethol ac yn cynllunio i gwrdd â sefyllfa economaidd ac ariannol sy'n gynyddol heriol.

Yn yr Arian Wrth Gefn Clustnodedig o £16.6m (£12.9m ar 31 Mawrth 2012), mae £2.7m (£2.0m ar 31 Mawrth 2012) wedi cael ei roddi o'r neilltu ar gyfer costau yn sgil gweithredu Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi, er nad yw hyn yn amcangyfrif o rwymedigaeth wirioneddol. Yn ychwanegol at hyn, mae £9.4m pellach wedi cael ei nodi i ddibenion penodol (e.e. Cronfa Yswiriant o £2.4m) neu arian sydd wedi ei glusodi'n benodol oherwydd amodau grant. Mae balansau'r ysgolion yn £1.2m (£1.3m ar 31 Mawrth 2012) ac mae balans y CRT yn £0.48m, cynnydd o £0.23m o fewn y flwyddyn.

PENSIYNAU

• CYNLLUN PENSIYNAU ATHRAWON

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoddi i athrawon fuddion penodol ar adeg eu hymddeoliad ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar gyfran o gyflog pensiynadwy'r aelodau.

• CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeoliad drwy fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, wedi ei glandro ar lefel y bwriedir iddi falansio'r ymrwymadau pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddion yn daladwy mewn gwirionedd hyd oni fydd swyddogion yn ymddeol ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau i'r gronfa pensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd y gweithwyr yn cael y buddion yn y dyfodol.

Safon Gyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19 - Buddion Gweithwyr sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol ac sy'n berthnasol i Gronfa Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd. Caiff yr ymrwymiad pensiwn net ei gydnabod yn y fantolen ac mae wedi cynyddu gan £16.3m o £63.7m i £80.0m yn ystod 2012/13. Caiff ymrwymiad gwirioneddol y Cyngor ei adolygu bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad a gynhelir bob tair blynedd o'r Gronfa Pensiwn a phenderfynir ar strategaeth buddsoddi sy'n anelu at adennill y diffyg dros gyfnod penodol (25 o flynyddoedd ar hyn o bryd). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn galw am gyfraniad ar unwaith o arian wrth gefn y Cyngor gan mai swm tybiannol ydyw sy'n dangos faint yn fwy yw ymrwymadau pensiwn y Cyngor nag asedau'r Gronfa.

Mae'r Datganiad Symudiadau yn yr Arian wrth Gefn a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y buddion pensiwn a gafwyd yn y flwyddyn wedi eu haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu'r rhan honno o'r costau pensiwn nad ydynt yn cael eu talu gan drethdalwyr y Cyngor.

DARPARIAETHAU

Roedd cyfanswm y darpariaethau yr oedd y Cyngor yn eu dal yn £6.438m ar 1 Ebrill 2012. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y balans gan £1.16m i £7.598m yn bennaf oherwydd yr angen i ddarparu darpariaeth ychwanegol i gwrdd â'r rhwymedigaethau ynglun â chostau ol-ofal safle tirlenwi Penhesgyn, Cynllun Trefniant MMI ac i gwrdd â chyfrifoldebau cynyddol o ran cyflogau cyfartal.

Ceir manylion am y symudiadau yn y darpariaethau yn nodyn 27 y Cyfrifon ar dudalen 51.

YMRWYMIADAU WRTH GEFN

Caiff nifer o ymrwymadau wrth gefn eu datgan yn y cyfrifon mewn perthynas â digwyddiad a all olygu ymrwymiad i'r Cyngor ond na fydd yr ymrwymadau hynny ond yn cael eu cadarnhau pan fydd y digwyddiad wedi cymryd lle neu fel arall ddigwyddiadau nad oes sicrwydd yn eu cylch yn y dyfodol ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae gwerth yr ymrwymadau posibl hyn a'r tebygolrwydd y bydd angen arian i gwrdd â'r ymrwymadau hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Ar gyfer 2012/13, roedd y datganiadau'n cynnwys:

- Hawliadau Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi;
- Adennill taliadau a wnaed gan y Cyngor dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- Ymrwymiad contractyddol o bosib yn codi o atgyweirio Pier Biwmares.

Ceir manylion llawn am yr ymrwymadau wrth gefn hyn yn nodyn 42 y Cyfrifon ar dudalen 69.

ASEDAU WRTH GEFN

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o bridiannau cyfreithiol dros eiddo preswyl preifat lle rhoddodd gefnogaeth i'r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer cymorth i brynu cartrefi, gyda hawl gan y Cyngor i gyfran o'r derbyniadau ar adeg gwerthu'r eiddo. Ceir manylion pellach yn nodyn 43 y Cyfrifon ar dudalen 70.

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'n ofynnol ar i Gyngor Sir Ynys Môn:

- * wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog yw'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), sef y Swyddog Adran 151 dynodedig.
- * reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.
- * gymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Côd SAARh").

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:

- * dewis polisiau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson.
- * ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus.
- * cydymffurfio â'r Côd Ymarfer SAARH.

Hefyd mae'r Swyddog Adran 151 wedi:

- * cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol.
- * cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Tystysgrif

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013.

Llofnodwyd:

CLARE J. WILLIAMS
PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151

27 MEDI 2013

**DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN
AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N GORFFEN 31 MAWRTH 2013**

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a cronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell 'Gwarged neu (Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau' yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell 'Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd statudol ac wrth gefn eraill' yn dangos balans statudol Cronfa'r Cyngor a'r Gronfa Refeniw Tai cyn gwneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd statudol ac wrth gefn eraill a gyflawnir gan y Cyngor.

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd wrth Gefn Cronfa'r Cyngor a Glustnodwyd (Nodyn 8)	Balans Cyfrif Refeniw Tai (Nodyn CRT)	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 10)	Balansau Ysgolion (Nodyn 9)	Grantiau Cyfalaf Anghynwysiedig (Nodyn 14)	Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd (CRT)	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2011	6,743	11,645	255	0	2,246	0	0	20,889	168,264	189,153
Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn yn ystod y flwyddyn										
Gwarged/(Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	(3,520)	0	(4,957)	0	0	0	0	(8,477)	0	(8,477)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	0	0	0	0	(17,080)	(17,080)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(3,520)	0	(4,957)	0	0	0	0	(8,477)	(17,080)	(25,557)
Addasiadau rhwng y Sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn X)	2,816	0	4,949	0	0	0	0	7,765	(7,765)	0
Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(704)	0	(8)	0	0	0	0	(712)	(24,845)	(25,557)
Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd (nodyn 8)	(243)	1,237	0	0	(994)	0	0	0	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y flwyddyn	(947)	1,237	(8)	0	(994)	0	0	(712)	(24,845)	(25,557)
Balans ar 31 Mawrth 2012	5,796	12,882	247	0	1,252	0	0	20,177	143,419	163,596
Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn yn ystod y flwyddyn										
(Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	6,135	0	(6,776)	0	0	0	0	(641)	0	(641)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	0	0	0	0	0	0	0	0	(12,494)	(12,494)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	6,135	0	(6,776)	0	0	0	0	(641)	(12,494)	(13,135)
Addasiadau rhwng y Sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn 7)	(3,360)	0	8,027	14	0	262	0	4,943	(4,943)	0
(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	2,775	0	1,251	14	0	262	0	4,302	(17,437)	(13,135)
Trosglwyddiadau i / (o) Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	(2,661)	2,729	(1,016)	0	(68)	0	1,016	0	0	0
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y flwyddyn	114	2,729	235	14	(68)	262	1,016	4,302	(17,437)	(13,135)
Balans ar 31 Mawrth 2013	5,910	15,611	482	14	1,184	262	1,016	24,479	125,982	150,461

**DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2013**

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi. Mae Awdurdodau'n yn codi trethi i gwrrd â gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

2012/13			Nodyn	2011/12		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£000	£000	£000		£000	£000	£000
5,684	(5,405)	279	Gwasanaethau canolog	5,719	(5,413)	306
8,344	(3,297)	5,047	Gwasanaethau diwylliannol a chysylltiedig	8,154	(3,356)	4,798
67,857	(13,364)	54,493	Gwasanaethau Plant ac Addysg	71,486	(12,720)	58,766
15,489	(4,832)	10,657	Gwasanaethau Prifysrdd a Chludiant	16,981	(4,374)	12,607
13,080	(13,172)	(92)	Tai Awdurdod Lleol (CRT)	10,256	(12,426)	(2,170)
21,688	(20,140)	1,548	Gwasanaethau Tai eraill	21,976	(19,525)	2,451
32,934	(13,587)	19,347	Gofal Cymdeithasol Oedolion	33,883	(11,590)	22,293
8,739	(3,446)	5,293	Cynllunio a Datblygu	9,405	(3,510)	5,895
12,351	(3,045)	9,306	Gwasanaethau Amgylcheddol	11,374	(3,173)	8,201
6,808	(1,395)	5,413	Craidd corfforaethol a democrataidd	8,355	(1,284)	7,071
243	0	243	Costau heb eu dyrannu	419	0	419
193,217	(81,683)	111,534	Diffyg ar Weithrediadau Parhaus	198,008	(77,371)	120,637
		20,809	Gwariant Gweithredol Arall			19,660
		6,610	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi			4,392
		(138,312)	Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol			(136,212)
		641	Diffyg/(Gwarged) ar ddarparu gwasanaethau			8,477
		(6,124)	Gwarged/ Diffyg) yn deillio o ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol	15-16		(1,807)
		18,618	Enillion/Colledion Actiwaraidd ar Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn	41		18,887
		12,494	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall			17,080
		13,135	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			25,557

Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2013

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r Cronfeydd wrth Gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y Cronfeydd wrth Gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys Cronfeydd wrth Gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn); a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

	Nodyn	31 Mawrth 2013 £000	31 Mawrth 2012 £000
Eiddo, Offer a Chyfarpar	15	303,537	299,444
Asedau Treftadaeth	17	3,306	3,040
Eiddo Buddsoddiad	18	7,991	8,379
Asedau Anniriaethol	19	213	74
Buddsoddiadau tymor hir	44	0	0
Dyledwyr tymor hir	24	433	450
Asedau tymor hir		315,480	311,387
Buddsoddiadau tymor byr	44	10,101	5,058
Asedau a ddelir i'w gwerthu	21	196	180
Rhestrau stoc	23	545	675
Dyledwyr tymor byr	24	25,798	22,363
Arian Parod a Chywerthoedd Arian	25	2,304	11,164
Asedau Presennol		38,944	39,440
Benthyca Tymor Byr	44	(8,447)	(1,946)
Credydwyr Tymor Byr	26	(18,223)	(18,856)
Darpariaethau	27	(4,184)	(4,296)
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw	37	(71)	(144)
Rhwymedigaethau presennol		(30,925)	(25,242)
Credydwyr Tymor Hir	26	(0)	(4)
Darpariaethau Tymor Hir	27	(3,414)	(2,142)
Benthyca Tymor Hir	44	(89,590)	(96,097)
Rhwymedigaethau Tymor Hir eraill	41	(80,034)	(63,746)
Rhwymedigaethau Tymor Hir		(173,038)	(161,989)
Asedau Net		150,461	163,596
Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad	8-10	24,479	20,177
Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio	11	125,982	143,419
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn		150,461	163,596

DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN SY’N GORFFEN 31 MAWRTH 2013

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn Arian Parod a Chyferthoedd Ariannol yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio Arian Parod a Chyferthoedd Arian trwy ddsbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a gyllidir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-llif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariaeth gwasanaeth yr Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

	Nodyn	2012/13 £000	2011/12 £000
Gwarged/Diffyg) Net ar Ddarparu gwasanaethau		(641)	(8,477)
Addasiadau i'r gwaged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	28	20,058	14,319
Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwaged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	28	(12,166)	(10,976)
Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu		7,251	(5,134)
Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi	29	(16,105)	13,347
Llif arian net o Weithgareddau Cyllido	30	(6)	(6,506)
Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chyferthoedd Arian		(8,860)	1,707
Arian Parod a Chyferthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol	25	11,164	9,457
Arian Parod a Chyferthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	25	2,304	11,164

NODIADAU AR Y CYFRIFON

NODYN 1 - DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Yn y rhan hon, nodir y polisiau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon.

Cyfeirnod y Polisi	Teitl y Polisi
1	Egwyddorion Cyffredinol
2	Cronni Incwm a Gwariant
3	Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen
4	Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd
5	Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau
6	Treth ar Werth (TAW)
7	Eiddo, Offer a Chyfarpar
8	Eiddo Buddsoddiad
9	Asedau Anniriaethol
10	Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir
11	Arian Parod a Chywerthoedd Arian
12	Offerynnau Ariannol
13	Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn
14	Cronfeydd wrth Gefn
15	Cydnabyddiaeth Refeniw
16	Llog Mewnol
17	Prydlesau
18	Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)
19	Grantiau y Gellir eu Derbyn
20	Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)
21	Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol
22	Arian Tramor
23	Codi ar Refeniw am Asedau nad ydynt yn Gyfredol
24	Buddiannau'r Gweithwyr
25	Hawliadau Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2012/13 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2013. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y cawsant eu diwygio 2010), a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2012/13 a'r Côd Ymarfer ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2012/13, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARH).

Y confensiwn cyfrifo pennaf a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol, wedi ei diwygio trwy ailbrisiu rhai categorïau penodol o asedau nad ydynt yn gyfredol.

Mae'r cyfan o'r prif bolisiau cyfrifo wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy'r flwyddyn.

2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid yn unig pryd y gwneir neu bryd y derbynnir taliadau arian parod. Yn arbennig:

- Mae'r refeniw o werthu nwyddau'n cael ei gydnabod pan fo'r Cyngor yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a'r buddion perchenogaeth i'r prynwr a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Cyngor;
- Mae refeniw o ddarparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod pan fo'r Cyngor yn medru mesur yn ddibynadwy pa ganran o'r trafodyn a gwblhawyd a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Cyngor;
- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio; cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac adneuron banc ac sy'n daladwy ar fenthyciadau (gan gynnwys gorddrafftiau banc) yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar gyfradd y llog mewn grym i'r offeryn cyllidol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract;
- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan fo dyledion heb eu setlo mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau;
- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond pan fo categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Ni adlewyrchir digwyddiadau yn y Datganiad Cyfrifon sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi.

4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Cyngor ynghyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n ei reoli a'r rhwymedigaethau a wyneba ac mae'n rhoi fel credyd neu ddebyd, yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y gwariant hwnnw a'r gyfran o incwm a enilla yn sgil gwaith y gweithrediad.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan y Cyngor a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwy. Nid yw'r gydfenter yn galw am sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y gydfenter a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Gall Addasiadau Cyfnod Blaenorol ddeillio o newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. eleni ac ym mlynnyddoedd y dyfodol y ceir effaith arnynt gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifo cywir y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifo neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau perthnasol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

6. Treth ar Werth (TAW)

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul ond i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

7. Eiddo, Offer a Chyfarpar

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Cydnabyddiaeth

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail groniadau, ar yr amod ei bod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel y mae'n digwydd.

Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr;
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli,

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnwid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu ac asedau nad oes eu hangen mwyach – cost dibrisiant hanesyddol;
- tai cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- eiddo offer a cyfarpar – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'bywyd defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn ymgymryd prisiadau o'i asedau ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd. Mae eitemau unigol o fewn dosbarthiadau gwahanol o asedau, e.e. ysgolion cynradd, mân ddaliadau, a.y.y.b, yn cael eu prasio mewn blwyddyn sengl, er mwyn sicrhau fod yr holl asedau o unrhyw fath yn cael eu hail-brisio o fewn cyfnod byr. Yn y blynyddoedd rhwng prisiadau, cyfeirir at y mynegon perthnasol a gwneir addasiadau i brisiadau os oes unrhyw arwydd o newid materol. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydabod enillion heb eu gwireddu.

Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion sydd wedi cronni);
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Ar hyn o bryd wneir prisiadau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. O'r herwydd, mae'n angenrheidiol i adolygu'r prisiadau ar ddyddiad y Fantolen i benderfynu os mae unrhyw newidiadau materol wedi cymryd lle yn ystod y flwyddyn i werth yr asedau. Fel arfer, mae hyn oherwydd cynyddiadau mynegeio adnabyddadwy sy'n effeithio gwerthoedd eiddo. Fel gyda phrisiadau ffurfiol, adlewyrchir cynyddiadau o fynegeio yn y Fantolen drwy ddebydu asedau sefydlog a chredydu'r Gronfa wrth Gefn Ailbrisio. Fodd bynnag, gan nad yw'r cynyddiadau yma'n codi o brisiadau eiddo ffurfiol, mae gwerth y cynnydd y cyrhaeddir ato drwy fynegeio yn cael ei wrthdroi o'r Fantolen pan gynhelir ailbrisiadau ffurfiol o'r asedau perthnasol.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad eu gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Amhariad

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i amser yn mynd yn ei flaen neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros gyfnod hyd at 75 mlynedd, fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr;
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 10 mlynedd, gan ddibynnu ar werth cychwynnol yr ased;
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnod hyd at 45 mlynedd, yn dibynnu ar werth yr ased.

Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn Cael eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased (neu grŵp gwaredu) yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu. Mae'r ased (neu grŵp gwaredu) yn cael ei ailbriso yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau (neu grŵp gwaredu) bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

'Grŵp gwaredu' yw grŵp o asedau, o bosib gyda rhai rhwymedigaethau cysylltiedig, y bwriada'r Cyngor gael gwared â nhw mewn un trafodyn unigol. Defnyddir y sail fesur sy'n ofynnol ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol a ddsberthir fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu i'r grŵp cyfan, ac mae unrhyw golled ddilynol yn lleihau swm cario'r Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn y grŵp gwaredu yn y drefn ddsbarthu sy'n ofynnol gan IAS 36.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddadgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10,000 a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Rhoddir o'r neilltu gyfran o dderbyniadau yn ymwneud â gwaredu tai er mwyn lleihau'r angen i fenthycu ac i gyfateb â threuliau dyled a gyllidir o gymhorthdal tai. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol y Cyngor i fenthycu (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn. Mae Asedau Treftadaeth a ddelir gan y Cyngor yn cynnwys adeiladau hanesyddol a gwaith celf.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol). Er cyflawnrwydd, bydd gwybodaeth ynglŷn ag Asedau Treftadaeth weithredol, ynghyd â chael eu hymgorffori i ddatgeliadau dan y pennawd/penawdau gweithredol perthnasol (e.e. Eiddo, Offer a Chyfarpar), byddent yn cael eu hadnabod ar wahân a'u datgelu ynghyd â materion mewn perthynas ag Asedau Treftadaeth arall.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a perthnasol mewn perthynas â'r ased unigol neu ddosbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronedig, amortiddio a cholledion amhariad). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyffredol, ac ar gyfnodau dim mwy na pum mlynedd.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail a dosbarthiadau arall ased (am fanylion gweler 'Eiddo, Offer a Chyfarpar').

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol.

Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad; er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuan newydd yn codi ynglŷn â'i ddilysrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler 'Eiddo, Offer a Chyfarpar').

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor bolisi i fynd ati'n weithredol i gael caffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriol Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae Eiddo Treftadaeth yn cael ei rheoli a'u cynnal a'u cadw, wrth ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

8. Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw eiddo a ddefnyddir yn unswydd i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf. 'Dyw'r diffiniad ddim yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae Eiddo buddsoddiad yn cael ei fesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu am faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partïon gwybodus hyd fraich. 'Dyw eiddo ddim yn cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff ei ailbrisiu'n flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbrisiu'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am Eiddo buddsoddiad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn peri cynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, ni chaniateir i enillion a cholledion ailbrisiu a gwerthu, dan drefniadau statudol, gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

9. Asedau Anniriaethol

Mae gwariant ar asedau nad ydynt yn ariannol sydd heb ffurf ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) yn cael eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Awdurdod neu ei wasanaethau.

Ar y cychwyn cyntaf mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbriso hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Awdurdod yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol nid oes yr un o'r asedau anniriaethol y mae'r Awdurdod yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac felly cânt eu cludo yn ôl y gost lai amorteiddio cronodig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar ased pryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased - mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(au) i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased anniriaethol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei drosglwyddo i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

10. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu net - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sy'n mynd rhagddo wedi ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.

11. Arian Parod a'i Gyfwerth

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuron gyda sefydliadau ariannol yn daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth arian parod yn fuddsoddiadau hynod o hylif sy'n aeddfedu mewn dim mwy na tri mis o'r dyddiad caffael a gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod gyda risg dibwys o newid i'r gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian Parod, dangosir arian parod a'i gyfwerth net o'r gorddrafftiau banc sy'n daladwy ar alw ac maent yn rhan hanfodol o reolaeth arian parod yr Awdurdod.

12. Offerynnau Ariannol

Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn barti i ddarpariaethau contract offeryn ariannol a chânt eu mesur, yn y lle cyntaf, yn ôl gwerth teg ac wedyn cânt eu cario yn ôl eu cost lai amorteiddio cronodig. Mae'r treuliau blynyddol yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt y llog taladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth a gludir, wedi ei luosi gan y gyfradd llog mewn grym ar y pryd i'r offeryn. Y gyfradd a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt cysâct ar y taliadau arian parod yn y dyfodol dros oes yr offeryn yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf.

Yn achos y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Awdurdod, golyga hyn mai'r swm sydd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog cronus); a'r llog a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthycia.

Mae'r enillion neu'r colledion wrth ail-brynu neu wrth setlo'r benthyciad yn gynnar yn cael eu rhoddi mewn credyd neu mewn debyd yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn ail-brynu/setlo. Fodd bynnag, pan fo ail-brynu yn digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthycia yng nghyswllt diwygio neu ffeirio'r offerynnau presennol, yna mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu at y gost lai amorteiddio cronodig y benthyciad newydd neu'r un diwygiedig a'r cofnod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei daenu dros oes y benthyciad trwy wneud diwygiad i'r gyfradd log gweithredol.

Pan fo premiwm neu ddisgownt wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu taenu, dros flynyddoedd y dyfodol, unrhyw effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Polisi'r Awdurdod yw taenu'r enillion neu'r colledion dros weddill tymor y benthyciad yr oedd y premiwm yn cael ei dalu drosto neu bryd yr oedd y disgownt yn cael ei dderbyn pan ad-dalwyd. Mae cysoni symiau a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r taliad net o Falans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau ariannol

Dosberthir asedau ariannol yn ddau gategori:

- benthyciadau a derbynyddion posib - asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu yn y farchnad weithredol;
- asedau sydd ar gael i'w gwerthu - asedau sydd â phris marchnad dyfynedig ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy.

Benthyciadau a derbyniadau posib

Cydnabyddir benthyciadau a derbynyddiadau posib ar y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur ar werth teg. Wedi hynny, cânt eu mesur yn ôl y gost amorteiddio. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario ased wedi ei luosi gan y raddfa log perthnasol i'r offeryn. Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau a drefnwyd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog cronus) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer derbynyddiadau sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol llif arian diwygiedig y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol yr ased gwreiddiol.

Bydd unrhyw enillion neu unrhyw golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod yr ased yn cael eu rhoddi mewn credyd/debyd i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

13. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'r Awdurdod, sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth posibl, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod yr Awdurdod yn rhan o achos llys fyddai'n debygol i arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol - pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), gwydroir y ddarpariaeth a'i rhoddi mewn credyd yn ôl yn y gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os oes sicrwydd go bendant yn unig y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r Awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib ar yr Awdurdod, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr Awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Awdurdod, ond ni fydd modd cael cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr Awdurdod.

Ni chydabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnllif o fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib.

14. Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn. Crëir Cronfeydd wrth Gefn trwy drosglwyddo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Awdurdod - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisiau perthnasol.

15. Cydnabyddiaeth Refeniw

Mae'r polisi cydnabod refeniw yn ymwneud â gwerthu nwyddau (a gynhyrchir gan yr Awdurdod i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), cynnig gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau y mae a wnelont yn uniongyrchol â chontractau adeiladau), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y dreth gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw.

Mae refeniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Fodd bynnag, os ydyw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei chydabod, yn y lle cyntaf, yn ôl y pris cywerthoedd arian. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel refeniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae derbynyddiadau tymor byr heb log dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol pan fo effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. refeniw yng nghyswllt y dreth gyngor a threthi cyffredinol, ac felly mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

16. Llog Mewnol

Buddsoddir balansau arian gan yr Awdurdod yn unol â'i Bolisiau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi, am gyfnodau o hyd at bum mlynedd ac fe gronnir a chredydir y llog i Gronfa'r Cyngor. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chronfeydd trydydd parti eraill ar sail y raddfa log a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai Cronfeydd wrth Gefn hefyd yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

17. Prydlesau

Y Cyngor yn gweithredu fel Prydlesau

Mae prydlesau'n cael eu categorio fel prydlesau ariannol pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo, i bob pwrpas, o'r prydleswr i'r prydlesau'r holl risgiau a'r holl fendithion sydd ynghlwm wrth fod yn berchennog yr eiddo, yr offer neu'r cyfarpar. Categorioedd yr holl brydlesau eraill fel prydlesau gweithredol.

Prydlesau Gweithredol

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, mae'r tir a'r adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân i bwrpas categorioedd.

Pan fo trefniadau heb statws cyfreithiol prydles, ond er hynny'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad, yna mae cyfrif amdanynt dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Mae rhenti a delir dan brydlesau gweithredol yn cael eu codi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul i'r gwasanaethau sy'n cael y budd o'r eiddo, offer neu gyfarpar prydles. Codir y taliadau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. mae cyfnod di-rent ar gychwyn y brydles).

Yr Awdurdod fel Prydleswr

Mae prydlesau'n cael eu categorio fel prydlesau ariannol lle mae telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a buddiannau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar eiddo, beiriannau neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesau.

Prydlesau Gweithredol

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu naill ai i'r llinell gwasanaeth uniongyrchol neu'r llinell Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi (o ran incwm a gafwyd o brydlesau eiddo buddsoddi) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

18. Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor godi darpariaeth ar Gronfa'r Cyngor ar gyfer adbryniant dyled. Y mae hwn yn cael ei leihau gan swm y tâl dibrisiant a wnaethpwyd eisoes i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i adael y MRP net y gellir ei godi ar Gronfa'r Cyngor.

Cyhoeddwyd rheoliadau newydd gan Lywodraeth Cymru yn 2008/09 yn gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth ddarvoudus ar gyfer MRP gan gynnwys opsiwn i ddarparu MRP am oes yr ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio MRP hyd oni fydd yr ased yn cael ei chomisiynu.

Mae'r Cyngor fodd bynnag yn parhau i gyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol mewn perthynas â'r gofyniad cyllid cyfalaf:

- cyfrifo darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar 2% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) CRT agoriadol.
- Mae darpariaeth Cronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar 4% o'r CFR nad yw'n CRT hyd at 2007/08, yn unol â'r Rheoliadau a weithredwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Ers 2007/08, mae MRP yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased.

Cyfyd eithriad i'r polisi hwn o ran gwariant sy'n gyfarwyddyd cyfalafu a gyhoeddwyd dan Adran 40(6) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Bydd unrhyw wariant o'r fath yn cael ei ddileu naill ai yn unol â'r polisi uchod neu dros nifer y blynyddoedd a nodir yn y cyfarwyddyd.

19. Grantiau y Gellir eu Derbyn

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a dderbyniwyd mewn ffurf grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn y llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

20. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycy, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor.

21. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y rheini sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo (CIPFA) Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2011/12 (SeRCOP). Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr - cost lawn y gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddiannau a gafwyd, ac eithrio:

- Craidd Corfforaethol a Democraidd – costau'n gysylltiedig â statws yr Awdurdod fel sefydliad amlswyddogaethol, democraidd;
- Costau heb eu Dosbarthu - costau buddiannau dewisol a rhoddir i weithwyr yn ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad i'w codi ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Diffinnir y ddau gategori hyn yn SeRCOP a chyfrifir amdanynt o dan benawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant Net ar Wasanaethau sy'n Parhau.

22. Arian Tramor

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau grant dan y rhaglen 'Interreg' lle mae'r sefydliad sy'n arwain yn Wyddelig a'r grantiau'n cael eu dyrannu mewn Ewros. Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn ac i gyfyngu ar y peryglon a achosir gan symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid. Caiff y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn ei drosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid fel yr oeddynt ar 31 Mawrth gyda'r enillion neu'r colledion canlyniadol yn cael eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

23. Codi ar Refeniw am Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Rhoddir debyd yn erbyn gwasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu yn ôl y symiau a ganlyn i bwrpas cofnodi cost dal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol;
- colledion ailbrisiu ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus yn y Cyfrif Ailbrisiu Wrth Gefn y mae modd dileu'r colledion yn ei erbyn;
- amorteiddio asedau anniriaethol a briodolir i'r gwasanaeth.

Nid oes raid i'r Awdurdod godi'r dreth gyngor i bwrpas cyllido colledion dibrisiant, ailbrisiu neu amhariad na rhai amorteiddio. Fodd bynnag, rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol – cyfraniad sy'n cyfateb i swm a glandrir ar sail bwylllog ac a bennir gan yr Awdurdod yn unol â chyfarwyddiadau statudol.

Felly, yn lle colledion dibrisiant, ailbrisiu ac amhariad ac yn lle amorteiddiadau ceir cyfraniad i Falans Cronfa'r Cyngor trwy drafodyn diwygio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn ac yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

Caiff trafodion mewn perthynas ag eiddo buddsoddi eu cofnodi yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

24. Buddiannau'r Gweithwyr

Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Awdurdod. Darperir ffigwr gronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd mewn *lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r ffigwr gronnus yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y gweithiwr yn cymryd y budd. Codir y ffigwr gronnus yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar y Ddarparu Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Awdurdod yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini na chânt eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwmo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ategu pensiynau mae darpariaethau statudol yn mynnu ar godi o falans Cronfa'r Cyngor y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a glendrir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen clustnodiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn i gael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu wrth ategu pensiynau ac yn eu lle ddarparu debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiynwyr a'r cyfryw symiau'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau ôl Gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg;
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a pensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Awdurdod.

Cynllun Pensiwn Athrawon

Oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly, mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cedwir cyfrifon i'r Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun buddiannau diffiniedig:

- Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwariol gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a weir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr, ayyb., a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol;
- Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt real (yn seiliedig ar raddfa dychweliad arwyddol ar fondiau Llywodraeth y DU wedi ei addasu ar gyfer ychwanegiad at y cynnyrch sy'n adlewyrchu'r risg ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cynnyrch Bondiau Corfforaethol AA - a adwaenir fel taeniad cynnyrch;
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
 - Stociau a ddyfynnir - pris bid bresennol;
 - Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol;
 - Eiddo – eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul saith rhan:

- costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei ddyrannu i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt;
- costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynyddoedd y gorffennol - debyd i Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir;
- costau llog - y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth i'r rheini symud blwyddyn yn nes i gael eu talu - debyd i'r llinell Incwm a gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- dychweliad a ddisgwylir ar asedau - y dychweliad buddsoddol blynyddol ar asedau'r gronfa a briodolir i'r Awdurdod, yn seiliedig ar gyfartaledd o'r dychweliad disgwylidig yn y tymor hir - credyd i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- enillion/colledion ar setliadau a chwtogiadau - o ganlyniad i gamau a gymerir i ryddhau'r Awdurdod o rwymedigaethau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth disgwylidig y dyfodol neu'r buddiannau cronrus i weithwyr – debyd neu gredyd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir;
- enillion a cholledion actiwariol - newidiadau yn y rhwymedigaethau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau yn y prisiad actiwariol diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariâu wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – debyd / (credyd) i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn;
- cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Yng nghyswllt buddion ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiwnwyr yn y flwyddyn ar falans Cronfa'r Cyngor, ac nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifeg cysylltiedig. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, golyga hyn fod cyllid yn mynd i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn ac o'r Gronfa, er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeoliad a chael yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn neu bensiwnwyr ac unrhyw symiau o'r fath a oedd yn daladwy ond na thalwyd cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o fod angen rhoi cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddiannau a enillwyd gan weithwyr.

Buddiannau Dewisol

Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod rai pwerau i dalu buddion ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

25. Hawliadau Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi

Mae'r Cyngor wedi derbyn hawliadau gan weithwyr cyfredol a chan gyn-weithwyr mewn perthynas â thâl cyfartal, statws sengl ac arfarnu swyddi ac mae'n bwriadu amddiffyn y rhain. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn ddigon doeth i sefydlu cronfa wrth gefn a chynnwys darpariaeth i gwrdd â'r costau a allai godi o'r rhwymedigaethau hyn. Nid yw'r Datganiad Cyfrifon o'r herwydd ar hyn o bryd yn adlewyrchu gwerth gwirioneddol yr hawliadau, yn hytrach ceir amcangyfrif o'r rhwymedigaethau ariannol a fydd yn codi yn eu sgil.

NODYN 2 – SAFONAU CYFRIFO A GYHOEDDWDYD OND NAD YDYNT ETO WEDI EU MABWYSIADU

Ar gyfer 2012/13, cyhoeddwyd newidiadau i'r safonau cyfrifo canlynol:

- IAS 1 - newidiadau i'r modd y Cyflwynir Datganiadau Ariannol (incwm cynhwysfawr arall) ar gyhoeddwyd ym Mehefin 2011;
- IFRS 7 - newidiadau i'r Offerynnau Ariannol: Datgeliadau (gwrthbwysio asedau ariannol a rhwymedigaethau a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2011);
- IAS 12 - newidiadau i'r Dreth Incwm (treth a ohiriwyd; adennill asedau sylfaenol) a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2010;
- IAS 19 - Buddiannau i weithwyr a gyhoeddwyd ym Mehefin 2011;
- IFRS 13 - Mesur Gwerth Teg a gyhoeddwyd ym Mai 2011.

Nid yw'r newidiadau hyn wedi cael eu mabwysiadu eto ac o'r herwydd ni fyddant yn berthnasol ond o flwyddyn 2013/14 ymlaen a bydd manylion am y datgeliadau y bydd eu hangen yn cael eu cynnwys yn y Côt Ymarfer Cyfrifo am y flwyddyn honno.

Mae'r nodyn hwn fodd bynnag yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r cyfrifon petai'r safonau newydd eisoes wedi bod mewn grym. Mae'r unig effaith o bwys yn ymwneud â'r modd y caiff costau pensiwn a therfyniad cyflogaeth eu hadlewyrchu yng Nghyfrifon y Cyngor.

- Bydd gofynion IAS19 yn newid y modd y dangosir costau llog ar yr ymrwymadau pensiwn net. Ar hyn o bryd, mae'r llinell incwm Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant yn cael ei chredydu gyda dychweliad disgwylidig yr asedau yn seiliedig ar asesiad actiwari o'r dychweliadau tebygol y bydd y Gronfa Bensiwn yn eu gwneud yn y tymor hir o'r asedau a ddelir ar ran y Cyngor. Mae hyn yn seiliedig ar dderbyn gwahanol ddychweliadau ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o asedau (cyfranddaliadau, bondiau, eiddo ac ati). Yn 2012/13, roedd gwerth y dychweliadau ar asedau yn £9.424m.

Yn dilyn mabwysiadu'r safon newydd, bydd y dull hwn yn cael ei ddisodli gan ddull a fydd yn gweithio allan y llog ar yr asedau a ddelir yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd y dychweliad tymor hir ar asedau yn cael ei weithio allan yn unig ar enillion o fondiau corfforaethol ar adeg paratoi'r Cyfrifon. Y dychweliad rhagamcanedig ar asedau ar gyfer 2013/14 gan ddefnyddio'r safon newydd yw £8.632m, gostyngiad o £0.792m o gymharu â'r dychweliad ar asedau yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant am 2012/13. Byddai gwerth y llinell incwm Cyllido a Buddsoddi felly yn gostwng gan £0.792m gan arwain at gynnydd o'r un gwerth yn y diffyg yr adroddwyd arno mewn perthynas â darparu gwasanaethau a chyfanswm y diffyg yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant.

Fodd bynnag, mae costau llog ar yr ymrwymiad net o ran pensiynau yn ffurfio rhan o'r addasiadau statudol i'r Cyfrifon ac o'r herwydd, nid ydynt yn cael effaith ar lefel y balansau yng Nghronfa'r Cyngor nac ychwaith ar y fantolen.

- Mae'r newid arall yn sgil cyflwyno IAS19 yn ymwneud â'r pwynt lle mae'r Cyngor yn cydnabod manteision terfynu cyflogaeth. Dan y safon newydd, caiff y rhain eu cydnabod pan na fedr y Cyngor dynnu cynnig yn ôl. Mae hyn yn gyffredinol yn cyfateb i'r ymarferion cydnabod cyfredol yn y Cyngor felly ni fydd unrhyw newid mawr yn codi o weithredu'r safon hon.

NODYN 3 - BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISI'AU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisi'au cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy;
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw nifer o asedau a ddefnyddir i ddibenion cymdeithasol neu ddatblygu economaidd, yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac o'r herwydd nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Eiddo, Cyfarpar ac Offer ar y Fantolen;
- Yn unol â'r canllawiau cyfredol ynghylch y modd yr ymdrinnir â rhai mathau o ysgolion, dim ond gwerth tir ysgolion a reolir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig sy'n cael ei gynnwys ar y Fantolen. Oherwydd nad yw'r Cyngor yn berchen ar ysgolion o'r fath ac oherwydd nad oes ganddo fynediad iddynt i bwrpas eu prisio, nid yw gwerth yr adeiladau wedi ei gynnwys ar y Fantolen;
- Caiff grantiau cyfalaf a refeniw eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu a fu modd cwrdd ag unrhyw delerau ac amodau a oedd ynghlwm wrthynt. Os llwyddwyd i gwrdd â'r telerau ac amodau, cydnabyddir hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant yn ystod y flwyddyn. Os methwyd â gwneud hynny, byddnat yn cael eu cario yn y fantolen fel incwm wedi'i ohirio hyd oni fydd y telerau a'r amodau sydd ynghlwm â'r grant yn cael eu bodloni neu bod y grant yn cael ei ad-dalu i'r darparwr oni fydd modd bodloni'r telerau ac amodau. Gall hyn arwain at gario balansau sylweddol yn y fantolen yn ystod y flwyddyn fel incwm wedi'i ohirio.
- Mae lefel uchel o ansicrwydd am lefelau cyllido i lywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd y bydd amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a gostwng lefelau o ran darparu gwasanaeth.

NODYN 4 - RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL O RAN AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2013 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gangymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

Eiddo, Offer a Chyfarpar - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15 ar dudalen 43.

Yn y polisi cyfrifo ar gyfer dibrisiant o Eiddo, Offer a Chyfarpar (tudalen 18) mae'n nodi:

“Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.”

I weithredu hyn yn ymarferol, mae'n ofynnol llunio barn ar ddau fater, i sefydlu:

- Cyfran cost ased a ystyrir i gynrychioli rhan sylweddol o'r ased, a
- Trothwy cost, islaw hyn ni fyddai clandriad ar wahân o ddibrisiant ar ran o ased yn cael effaith sylweddol ar swm y dibrisiant yn ei gyfanwydd.

Mae'r Cyngor wedi gosod y ffigyrau yma fel 20% o gost gyfan yr ased a £2m yn y drefn honno. Fel nodir uchod ynglŷn â dibrisiant yn gyffredinol, gall dirywiad ffisegol o rannau unigol o ased, dros amser, arwain at batrymau gwario nad ydynt wedi eu hadlewyrchu'n llawn yn y lefelau dibrisiant a ddarparwyd yn flaenorol.

Tai Cyngor - Mae Stoc Dai'r Cyngor yn cael ei brisio drwy ddefnyddio methodoleg safonol, sydd yn rhannol angen defnyddio ffactor addasu, i ganiatáu am y gwahaniaethau rhwng cynnyrch a rhent ar dai cymdeithasol a'r sector breifat. Ar hyn o bryd, nid oes ffactor addasu wedi ei chyhoeddi ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ffactor addasu sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cymharol yn Lloegr, y ffactor a ddefnyddiwyd oedd 31%. (Petai ffactor penodol yn cael ei gyhoeddi, un ai ar gyfer Cymru yn ei gyfanwydd neu ar sail ranbarthol, yna gweithredir ar hyn. Byddai pob 1% o unrhyw newid o ganlyniad i hyn yn cynyddu neu ostwng gwerth y stoc adroddwyd arno o tua £3.4m).

Darpariaethau - Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer cyfres o ffactorau y mae ansicrwydd yn eu cylch a allai arwain at gostau mawr yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chyflog cyfartal, costau ôl-ofal ar gyfer Safle Claddu Gwastraff Penhesgyn, taliadau terfynu cyflogaeth i staff sy'n gadael y Cyngor ac ymrwymadau'n codi yn sgil cyfrifoldebau o ran yswiriant. Mae manylion llawn ar gael yn Nodyn 27. Byddai newid o 10% yng ngwerth rhagdybiedig setliadau ar gyfer hawliadau cyfreithiol yn cynyddu neu ostwng gwerth disgwylidig yr ymrwymiad gan tua £0.4m.

Rhwymedigaeth Pensiynau - Mae sefyllfa'r Rhwymedigaeth Bensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr actwari a benodwyd gan yr awdurdod gweinyddu. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodiadau 40 a 41 ar dudalen 65.

Amhariad Dyledion Drwg/Lwfans - Mae lefel benodol o amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon, wedi ei seilio ar bolisi penodol. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 24 ar dudalen 49.

NODYN 5 – EITEMAU SYLWEDDOL O INCWM A GWARIANT

Nid oes unrhyw eitemau o incwm neu wariant perthnasol nad ydynt wedi eu datgelu mewn rhan arall o'r cyfrifon hyn.

NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan y Swyddog Adran 151 ar 27 Medi 2013.

Ni adlewyrchir digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn y datganiadau neu nodiadau ariannol.

Pan fo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2013, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi ei haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

NODYN 7 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN REOLIAD

2012/13	Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad				
	Balans Cronfa'r Cyngor	Cyfrif Refeniw Tai	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf Anghynwysedig	Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio £000
	£000	£000	£000	£000	£000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:					
<u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>					
Taliadau am ddibrisiant a dileu asedau nad ydynt yn gyfredol	7,626	5,324	0	0	(12,950)
Ailbrisiant colledion / (enillion) ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	1,031	0	0	0	(1,031)
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad	91	0	0	0	(91)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(8,780)	(2,600)	0	262	11,118
Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud	2,197	0	0	0	(2,197)
Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd	2,972	8,184	0	0	(11,156)
<u>Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>					
Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Ariannu Cyfalaf	(3,523)	(782)	0	0	4,305
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT	(1,209)	(2,000)	0	0	3,209
<u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:</u>					
Elw o werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol	(929)	(119)	1,048	0	0
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	0	0	(959)	0	959
Derbyniadau Cyfalaf Arall	(14)	0	14	0	0
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf a osodwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion	0	0	(89)	0	89
<u>Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:</u>					
Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	104	31	0	0	(135)
<u>Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:</u>					
Dadbriso, amorteiddio ac amhariad	0	15,766	0	0	0	15,766	(543)	15,223
Taliadau Llog	0	0	0	0	0	0	5,595	5,595
Praeseptau ac Ardollau	0	0	0	0	0	0	10,489	10,489
Enillion neu Gollledion ar gael gwared ar Asedau Sefydlog	0	0	0	0	0	0	9,172	9,172
Cyfanswm Gwariant	210,157	12,699	0	0	(20)	222,836	25,253	248,089
Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	107,958	12,699	0	0	(20)	120,637	(112,160)	8,477

NODYN 32 – GWEITHREDIADAU MASNACHU SYLWEDDOL

Gweithrediadau masnachu yw'r rheini y mae'r Cyngor yn eu cynnal mewn amgylchedd cystadleuol. Mae'r Cyngor yn cynnal un gweithgaredd masnachu sydd â throsiant sylweddol dros £0.5m, sef Gwasanaethau Gofal Môn.

Gwasanaethau Gofal Môn yw'r darparwr mewnol yn yr Adran Gwasanaethau Cymuned ac mae'n darparu Gofal Cartref, Gofal Preswyl a Dydd, Gweithdai Gwarchod, Tai Gwarchod a Phryd ar Glud.

Nod ariannol Gwasanaethau Gofal Môn yw sicrhau sefyllfa wastad o ran ei weithgareddau. Mae'n cael ei drin fel rhan o weithrediad y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae trafodion y sefydliad am y ddwy flynedd diwethaf fel a ganlyn:

2012/13			2011/12		
Trosiant £000	Gwariant £000	Diffyg £000	Trosiant £000	Gwariant £000	Diffyg £000
(8,805)	10,100	1,295	(9,547)	10,797	1,250

NODYN 33 - LWFANSAU AELODAU

Talwyd cyfanswm o £0.668m (£0.619m yn 2011/12) o ran lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2012/13 £000	2011/12 £000
Lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig	560	520
Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd	12	11
Costau pensiwn	45	45
Costau Yswiriant Cenedlaethol	34	31
Costau teithio	16	11
Amrywiol	1	1
Cyfanswm	668	619

NODYN 34 – CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I SWYDDOGION

Yn y tabl canlynol, ceir manylion am y gydnabyddiaeth ariannol a roddwyd i uwch swyddogion a gyflogir yn barhaol ac y mae eu cyflogau blynyddol a buddiannau eraill yn uwch na £0.06m y flwyddyn. Caiff uwch swyddogion sy'n cael rhagor na £0.150m y flwyddyn hefyd eu henwi'n unigol er mwyn cydymffurfio gyda gofynion statudol.

2012/13

	Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £000	Lwfansau Costau £000	Iawndal am golli Swydd £000	Cyfraniad Pensiwm £000	Cyfanswm £000
Prif Weithredwr (Richard Parry Jones)	141	2	0	31	174
Dirprwy Brif Weithredwr – Penodwyd 02/07/12	85	0	0	19	104
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes (pen. 02/07/2012)	74	1	0	16	91
Cyfarwyddwr (Datblygiad Cynaliadwy)	98	2	0	22	122
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Penodwyd 07/01/2013	19	0	0	4	23
Cyfarwyddwr (Cymuned) Penodwyd 28/08/2012	59	0	0	13	72
Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddol	72	0	0	16	88
Cyfanswm	548	5	0	121	674

Yn ychwanegol at hyn, roedd y Cyngor hefyd yn cyflogi dau uwch swyddog ar sail interim yn ystod 2012/13 hyd nes y byddai staff parhaol yn cael eu penodi. Roedd y staff dan sylw yn gyslltiedig â Chyfarwyddwyr Cyllid a Thai a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar sail interim. Roedd y costau ar gyfer y flwyddyn yn £0.105m a £0.093m yn y drefn honno). Daeth cytundeb y Cyfarwyddwr Cyllid Interim i ben ym Mawrth 2013 a daeth cytundeb y Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Interim i ben yn Awst 2012 oherwydd ailstrwythuro gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r uwch swyddogion a ddangosir yn y tabl uchod wedi cael eu penodi i swyddi yn 2012/13 yn y strwythur adrannol newydd.

Dangosir ffigyrau cymharol ar gyfer 2011/12 yn y tabl canlynol

	Cylog, Ffioedd a Lwfansau £000	Lwfansau Costau £000	Iawndal am gollu Swydd £000	Cyfraniad Pensiwn £000	Cyfanswm £000
Prif Weithredwr	102	2	0	23	127
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Thechnegol)	78	2	0	17	97
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)	75	2	0	16	93
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaeth Cymdeithasol) (T. Gwyn Jones)	83	2	79	13	177
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro	64	0	0	14	78
Total	402	8	79	83	572

Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Weithwyr

Roedd y nifer o weithwyr yr oedd eu cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd yn 2012/13, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys tâl diswyddo, yn £0.06m neu fwy yn:

	Yn cynnwys Tâl Diswyddo 2012/13 Nifer o weithwyr	Yn cynnwys Tâl Diswyddo 2011/12 Nifer o weithwyr	Ac eithrio Tâl Diswyddo 2012/13 Nifer o weithwyr	Ac eithrio Tâl Diswyddo 2011/12 Nifer o weithwyr
£60,001 i £65,000	1	1	1	1
£65,001 i £75,000	0	0	0	0
£75,001 i £80,000	0	1	0	1
£80,001 i £85,000	1	1	0	2
£85,001 i £100,000	1	0	0	0
£100,001 i £105,000	0	1	0	1
£105,001 i £160,000	0	0	0	0
£160,001 i £165,000	0	1	0	0
£165,001 i £180,000	0	0	0	0
Cyfanswm	3	5	1	5

NODYN 35 - PECYNNAU YMADAEL

Mae'r nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol ac ymadawiadau eraill wedi eu nodi yn y tabl isod:

Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer o ddiswyddiadau gorfodol		Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael fesul band cost		Cyfanswm cost pecynnau ymadael fesul band cost	
	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13 £	2011/12 £
£0 - £20,000	14	0	2	27	16	27	67	217
£20,001 - £40,000	5	0	4	9	9	9	258	280
£40,001 - £60,000	1	0	3	12	4	12	182	553
£60,001 - £80,000	1	0	1	1	2	1	134	70
£80,001 - £100,000	0	0	0	5	0	5	0	448
£200,000 - £250,000	1	0	0	0	1	0	244	0
Cyfanswm	22	0	10	54	32	54	885	1,568

Mae'r gost wedi'i chynnwys yn y diffyg mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2012/13.

NODYN 36 – FFFIOEDD ARCHWILIO ALLANOL

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol ac arolygiaeth:

	2012/13 £000	2011/12 £000
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am y flwyddyn	155	155
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygon statudol	170	174
Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	143	145
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn Perthnasau a gwasanaethau eraill	4	0
Cyfanswm	472	474

NODYN 37 – INCWM GRANTIAU

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2012/13:

	Nodyn	2012/13 £000	2011/12 £000
Wedi'u credydu i Incwm Treth a Grantiau Amhenodol			
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu hamgáu)	14	73,544	77,112
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau (Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau)	14	8,518	7,359
Grant - Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau)	14	2,600	2,623
Arall (Grantiau'r Llywodraeth heb eu hamgau)	14	729	551
		85,391	87,645
Wedi'u credydu i Wasanaethau Grantiau:			
Budd-dal Treth Gyngor a roddwyd		5,218	5,032
Grant ôl 16 (Addysg)		3,383	3,272
Grant Cyfnod Sylfaen (Addysg)		2,255	2,133
Grant Taliad Teithio Consesiwn		664	687
Cymhorthdal budd-dâl		18,459	17,890
Grant Cefnogi Pobl (SPG a SPRG)		2,859	1,992
Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy		1,715	1,636
		34,553	32,642
Grantiau eraill:			
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig		612	664
Gwasanaethau Plant Ac Addysg		4,305	4,656
Gwasanaethau Prifffyrdd a Chludiant		2,451	2,037
Gwasanaethau Tai eraill		801	900
Grantiau Gofal Cymdeithasol Oedolion		1,353	1,344
Cynllunio a Datblygu		2,400	2,033
Gwasanaethau Amgylcheddol		132	166
Craidd Democrataidd a Chorfforaethol		819	743
Gweithrediadau Masnachu		117	479
		12,990	13,022
Cyfraniadau:		9,285	6,564
Cyfanswm		142,219	139,873

Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

	2012/13 £000	2011/12 £000
Balans agoriadol	144	502
Ychwanegu: Grantiau Cyfalaf newydd a dderbyniwyd ymlaen llaw (heb gwrdd ag amodau defnydd)	9,953	8,768
Grantiau Cyfalaf wedi eu Had-dalu	(75)	(17)
Llai: symiau a ryddhawyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi cwrdd â'r amodau)	(9,951)	(9,109)
Balans Cau	71	144

NODYN 38 – PARTIÖN CYSYLLTIEDIG

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol. Yn ystod 2012/13, talwyd cyfanswm o £4.861m mewn grantiau ar gyfer prynu gwasanaethau gan y cyrff hyn (£3.242m yn 2011/12). Mae'r Cyngor wedi asesu perthnasedd y buddiannau unigol sy'n codi drwy bartïon cysylltiedig ac mae'r datgeliadau canlynol yn ymwneud a'r trafodion rhwng y Cyngor a'r parti cysylltiedig sydd a gwerth yn uwch na £0.02m.

Mae'r Cyngor yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thalwyd tanysgrifiad o £0.069m iddi yn 2012/13 (£0.071m yn 2011/12).

Mae Aelodau wedi datgan diddordebau mewn contractau, neu mewn sefydliadau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor, yn y Gofrestr Statudol o Ddiddordebau Aelodau. Talwyd cyfanswm o £0.783m gan y Cyngor yn 2012/13 mewn perthynas â'r diddordebau hyn (£0.313m yn 2011/12).

- Cynghorydd F M Hughes – Ei gwr yn gyfarwyddwr a'r adeiladwyr Huw's Gray, a chyfanswm y taliadau a wnaed i'r cwmni yn 2012/13 oedd £0.161m.
- Cynghorydd R Medi – taliadau mewn cyflogeth i Medrwn Môn £0.047m, a thaliadau o £0.024m i Siop Cwpwrdd Cornel, cwmni cyflenwi llyfrau, mae ei gwr yn bartner yn y cwmni.
- Cynghorydd G Winston – taliadau o £0.104m i Hyfforddiant Parys sydd yn berchen gan Cynghorydd Winston.

Caiff rhai taliadau budd-dal tai eu cyflwyno'n uniongyrchol i landlordiaid yr eiddo; yn 2012/13 talwyd £0.036m yn uniongyrchol i dri Aelod o'r Cyngor (a'u partiön cysylltiedig) fel hyn (£0.014m yn uniongyrchol i dri Aelod o'r Cyngor yn 2011/12).

- Cynghorydd G Winston – Taliadau Budd-dal Tai o £0.022m a gafodd ei dalu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas ag eiddo yn Amlwch.

Llywodraeth Cymru sy'n gosod y blaenoriaethau cenedlaethol, y cyd-destun strategol a lefel gyffredinol cyllideb i wasanaethau. Y Cynghorau sydd â'r cyfrifoldeb i gyflwyno'r gwasanaethau yma ar lefel lleol o fewn y cyd-destun cenedlaethol. Golyga'r berthynas yma fod Cynulliad Cymru yn ymarfer dylanwad arwyddocaol dros yr Awdurdod. Ceir yn nodiadau 14, 38 a 47 wybodaeth am y berthynas gyllidebol sy'n bodoli rhwng y Cyngor a Chynulliad Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, drwy reolaeth cyffredinol gan Llywodraeth ganol, yn barti cysylltiedig i'r Awdurdod. Cyfanswm taliadau i BIPBC gan y Cyngor am 2012/13 oedd £1.351m, ac nid oedd unrhyw symiau eraill yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm y derbyniadau i'r Cyngor gan BIPBC oedd £3.119m, gyda £1.489m yn ddyledus gan ein parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

DIDDORDEBAU MEWN CWMNIAU

Mae gan y Cyngor ddiddordeb o 50% mewn dau gwmni, ym mhob achos yr aelod arall yw Cyngor Gwynedd ac nid oes gan CSYM ddiddordeb rheoli, felly, nid oes angen cyfrifon grŵp:-

Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf

Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yw Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf a sefydlwyd ar y cyd gan ragflaenwyr Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn 1994. Roedd y cwmni yn rhedeg dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd oedd ar les gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd y rhan fwyaf o weithgaredd y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol.

Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor ddirwyn y cwmni i ben yn ystod 2007/08 ac ymgymryd â'r gwaith yn fewnol. Yn Ionawr 2008, trosglwyddwyd yr asedau a'r ymrwymadau gweithredol perthnasol a'r staff i'r Cyngor, ynghyd â swm balans mewn arian parod. Mae'r buddsoddiad wedi cael ei ailbriso bob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf o arian y cyfranddalwyr wedi cael ei dalu'n ôl i'r ddau gyngor. Nid yw'r budd gweddilliol yn y cwmni ar 31 Mawrth 2013 yn berthnasol i gyfrifon y Cyngor.

Cwmni Cynnal Cyf

Sefydlwyd y cwmni hwn adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar y cyd rhwng Cyngorau Ynys Môn a Gwynedd. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg dan gytundeb i ysgolion a gynhelir ac i awdurdodau addysg leol a gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Dim ond i hyrwyddo ei amcanion y mae modd defnyddio incwm y cwmni. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt. Gwnaed taliadau gan y Cyngor, a chan gynnwys ei ysgolion, yn 2012/13 o £1.802m (£1.789m yn 2011/12).

Mae cyfrifon y cwmni am 2011/12 yn dangos incwm net o £0.52m (£0.20m yn 2010/11). Trosiant y cwmni am 2011/12 oedd £5.91m (£5.69m yn 2010/11). Dengys cyfrifon cyhoeddedig y Cwmni asedau net o £0.42m (asedau net £0.36m yn 2010/11).

Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf, Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd. Mae adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2012 yn ddiamod.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmnïau fel a ganlyn:-

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - WJEC CBAC Cyf

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyfyngedig, cwmni elusennol y mae'r 22 awdurdod unedol Cymru yn aelodau ohono. Ei swyddogaeth yw darparu gwasanaethau arholiad a datblygu a hyrwyddo gwasanaethau addysg a diwylliant eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae rhwymedigaeth y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod 2012/13 talodd y Cyngor £0.36m (£0.40m yn 2011/12) am brynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae cyfrifon y Cwmni am 2011/12 yn dangos symudiad net positif mewn cronfeydd o £3.98m (symudiad net positif mewn cronfeydd o £4.27m yn 2010/11). Trosiant y cwmni am 2011/12 oedd £40.67m (£39.75m yn 2010/11) a'i asedau net yn £19.47m (£15.50m ar 30 Medi 2011) ar 30 Medi 2012.

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o WJEC CBAC Cyfyngedig, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX. Mae adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 30 Medi 2012 yn ddiamod.

Menter Môn Cyfyngedig

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf, ac yn un o dri aelod ar 31 Mawrth 2013. Mae'r cwmni yn hyrwyddo tyfiant economaidd ym Môn wledig. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod 2012/13 talodd y Cyngor £1.360m i'r cwmni i gefnogi ei weithgareddau (£1.817m yn 2011/12).

Mae cyfrifon y Cwmni am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011 yn dangos incwm net ar ôl treth o £0.030m (incwm net o £0.02m yn 2010). Trosiant y Cwmni am 2011 oedd £3.00m (£2.52m yn 2010) a'i asedau net yn £1.03m (£1.18m yn 2010) ar 31 Rhagfyr 2011.

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o Menter Môn, Llys Goferydd, Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn. Mae adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 31 Rhagfyr 2011 yn ddiamod.

Ysgol Sefydledig Caergeiliog

Mae balansau ar gyfer asedau a rhwymedigaethau cyfredol dan reolaeth Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon yma, ac felly dim ond eu hasedau cyfredol net y mae cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y'u nodir yn y Fantolen hon, yn eu cynrychioli. Mae gan yr ysgol hefyd asedau nad ydynt yn gyfredol o £0.674m (£0.68m ar 31 Mawrth 2012) a nodir ar Fantolen yr ysgol, ar sail cyfuniad o brisant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac ni chânt eu cyfuno yn y Fantolen hon.

NODYN 39 - CRONFEYDD YMDDIRIEDOL

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o gronfeydd ymddiriedol. Nid asedau yn perthyn i'r Cyngor yw'r cronfeydd hyn ac o'r herwydd ni chânt eu cynnwys ym Mantolen Gyfun y Cyngor. Mae eu cyfrifon ar gael gan yr Adran Gyllid. Yn ychwanegol at gymynroddion i bethau megis gwobrau mewn ysgolion, a chysuron a gwelliannau yn sefydliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gronfeydd Ymddiriedol fel a ganlyn:-

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif 1000818)

Y Cyngor yw unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, sef ymddiriedolaeth a sefydlwyd i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gydag arian a gafwyd gan Shell (UK) Limited pryd y daeth gwaith y cwmni i ben yn y lanfa olew oedd ganddo ym Môn. Amcanion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw darparu cyfleusterau er lles cyffredinol cyhoeddus pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Mae'n gwneud hyn trwy gyfrannu tuag at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i gyrrff elusennol a gwirfoddol.

Gweinyddir y gronfa gan y Cyngor yn ddi-dâl. Yn 2012/13 derbyniodd y Cyngor £0.230m (£0.250m yn 2011/12) tuag at gostau rhedeg Oriol Ynys Môn.

Cronfa'r Degwm

Ar hyn o bryd, gweinyddir buddsoddiadau'r gronfa gan Gyngor Gwynedd ar ran yr awdurdodau a olynodd yr hen Gyngor Sir Gwynedd er bod cynlluniau i'w trosglwyddo i'r Cyngor hwn. Yn y cynllun i weinyddu'r gronfa dywedir y bydd raid defnyddio'r incwm at ddibenion elusennol - rhai addysgol, adloniadol a chymdeithasol - yn ôl disgrisiwn y Cyngor.

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)

Mae 75% o'r incwm net o Stâd Elusennol David Hughes yn ffurfio rhan o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - sef Cronfa y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr iddi. Defnyddir yr incwm i ddibenion addysgol penodol. Telir y 25% arall i "Elusen David Hughes er Lles y Tlodion", elusen nad yw'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor.

Ar 31 Mawrth 2013, roedd balansau'r Cronfeydd Ymddiriedol (yn ôl gwerth yr asedau ar y farchnad) yn:-

	2012/13 Incwm £000	2012/13 Gwariant £000	2012/13 Asedau £000	2012/13 Rhwymedigaethau £000
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (*)	2,038	426	19,472	1,584
Cronfa'r Degwm (**)	16	18	536	11
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (***)	81	88	1,838	0

	2011/12 Incwm £000	2011/12 Gwariant £000	2011/12 Asedau £000	2011/12 Rhwymedigaethau £000
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (*)	553	559	17,368	1,093
Cronfa'r Degwm (**)	21	32	553	25
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn(***)	65	59	1,845	0

(*) Ffigyrau 2011/12 wedi eu hailddatgan i adlewyrchu'r cyfrifon terfynol

(**) Cyfran y Cyngor yn unig

(***) Ffigyrau'r flwyddyn flaenorol yn amodol ar Archwiliad

Cyfanswm gwerth y cronfeydd eraill ar 31 Mawrth 2013, gan gynnwys buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad yw £0.213m (£0.236m ar 31 Mawrth 2012).

NODYN 40 - CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2012/13, talodd y Cyngor Sir £3.1m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 14.2% o dâl pensiynadwy athrawon. Roedd y ffigyrau am 2011/12 yn 3.106m a 14.1%. Yn ychwanegol, 'roedd taliadau yn ymwneud ag ychwanegiadau ar gyfer ymddeol yn gynnar ac ati a wnaed ar sail talu-wrth-fynd yn £0.006m (£0.595m yn 2011/12). Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig, a manylir arnynt yn Nodyn 41 isod.

NODYN 41 – CYNLLUN PENSIWN LIYWODREATH LLEOL Buddiannau Ymddeoliad

Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Awdurdod Leol

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau, sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cyfranogi yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Trafodion yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yng Nghost Gwasanaethau ar Weithrediadau Parhaus a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau.

Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac felly, mae gwir gost buddiannau ymddeoliad yn cael eu gwrth-droi allan o'r llinell addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y CIES a'r llinell addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:

	2012/13 £000	2011/12 £000
Cost net y gwasanaethau:		
Cost Gwasanaeth Gyfredol	4,160	6,060
Cost /(enilliad) Gwasanaeth y Gorffennol	0	93
Enillion a Cholledion ar setliadau neu gwtogiadau	243	326
Gwariant gweithredu net:		
Cost llog	11,092	11,664
Dychweliad disgwylidig ar asedau cynllun	(9,423)	(11,484)
Tâl net i'r CIES	6,072	6,659
Addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y Rheoliadau:		
Gwrthdroad taliadau net ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol ag IAS19	(6,072)	(6,659)
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:		
Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	8,402	8,371
Taliad net i Grynoded Cronfa'r Cyngor	2,330	1,712

Mae'r ffigyrau cost gwasanaeth yn cynnwys lwfans am gostau gweinyddu o 0.5% o gyflog.

Yn ychwanegol at yr enillion a cholledion cydnabyddedig a gynhwysir yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, cynhwyswyd colledion actiwarïaid o £18.617m (enillion o £18.887m yn 2011/12) mewn incwm a gwariant cynhwysfawr arall yn y CIES. Mae swm cronol enillion a cholledion actiwarïaid a gydnabyddir mewn incwm a gwariant cynhwysfawr arall hyd at 31 Mawrth 2013 yn golled o £70.054m (£51.436m o golled yn 2011/12).

Asedau a Rhwymedigaethau yng nghyswllt Buddiannau Ymddeoliad

Cysoniad Gwerth Cyfredol Rhwymedigaethau'r Cynllun

	2012/13 £000	2011/12 £000
Balans ar 1 Ebrill	230,971	212,133
Cost Gwasanaeth Gyfredol	4,160	6,060
Cost llog	11,092	11,664
Cyfraniadau gan aelodau	2,057	2,070
Colledion actiwarïaid	30,566	7,287
Costau Gwasanaeth y Gorffennol	0	93
Colledion ar gwtogiadau	243	326
Rhwymedigaethau a dybir mewn cyfuniad busnes		
Buddiannau heb eu hariannu yr amcangyfrifir a dalwyd	(1,031)	(1,052)
Buddiannau yr amcangyfrifir a dalwyd	(7,252)	(7,610)
Balans ar 31 Mawrth	270,806	230,971

Cysoniad gwerth cyfredol asedau'r cynllun:

	2012/13 £000	2011/12 £000
Balans ar 1 Ebrill	167,224	165,561
Dychweliad disgwylidig ar asedau	9,423	11,484
Cyfraniadau gan aelodau	2,057	2,070
Cyfraniadau gan y cyflogwr	7,372	7,319
Cyfraniadau yng nghyswllt buddiannau heb eu hariannu (Colledion)/enillion actiwariad	1,031	1,052
Rhwymedigaethau a dybir mewn cyfuniad busnes		
Buddiannau heb eu hariannu a dalwyd	(1,031)	(1,052)
Buddiannau a dalwyd	(7,252)	(7,610)
Balans ar 31 Mawrth	190,773	167,224

Mae'r dychweliad disgwylidig ar asedau cynllun wedi'i seilio ar y dychweliad buddsoddiad disgwylidig tymor hir i'r dyfodol ar gyfer bob dosbarth ased fel ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Roedd dychweliad gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn yn golled o £21.416m (enillion o £0.098m yn 2011/12).

Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

	31 Mawrth 2013 £000	31 Mawrth 2012 £000
Buddsoddiadau Ecwiti	146,896	130,436
Bondiau	24,800	21,739
Eiddo	15,262	13,377
Arian parod	3,815	1,672
	190,773	167,224

Prif categorïau o asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun

Mae asedau Cynllun Pensiwn Gwynedd yn cynnwys y categorïau canlynol, yn ôl y gyfran o'r cyfanswm asedau a ddelir:

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2012
Buddsoddiadau Ecwiti	77%	78%
Bondiau	13%	13%
Eiddo	8%	8%
Arian parod	2%	1%
	100%	100%

Cyfran y Cyngor o'r Rhwymedigaeth Pensiwn Net (a gynhwysir yn y Fantolen):

	31 Mawrth 2013 £000	31 Mawrth 2012 £000
Gwerth Teg Asedau Cyflogwr	190,773	167,226
Gwerth Cyfredol Rhwymedigaethau a Ariennir	(254,865)	(215,720)
Tanariannu mewn Cynlluniau a Ariennir	(64,092)	(48,494)
Gwerth Cyfredol Rhwymedigaethau Heb eu Hariannu	(15,942)	(15,252)
Rhwymedigaeth net	(80,034)	(63,746)
Swm yn y Fantolen:		
Rhwymedigaethau	(270,807)	(230,972)
Asedau	190,773	167,226
Rhwymedigaethau Net	(80,034)	(63,746)

Hanes y Cynllun

Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun

	31 Mawrth 2013 £000	31 Mawrth 2012 £000	31 Mawrth 2011 £000	31 Mawrth 2010 £000	31 Mawrth 2009 £000
Gwerth Teg yr Asedau yn y cynllun pensiwn	190,773	167,226	165,562	175,644	123,950
Gwerth Cyfredol Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig	(270,807)	(230,972)	(212,134)	(311,535)	(192,983)
Diffyg yn y Cynllun	(80,034)	(63,746)	(46,572)	(135,891)	(69,033)

Swm a gydnabyddir mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall:

	31 Mawrth 2013 £000	31 Mawrth 2012 £000	31 Mawrth 2011 £000	31 Mawrth 2010 £000	31 Mawrth 2009 £000
Enillion/(colledion) actiwariadaid	(18,618)	(18,887)	68,656	(66,106)	(26,645)
Colledion actiwariadaid cronrus	(70,054)	(51,436)	(32,549)	(101,205)	(35,099)
Hanes o'r profiad o enillion a cholledion profiad: Profiad (colledion) ac enillion profiad ar asedau	11,949	(11,600)	(25,169)	40,897	(43,474)
Profiad (colledion) ac enillion profiad ar rwymedigaethau	(23)	(2,669)	62,574	(510)	(377)

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos maint y rhwymedigaethau gwaelodol sydd gan yr Awdurdod i'w talu yn yr hirdymor i dalu buddiannau ymddeoliad. Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth o £270.807m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y cofnodwyd yn y Fantolen, yn arwain at rwymedigaeth net o £ 80.034m.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol Cyngor yn parhau i fod yn iach. Bydd y diffyg yng Nghynllun Pensiwn Gwynedd yn cael ei adennill drwy gynyddu'r cyfraniadau, fel yr asesir gan actwari'r cynllun, dros weddill oes waith y gweithwyr.

Hanes o'r profiad o enillion a cholledion

Gall yr enillion actiwariadaid a adnabyddir fel symudiadau yn y Gronfa Wrth Gefn Pensiwn 2011/12 gael eu dadansoddi i'r categorïau canlynol, a'u mesur fel canran o'r asedau neu'r rhwymedigaethau fel ar 31 Mawrth 2013:

	31 Mawrth 2013 %	31 Mawrth 2012 %	31 Mawrth 2011 %	31 Mawrth 2010 %	31 Mawrth 2009 %
Profiad (colledion) ac enillion profiad ar asedau	(6.26)	(6.94)	(15.20)	23.28	(35.07)
Profiad (colledion) ac enillion profiad ar rwymedigaethau	0.01	1.16	(29.50)	0.16	0.20

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwariadaid gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoledd, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau Cronfa'r Cyngor wedi eu hasesu gan gwmni annibynnol o actiwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar y prisiant llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2013.

	2012/13	2011/12
Graddfa dychweliad disgwylidig tymor hir ar asedau'r cynllun:		
Buddsoddiadau Ecwiti	4.5%	6.2%
Bondiau	4.5%	3.3%
Eiddo	4.5%	4.4%
Arian parod	4.5%	3.5%
Rhagdybiaethau Marwoledd:		
<i>Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol:</i>		
Dynion	20.5 years	20.5 mlynedd
Merched	23.0 years	23.0 mlynedd
<i>Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol:</i>		
Dynion	23.3 years	23.3 mlynedd
Merched	25.6 years	25.6 mlynedd
Graddfa Cynnydd Chwyddiant Pensiwn	2.8%	2.5%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	5.1%	4.8%
Dychweliad disgwylidig ar yr asedau	4.5%	5.6%
Graddfa ddisgownt	4.5%	4.8%
Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad:		
Gwasanaeth i Ebrill 2010	50.0%	50%
Gwasanaeth ôl Ebrill 2010	75.0%	75%

Amcangyfrif o'r cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2013/14

Disgwylir y bydd cyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2013 yn £7m.

NODYN 42 – RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi

Mae'r Awdurdod yn destun i 360 o hawliadau cyflog cyfartal gan 300 o weithwyr presennol a blaenorol, sydd wedi eu cyflwyno yn y triwlynys. Bwriada'r Awdurdod amddiffyn yr hawliadau hyn. Mae cronfa wrth gefn a darpariaeth wedi ei sefydlu yng nghyfrifon yr Awdurdod tuag at gostau posibl yn deillio o Gyflog Cyfartal, Statws Sengl, Arfarnu Swyddi a Chyflog Cyfartal.

Mae'r elfen o ddarpariaeth sy'n ymwneud â hawliau tâl cyfartal wedi ei glandro ar sail y nifer o hawliadau presennol ac ar amcangyfrif o'r rhwymedigaeth ariannol fydd yn deillio o'r rhain. Fodd bynnag, mae'r swm terfynol fydd yn daladwy yn ansicr oherwydd yr amrywiaethau posibl yn symiau setliadau'r hawliadau cyfredol ac oherwydd y posibilrwydd gall rhagor o hawliadau gael eu cyflwyno.

Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Yn dilyn dyfarniadau a gadarnhawyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac adroddiad diweddar gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar achosion prawf mewn lleoedd eraill, nid oedd grym i godi am wasanaethau a ddarparwyd dan Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae'r Cyngor yn wynebu ad-daliadau. Mae chwe achos wedi eu setlo. Mae cyfanswm yr ymrwymiad hwn yn anodd ei gyfrifo ond mae £0.299 miliwn yn weddilliol o'r swm a neilltuwyd fel cronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer ad-daliadau o'r fath (£0.299m yn 2011/12).

Pier Biwmares

Mae Pier Biwmares wedi cael ei adnewyddu fel rhan o'r Prosiect Amgylchedd Arfordirol. Er bod y gwaith adnewyddu wedi cael ei gwblhau, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch gwerth gwirioneddol y gwaith a wnaed dan y contract. Efallai y bydd rhaid i'r Cyngor dalu swm ychwanegol dan y contract gwaith ond ni fedrir asesu gwerth y swm hwn gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd.

NODYN 43 – ASEDAU AMODOL

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o bridiau cyfreithiol dros eiddo preswyl â pherchenogion preifat, lle darparwyd cefnogaeth i'r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer prynu tai â chefnogaeth, gyda'r Cyngor hefo'r hawl am ran o'r enillon ar werthiant yr eiddo. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 143 eiddo o'r fath a rhagamcanwyd mai'r uchafswm a ellid, o bosib ei dderbyn oedd tua £9.4m (£4.6m yn 2011/12). Fodd bynnag, bydd amrywiaeth yn y gwir swm a dderbynnir, yn seiliedig ar brisiau gwerthu'r eiddo unigol a natur unrhyw alwadau cyfreithiol arall yn eu herbyn ac efallai bydd yn cymryd blaenoriaeth dros fridiant y Cyngor. Mae amseru unrhyw dderbyniadau yn ddbynnol ar unrhyw werthiannau.

NODYN 44 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r categorïau canlynol o Offerynnau Ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

	Tymor hir		Cyfredol	
	31/03/13 £000	31/03/12 £000	31/03/13 £000	31/03/12 £000
Buddsoddiadau				
Benthyciadau a Derbyniadau	0	0	10,101	5,058
Balans arian				
Benthyciadau a Derbyniadau	0	0	5,834	12,070
Cyfanswm arian a buddsoddiadau	0	0	15,935	17,128
Dyledwyr				
Benthyciadau a Derbyniadau	433	450	8,098	7,578
Cyfanswm Dyledwyr	433	450	8,098	7,578
Benthyciadau				
Rhwymedigaethau Ariannol ar gost amorteiddio	89,590	96,097	8,447	1,946
Cyfanswm Benthyciadau	89,590	96,097	8,477	1,946
Credydwyr				
Rhwymedigaethau Ariannol ar gost amorteiddio	0	4	11,563	9,442
Cyfanswm Credydwyr	0	4	11,563	9,442

Nid yw dyledwyr a chredydwyr yn y tabl hwn yn cynnwys trafodion gydag adrannau'r llywodraeth, gwerth absenoldebau staff sydd wedi cronni ac incwm a thaliadau'n codi o dreth sy'n golygu hefyd fod trafodion sy'n ymwneud â'r dreth gyngor a threthi busnes hefyd wedi eu heithrio.

Incwm, Costau, Enillion a Chollledion

Mae'r enillion a'r colledion sydd wedi eu cydnabod yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn:

	2012/13		2011/12		2011/12 Ailddatganwyd*	
	Rhwymedigaethau Ariannol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £000	Cyfanswm £000	Rhwymedigaethau Ariannol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £000		Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau wedi eu hailddatgan £000
Treuliau llog	5,316	0	5,316	5,407	0	5,407
Cyfanswm treuliau mewn Gwarged neu Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	5,316	0	5,316	5,407	0	5,407
Incwm llog*	0	(284)	(284)	0	(273)	(273)
Cyfanswm incwm mewn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	(284)	(284)	0	(273)	(273)
Enilliad/(Colled) Net am y flwyddyn	5,316	(284)	5,032	5,407	(273)	5,134

Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau ariannol, a gynrychiolir gan fenthyciadau a chredydwyr ac asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau ac arian a ddisgwylir a dyledwyr tymor yn cael eu cario yn y Fantolen ar gost amorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian a fydd yn digwydd dros weddill tymor yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Amrediad amcangyfrifedig graddfeydd llog ar 31 Mawrth 2012 o 1.41% i 4.41% ar gyfer benthyciadau o'r Bwrdd Gwaith Benthycia Cyhoeddus (PWLB) a 0.67% am fenthyciadau eraill y gellir eu derbyn ac sy'n daladwy, wedi ei seilio ar y graddfeydd benthycia newydd ar gyfer benthyciadau cyfatebol ar y dyddiad hwnnw;
- Ni chydabyddir ad-daliad cynnar neu amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu yn y 12 mis nesaf, tybir bod y swm a gludir yn cyfateb yn fras i werth teg;
- Cymerir bod gwerth teg dyledwyr a chredydwyr tymor byr yn cyfateb i'r swm y maent yn eu cario ar ddyddiad y Fantolen.

Dadansoddiad yn ôl dyddiad aeddfedu:

2012/13

	2012/13 Prifswm Gweddillol £000	2012/13 Llog wedi Cronni £000	2012/13 Cost lai Amorteiddio Cronedig £000
>25 blwyddyn	60,515	0	60,515
15-25 blwyddyn	2,213	0	2,213
10-15 blwyddyn	4,482	0	4,482
5-10 blwyddyn	16,848	0	16,848
2-5 blwyddyn	5,526	0	5,526
1-2 blwyddyn	6	0	6
Cyfanswm y benthyciadau tymor hir	89,590	0	89,590
Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (< 1 blwyddyn)	6,507	1,940	8,447

2011/12

	2011/12 Prifswm Gweddillol £000	2011/12 Llog wedi Cronni £000	2011/12 Cost lai Amorteiddio Cronedig £000
>25 blwyddyn	60,515	0	60,515
15-25 blwyddyn	3,911	0	3,911
10-15 blwyddyn	5,083	0	5,083
5-10 blwyddyn	20,057	0	20,057
2-5 blwyddyn	24	0	24
1-2 blwyddyn	6,507	0	6,507
Cyfanswm y benthyciadau tymor hir	96,097	0	96,097
Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (< 1 blwyddyn)	6	1,940	1,946

Mae'r gwerth teg a gyfrifir fel a ganlyn:

	31/03/13		31/03/12	
	Swm Cario £000	Gwerth Teg £000	Swm Cario £000	Gwerth Teg £000
Rhwymedigaethau Ariannol	99,627	126,953	97,009	118,706
Credydwy'r tymor hir	4	4	4	4

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau yn fwy na'r swm a gludir oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fenthyciadau yn cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog yn uwch na'r graddfeydd cyffredinol ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog uwchben y graddfeydd marchnad bresennol yn cynyddu faint sydd raid i'r Cyngor ei dalu, pe gofynnai'r benthyciwr am, neu y cytunai ar, ad-daliad cynnar o'r benthyciadau.

	31/03/13		31/03/12	
	Swm Cario £000	Gwerth teg £000	Swm Cario £000	Gwerth teg £000
Benthyciadau a derbyniadau	16,368	16,482	17,578	17,639

Mae gwerth teg yr asedau yn fwy na'r swm cario oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fuddsoddiadau'n cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog a dderbynnir yn uwch na'r graddfeydd sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen. Dengys hyn enilliad tybiannol i'r dyfodol (wedi'i seilio ar amodau economaidd ar 31 Mawrth 2013) y priodolir i'r ymrwymiad i dderbyn llog uwchlaw'r graddfeydd marchnad bresennol.

NODYN 45 - DATGELU NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gwaith y Cyngor yn codi sawl risg ariannol:

Risg Credyd - y posibilrwydd bod partion eraill yn methu â thalu'r symiau dyledus i'r Cyngor.

Risg Hylifedd - y posibilrwydd na fydd yr arian gan y Cyngor i gwrdd ag ymrwymadau yng nghyswllt taliadau.

Risg y Farchnad - y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Risg Credyd

Mae risg credyd yn codi oherwydd yr adneuron mewn banciau a sefydliadau ariannol, ond hefyd oherwydd credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen).

Nid ydym yn trefnu adneuron gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu harchwilio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o gyfyngiadau yn seiliedig ar raddfeydd credyd ar gyfer gwahanol gyrff, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthycu rhagor na £10m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'n monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynnyddol. Paratwir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn crynhoi'r potensial i'r Awdurdod fod yn agored i risg credyd, yn seiliedig ar brofiad o ddiffygion a methu â chasglu dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, wedi ei addasu ar gyfer cyflwr presennol y farchnad.

	Swm 31 Mawrth 2013	Profiad hanesyddol o ddiffyg talu	Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm *
	£000	%	£000
Adneuon gyda Banciau a Chyrff Ariannol	2,297	0	0
Banciau DU sydd Wedi Gwladoli/ Gwladoli'n Rhannol	10,101	0	0
Awdurdodau Lleol y DU	0	0	0
Dyledwyr masnachol dan 1 flwyddyn	2,869	10	287
Dyledwyr masnachol rhwng 1 – 2 flynedd	406	20	81
Dyledwyr masnachol rhwng 2 – 6 blynedd	946	30-70	468
Dyledwyr masnachol 6+ blwyddyn	214	100	214
Cyfanswm Dyledwyr masnachol	4,435		1,050

* Amcangyfrif o Swm Uchaf y Diffyg a Dyledion Anghasgladwy y gall y Cyngor fod yn agored iddynt

Roedd yr holl adneuon a oedd yn sefyll ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu gwneud yn wreiddiol am lai na blwyddyn.

Ni aethpwyd tu draw i unrhyw uchafswm credyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorrwyd unrhyw feini prawf gwrthbartion. Nid yw'r Awdurdod yn disgwyl y bydd unrhyw golledion oherwydd bod unrhyw un o'i wrthbartion yn methu â pherfformio yng nghyswllt adneuon. Mae'r argyfwng credyd presennol wedi cynyddu'r posibilrwydd o ddiffyg ac mewn ymateb mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf credyd llymach ar gyfer gwrthbartion buddsoddi o fewn ei bolisi cyffredinol.

Mae dyledwyr masnachol a ddangosir yn y rhan hon yn ymwneud â dyledion a gasglwyd drwy system dyledwyr amrywiol y Cyngor yn unig. Mae'r ffigyrau dyledwyr a ddangosir yn nodyn 24 y Datganiad yn cyfeirio at y swm llawn sy'n ddyledus i'r Cyngor o bob ffynhonnell gan gynnwys grantiau llywodraeth, y dreth gyngor a threthi busnes sy'n cael eu casglu ar wahân i'r dyledion amrywiol.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae gan y Cyngor weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau mae'r Cyngor yn cael bridiant cyfreithiol ar gyfer rhai dyledion gohiriedig fel hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal.

Gellir dadansoddi dyledwyr masnach y Cyngor yn ôl oed fel a ganlyn:

	31/03/13 £000	31/03/12 £000
Llai na thri mis	1,828	1,386
Tri i chwe mis	625	279
Chwe mis i flwyddyn	416	394
Dros flwyddyn	1,566	1,683
Cyfanswm	4,435	3,742

Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach gan gynnwys benthyciadau ceir i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeedig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau o gyflogau'r gweithwyr, a hefyd mae trefniadau cilyddol gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo ac yn symud gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i hawlio dyledion yn ôl yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol. Mae'r morgeisi yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig.

Risg Hylifedd

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw'r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael arian ac mae'r Cyngor hefyd bob amser yn rhydd i fynd at y Bwrdd Benthycia ar gyfer Gweithiau Cyhoeddus (PWL) fel corff i fenthycia oddi arno ar ôl methu fel arall. Felly nid oes risg sylweddol y bydd yn methu â chodi'r arian i gwrdd â'i ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol. Fodd bynnag, mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn anffafriol. Yr arfer yw ceisio sicrhau na fydd rhagor na 30% o'r benthyciadau i'w had-dalu mewn unrhyw gyfnod o tair mlynedd, ac asesu'n gyson gyfraddau'r farchnad a'r rhagolygon er mwyn trefnu benthyciadau newydd yn lle'r rhai sy'n aeddfedu neu ar gyfer ad-drefnu'r benthyciadau presennol ar yr adeg fwyaf manteisiol. I gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol. Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn nodyn 44 ar dudalen 70.

Mae holl daliadau masnach a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai na blwyddyn.

Risg y Farchnad

Risg Cyfraddau Llog - Mae'r Cyngor yn wynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol - byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - ceid gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi'u gredu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - gwelid gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau graddfa sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau graddfa amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau i reoli risg cyfraddau llog. Polisi'r Cyngor yw benthycia'n bennaf yn ôl cyfraddau sefydlog oddi ar y PWLB, er mwyn cael sicrwydd beth fydd y llog taladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog ar y pryd a rhagolygon y farchnad. Pe ceid risg sylweddol o godiad sydyn yn y cyfraddau llog tymhorau hir a byr, yna ailasesid y sefyllfa portffolio ac mae'n debygol y byddai hynny'n arwain, fel arfer, at godi cyllid cyfraddau sefydlog tra bo cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rhad. Pe ceid risg sylweddol o ostyngiad sydyn yn y cyfraddau llog tymor hir a byr yna câi benthyciadau tymor hir eu gohirio a symud ymlaen i ad-drefnu a symud o gyllid cyfraddau sefydlog i gyllid cyfraddau tymor byr.

Mae'r cyfan o fenthyciadau cyfredol a thymor hir y Cyngor ar hyn o bryd ar gyfraddau sefydlog. Byddai effaith cynnydd 1% mewn cyfraddau llog felly ond yn effeithio'r llog a dderbynnir ar ei fuddsoddiadau cyfredol. Petai'r cyfraddau llog wedi bod 1% uwch, gyda'r holl amrywiadau eraill yn parhau'n gyson, dyma fyddai'r effaith ariannol:

Risg o ran Cyfraddau Llog	2012/13 £000	2011/12 £000
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfradd amrywiol gyfredol	0	0
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau tymor hir cyfradd amrywiol	0	0
Cynnydd yn y llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau llog amrywiol cyfredol	285	437
Cyfran yr effaith gyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai	8	12
Effaith Net ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	293	449

Risg Cyfnewid Arian Tramor – Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau cymorth grant cymharol fach dan raglen 'Interreg' ble bo'r corff arweiniol yn sefydliad Gwyddelig, ac mae'r grantiau mewn arian Ewro. Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn ac i leihau effaith symudiadau mewn graddfeydd cyfnewid. Roedd y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn yn 1.219m Ewro (£0.507m yn 2011/12): cyfateb i £1.035m (£0.422m yn 2011/12).

NODYN 46 – CYDBWYLLGORAU

Mae'r Cyngor a Chyngor Gwynedd yn bartneriaid ar gydbwyllgorau fel a ganlyn:

- Pwyllgor Cynllunio ar y cyd
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

Mae Cyngor Sir Gwynedd yn gyfrifol am weithredu dau gydbwyllgor ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedu eu hadlewyrchu yn eu mantolen a cheir manylion yn y tabl isod:

Mantolen ar 31 Mawrth 2013	Cyd- bwyllgor Cynllunio £000	Cyd- bwyllgor AAA £000
Dylwedwyr Tymor byr	107	189
Credydwyr Tymor byr	(107)	(24)
Asedau Net	0	165

NODYN 47 – TROI TAI'N GARTREFI

Mae'r chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru yn gweithredu fel asiantiaid Llywodraeth Cymru o ran darparu benthyciadau y mae modd eu hailgylchu dan y Cynllun Troi Tai'n Gartrefi ar gyfer trwsio eiddo sydd wedi bod yn wag ers amser maith gyda'r nod o ddod â nhw'n ôl i ddefnydd. Cyngor Sir Y Fflint yw'r awdurdod sy'n arwain/bancio ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru a'r Cyngor hwnnw sy'n gyfrifol am weinyddu'r gronfa. Derbyniwyd cyfanswm o £2.333m o incwm gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2012/13 gyda thaliadau'n erbyn y swm hwn yn £1.847m a derbyniodd Ynys Môn £0.301m o'r swm.

NODYN 48 – Y DRETH GYNGOR

Mae incwm y Dreth Gyngor yn deillio o godi ar werth eiddo preswyl, ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i'r Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen i'r Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio gan addasu trwy gyfran a throsi'r nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt o 29,856.38 yn 2012/13 (29,768.15 am 2011/12). Wedyn, mae'r swm i eiddo band D £1,139.68 ar gyfartaledd yn 2012/13, £1,094.41 yn 2011/12) yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol a bydd hynny wedyn, ar ôl caniatáu disgownt a budd-dal, yn rhoi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau Ac i I:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9

Caiff Sylfaen y Dreth Gyngor ei weithio allan fel a ganlyn:

Band	A*	A	B	C	D	E	F	G	H	I	Cyfanswm
Cyfanswm yr Anheddau	15	3,918	5,833	5,881	6,516	4,881	2,294	970	144	42	30,494
Lluosydd Band "D"	5/9	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9	
Cyfatebol	8.06	2,611.83	4,536.78	5,227.11	6,515.50	5,965.36	3,312.83	1,617.08	287.00	98.00	30,179.55

Band D cyfatebol fel yr uchod	30,179.55
Cyfradd Gasglu	98.5%
Band D cyfatebol Diwygiedig	29,726.86
Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn – Band D cyfatebol	129.52
Sylfaen y Dreth Council am 2012/13	29,856.38

Dadansoddiad enillion net Treth Cyngor	2012/13 £000	2011/12 £000
Treth Gyngor Casgliadwy	33,939	32,496
Llai: Darpariaeth ar gyfer diffyg taliadau na chyfrifwr amdanynt yn flaenorol	(67)	(254)
Enillion net Treth Cyngor	33,872	32,242

NODYN 49 – TRETHI CENEDLAETHOL ANNOMESTIG (TCA)

Mae'r TCA yn cael eu trefnu ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn pennu cyfradd – 45.2c yn 2012/13 o'i gymharu â 42.8c yn 2011/12, ac mae busnesau lleol yn talu trethi a gyfrifir trwy luosi gwerth ardrethol yr eiddo gyda'r swm uchod. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu trethi oddi ar drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n trosglwyddo'r elw i'r Gronfa Genedlaethol o Drethi Annomestig dan weinyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC). Mae CCC yn aiddosbarthu'r symiau a delir yn ôl i awdurdodau lleol yn seiliedig ar swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm TCA, ar ôl ystyried rhyddhad a darpariaethau (yn cynnwys Rhyddhad Trethi Busnesau Bach LIC), yn £14.606m yn 2012/13 (£15.126m yn 2011/12) yn seiliedig ar werth trethadwy ar ddiwedd y flwyddyn o £40.292m (£44.194m yn 2011/12). Y cyfartaledd gwerth trethadwy am y flwyddyn oedd oddeutu £41.793m (£43.293m yn 2011/12).

Dadansoddiad o'r enillion net o drethi annomestig:	2012/13 £000	2011/12 £000
Trethi annomestig casgladwy	14,606	15,126
Cost lwfans casglu	(143)	(142)
Llog dalwyd ar ordaliadau	1	0
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg	(133)	(358)
Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusenol/gwledig	68	40
Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol	14,399	14,666
Aiddosbarthu o'r gronfa genedlaethol	18,787	16,324

**DATGANIAD ARIANNOL ATODOL
CYFRIF REFENIW TAI**

Datganiad Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2013

	2012/13 £000	2011/12 £000
<u>Incwm</u>		
Incwm rhent gros:		
-Rhenti preswyl	(12,413)	(11,769)
-Rhenti dibreswyl	(184)	(180)
-Taliadau am gyfleusterau a gwasanaethau	(20)	(19)
-Cyfraniadau tuag at wariant	(428)	(452)
Arall	(71)	(6)
Cyfanswm Incwm	(13,116)	(12,426)
<u>Gwariant</u>		
Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw	3,331	3,292
Goruchwyllo a Rheoli		
-Cyffredinol	1,753	1,424
- Arbennig	634	452
Rhenti, Ardrethi a Trethi Eraill	104	108
Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai taladwy	1,888	2,122
Dibrisiant ac Amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol	5,324	2,760
Costau rheoli dyled	15	15
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg	46	63
Cyfanswm Gwariant	13,095	10,236
Cost Net Gwasanaethau CRT	(21)	(2,190)
Symudiad cronnus Absenoldebau Cronedig	(11)	20
Cost Net Gwasanaethau CRT fel yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(32)	(2,170)
Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Costau Corfforaethol a Craidd Democrataidd	55	53
Cost Net Gwasanaethau CRT	23	(2,117)
Colled ar werthiant Asedau CRT nad ydynt yn gyfredol	8,065	8,567
Symudiadau mewn Ailbrisio Anheddau Cyngor	2,534	0
Llog sy'n daladwy a threuliau cyffelyb	1,296	1,133
Incwm buddsoddiad CRT	(8)	(3)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau derbyniadwy	(2,600)	(2,623)
Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau CRT	6,776	4,957

Datganiad Symudiadau ar Falans CRT

Eitemau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans CRT am y flwyddyn

	2012/13 £000	2011/12 £000
Gwahaniaeth rhwng y symiau a godir ar incwm a gwariant ar gyfer amorteiddiad premiymau a disgownt a bennwyd yn unol â'r Côt a'r tâl am y flwyddyn yn unol â statud	(31)	(28)
Dibrisiant ac amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol	(5,324)	(2,760)
Croniad Absenoldebau Cronnus	11	(20)
(Colled) ar werthiant asedau CRT nad ydynt yn gyfredol (yn cynnwys dadgydnabod)	(8,065)	(8,567)
Taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol ag IAS 19	0	0
Eitemau na chynhwyswyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a gynhwyswyd yn y symudiad ar y Balans CRT am y flwyddyn	(13,409)	(11,375)
Trosglwyddiad i Gronfeydd wrth Gefn	3,616	2,623
Isafswm Darpariaeth Refeniw CRT	782	603
Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a buddiannau ymddeoliad sy'n daladwy'n uniongyrchol i bensiynwyr	0	0
Gwariant cyfalaf a gyllidwyd gan y CRT	2,000	3,200
	6,398	6,426
Swm net ychwanegol sy'n ofynnol trwy statud i'w ddebydu neu (gredydu) i'r Balans CRT am y flwyddyn	7,011	(4,949)

Nodyn i'r Datganiad Symudiad ar Falans CRT

	2012/13 £000	2011/12 £000
Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau CRT	6,776	4,957
Swm net ychwanegol sy'n ofynnol trwy statud i'w ddebydu / (gredydu) i'r CRT	(7,011)	(4,949)
Gostyngiad yn y Balans CRT	(235)	8
Cyfrif Balans CRT a ddygwyd ymlaen	(247)	(255)
Cyfrif Balans CRT i'w ddwyn ymlaen	(482)	(247)

NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI

NODYN 1 – CYFRIF REFENIW TAI

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gofnod o wariant ar, ac incwm o, ddarpariaeth tai awdurdod lleol, ac mae ffurf a chynnwys y Cyfrif yn cael ei ragnodi gan statud. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei "amgáu" a rhaid iddo fod yn hunangynhaliol. Mae cyfraniadau i ac o'r Cyfrif Refeniw Tai (e.e. o Gronfa'r Cyngor) yn cael eu cyfyngu i amgylchiadau arbennig.

NODYN 2 – STOC DAI

Yn ystod 2012/13, gwerthodd y Cyngor 2 annedd dan y Cynllun Hawl i Brynu (gweler nodyn 5). Roedd nifer yr anheddau yn stoc dai'r Awdurdod, ar 31 Mawrth 2013, yn 3,805 eiddo. Mae'r rhaniad fesul math o annedd fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2012
Stoc y Cyngor		
Tai	2,033	2,035
Byngalos	1,044	1,044
Fflatiau	721	721
Fflatiau un ystafell	7	7
Cyfanswm Stoc y Cyngor	3,805	3,807

NODYN 3 – GWARIANT CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2012
Buddsoddiad cyfalaf		
Tai	8,751	9,237
	8,751	9,237
Ffynonellau ariannu		
Benthyca wedi'i gefnogi		
Benthyca digefnogaeth	(4,121)	(3,358)
Derbyniadau Cyfalaf	(30)	(56)
Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill	(2,600)	(2,623)
Cyllido Refeniw Uniongyrchol	(2,000)	(3,200)
Cyfanswm	(8,751)	(9,237)

Defnyddiwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £2.6m yn llawn yn ystod y flwyddyn (£2.6m yn 2011/12)

NODYN 4 - DADBRISIAD A DIFFYG MEWN PERTHYNAS AG EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

	2012/13 £000 Diffyg	2012/13 £000 Dibrisiad	2012/13 £000 Cyfanswm	2011/12 £000 Diffyg	2011/12 £000 Dibrisiad	2011/12 £000 Cyfanswm
Tir	0	0	0	0	0	0
Tai	2,534	2,660	5,194	0	2,630	2,630
Eiddo Arall - Asedau Gweithredol	0	130	130	0	130	130
	2,534	2,790	5,324	0	2,760	2,760

NODYN 5 – DERBYNIADAU CYFALAF O WAREDU TIR, TAI AC EIDDO ARALL YN Y CYFRIF REFENIW TAI

	2011/12 Nifer gwerthiannau	2011/12 £000	2010/11 Nifer gwerthiannau	2010/11 £000
Anheddau Cyngor				
Hawl i Brynu	2	126	2	131
Ad-dalu disgownt		0		22
Derbyniadau Arall				
Gwerthiant tir	0	0	2	17
Gwerthiant eiddo arall				
Eiddo Morgais		0		3
		126		173
Llai Gosod o'r Neilltu		8		117
		118		56

NODYN 6 – CYMHORTHDAL TAI

Yn 2012/13, talodd y Cyngor £2.120m mewn cymhorthal tai i Lywodraeth Cymru - £1.888m yn 2011/12).

NODYN 7 – ÔL-DDYLEDION RHENT A DRWG DDYLEDION A DYLEDION AMHEUS

Roedd ôl-ddyledion rhent ar 31 Mawrth 2013 yn £0.757m (£649m ar 31 Mawrth 2012). Nid yw hyn yn cynnwys blaendaliadau o £0.135m ar 31 Mawrth 2013 (£0.101m ar 31 Mawrth 2012).

Mae darpariaeth yn y Fantolen ar gyfer drwg ddyledion a dyledion amheus. Roedd y rhain yn cynnwys £0.458m ar gyfer rhenti a £0.572m fel cyfanswm ar gyfer talwyr rhenti (£0.420m a £0.538m yn 2011/12).

NODYN 8 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn gynllun a ariennir, sy'n golygu fod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn ei godi yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddiannau ymddeoliad yn cael ei wyrdroi allan o'r Cyfrif Refeniw Tai ar ôl Gwariant Gweithredu Net. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn:

	2012/13 £000	2011/12 £000
Cyfrif Incwm a Gwariant CRT		
Cost Gwasanaeth Gyfredol	(169)	(115)
Cyfraniadau Cyflogwr a dalwyd yn wirioneddol	169	115
Cyfraniad i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn	0	0

Ni fu'n bosib pennu faint o gost llogau pensiwn a dychweliad disgwylidig ar yr asedau'r adroddiad actiwaiaid sy'n gysylltiedig â'r Cyfrif Refeniw Tai, felly mae'r rhain wedi eu dyrannu'n llawn i Gronfa'r Cyngor.

GEIRFA

ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL

Addasiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol normal neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

ADNODDAU HYLIFOL

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar neu'n agos at y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

AMHARIAD

Lleihad mewn gwerth ased nad yw'n gyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

ARCHWILIO CYFRIFON

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

ASED

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu'n peidio â bod â gwerth perthnasol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu anniriaethol, (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

ASED AMODOL

Mae ased amodol yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

ASEDAU CYMUNEDOL

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

ASEDAU ISADEILEDD

Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

ASEDAU GWEITHREDOL

Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL

Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwared i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

ASEDAU TREFTADAETH

Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol, neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BUDD-DALIADAU TAI

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

BUDDIANNAU YMDDEOLIAD

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)

Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

BUSNES HYFYW

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a mwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycia ei hun.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo.

CONTRACT TYMOR HIR

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymdeoliad.

COSTAU HEB EU DOSBARTHU

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr, ac fel y cyfryw nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

COST LLOG (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwylidig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

CRAIDD CORFFORAETHOL DEMOCRATAIDD

Mae'r Craidd Corfforaethol a Democritaidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

CREDYDWR

Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Croniad gwarged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf fel y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gwrdd â gwariant cyfredol.

CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

CRONIADAU

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm refeniw a chyfalaf a'r gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae'r holl symiau a delir i neu sy'n dderbyniadwy gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

CYFNOD CYFRIFO

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

CYLLIDEB

Rhagolygon o wariant refeniw a chyfalaf net dros y flwyddyn ariannol.

CYLLIDO CYFALAF

Arian a godir i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf deffiniad, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

CYMHORTHDAL NEGYDDOL

Dengys y cyfrifiad Cymhorthdal Tai Cyfrif Refeniw Tai fod incwm tybiedig y Cyngor yn fwy na gwariant gan arwain at "gymhorthdal negyddol". Yn yr achos hwn, rhaid i'r Cyngor dalu swm sy'n cyfateb i'r diffyg, o'i Gyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

CYSONDEB

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

DARPARIAETH

Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gost net am y flwyddyn o'r swyddogaethau mae'n gyfrifol amdanynt ac yn dangos sut y cyllidwyd y gost honno o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

DIBRISIANT

Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliant amser neu anarferiant trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASED AU PENSIWN

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

DYLEDWR

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

EITEMAU ANGHYFFREDIN

Eitemau perthnasol, gyda graddfa uchel o annormalrwydd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n disgyn tu allan i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac na ddisgwylir iddynt ailddigwydd. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, na chwaith yn cynnwys eitemau o'r flwyddyn flaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â'r flwyddyn flaenorol.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARIAID

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwariaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

GRANTIAU LLYWODRAETH

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfriad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar gaffael ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol nad yw'n gyfredol.

GWARIANT REFENIW

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GWERTH GWEDDILLIOL

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

GWERTH LLYFR NET

Y swm y mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

GWERTH NET

Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

GWERTH TEG

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd fraich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

GWERTH TREHADWY

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau TAC.

ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n yn lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tál llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau ariannol a rhwymedigaethau a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

MATEROLIAETH

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan, neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac yn y pen draw gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased nad yw'n gyfredol.

PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ceir diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn IAS 24. I bwrpasu'r Cyngor, ystyrir fod partïon cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu'n ardollau ar y Cyngor. Gall partïon cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartïon cydfenter ac yn enwedig aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Wrth ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

PRAESEPT

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

PRYDLES ARIANNOL

Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased nad yw'n gyfredol i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL

Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased nad yw'n gyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

RHESTRAU STOC

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau deffiniad, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

RHWYMEDIGAETH

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwy'r neu arian parod wedi'u gordynnu.
- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd drwy drefniant yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

RHWYMEDIGAETH AMODOL

Mae rhwymedigaeth amodol naill ai'n:

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcanir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)

Mae'r Trethi Annomestig Cenedlaethol yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartion Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

Y FANTOLEN

Datganiad o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

INDEPENDENT AUDITOR'S REPORT TO THE MEMBERS OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

I have audited the accounting statements and related notes of the Isle of Anglesey County Council for the year ended 31 March 2013 under the Public Audit (Wales) Act 2004.

The Isle of Anglesey County Council's accounting statements comprise the Movement in Reserves Statement, the Comprehensive Income and Expenditure Statement, the Balance Sheet, the Cash Flow Statement, the Movement on the Housing Revenue Account Statement and the Housing Revenue Account Income and Expenditure Statement.

The financial reporting framework that has been applied in their preparation is applicable law and the Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2012/13 based on International Financial Reporting Standards (IFRSs).

Respective responsibilities of the responsible financial officer and the independent auditor

As explained more fully in the Statement of Responsibilities for the Statement of Accounts, the responsible financial officer is responsible for the preparation of the statement of accounts, which gives a true and fair view.

My responsibility is to audit the accounting statements and related notes in accordance with applicable law and International Standards on Auditing (UK and Ireland). Those standards require me to comply with the Auditing Practices Board's Ethical Standards for Auditors.

Scope of the audit of the accounting statements

An audit involves obtaining evidence about the amounts and disclosures in the accounting statements and related notes sufficient to give reasonable assurance that the accounting statements and related notes are free from material misstatement, whether caused by fraud or error. This includes an assessment of: whether the accounting policies are appropriate to the Isle of Anglesey County Council's circumstances and have been consistently applied and adequately disclosed; the reasonableness of significant accounting estimates made by the responsible financial officer and the overall presentation of the accounting statements and related notes.

In addition, I read all the financial and non-financial information in the Explanatory Foreword to identify material inconsistencies with the audited accounting statements and related notes. If I become aware of any apparent material misstatements or inconsistencies, I consider the implications for my report.

Opinion on the accounting statements of the Isle of Anglesey County Council

In my opinion the accounting statements and related notes:

- give a true and fair view of the financial position of the Isle of Anglesey County Council as at 31 March 2013 and of its income and expenditure for the year then ended; and
- have been properly prepared in accordance with the Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2012/13.

Opinion on other matters

In my opinion, the information contained in the Explanatory Foreword for the financial year for which the accounting statements and related notes are prepared is consistent with the accounting statements and related notes.

Matters on which I report by exception

I have nothing to report in respect of the Governance Statement on which I report to you if, in my opinion, it does not reflect compliance with 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' published by CIPFA/SOLACE in June 2007, or if the statement is misleading or inconsistent with other information I am aware of from my audit.

Certificate of completion of audit

I certify that I have completed the audit of the accounts of the Isle of Anglesey County Council in accordance with the requirements of the Public Audit (Wales) Act 2004 and the Code of Audit Practice issued by the Auditor General for Wales.

Anthony Barrett
Appointed Auditor
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9JL

27 September 2013

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – 2012-13

1 CEFNDIR

Yn dilyn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009, cymerodd yr Archwilydd Cyffredinol fesurau i ymyrryd ym materion Cyngor Sir Ynys Môn dan adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999. O Fawrth 2011 i Fedi 2012, Comisiynwyr wedi'u penodi gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd oedd yn cyflawni swyddogaeth weithredol y Cyngor. Yn Hydref 2012 dychwelwyd pwerau gwneud penderfyniadau i'r Arweinydd a'i Bwyllgor Gwaith gyda rhai mesurau diogelwch. Yn dilyn etholiadau ar gyfer aelodau i'r Cyngor Sir ym mis Mai 2013 ac apwyntio gweinyddiaeth newydd yn dilyn hynny, dygwyd yr ymyrraeth i ben ar ddiwedd Mai.

Yn ystod cyfnod yr ymyrraeth, gweithiodd y Cyngor gyda deg thema gwella'r Comisiynwyr oedd yn cynnwys nifer o feysydd i gryfhau llywodraethu corfforaethol. Roedd gwella Llywodraethu Corfforaethol yn un o Amcanion Gwella allweddol y Cyngor ar gyfer 2012-13 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei haddewid i hyrwyddo a diogelu buddiannau'r Ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau. Wrth baratoi ar gyfer Cyngor newydd gyda deg ar hugain o gynghorwyr yn lle deugain fel o'r blaen, diweddarwyd Cyfansoddiad y Cyngor Sir ac yn benodol y trefniadau sgrïwtini. Mabwysiadwyd Cynllun Trawsnewid ar gyfer yr awdurdod yn Ionawr 2013 yn gosod rhaglen waith hyd at 2016. Mae'n rhaglen sydd wedi'i sbarduno gan y Cyngor ei hun.

2 CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol a'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a chadw cyfrif iawn ar ei gyfer, yn cael ei ddefnyddio'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwella parhaus yn digwydd o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau iawn ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol lleol sy'n gyson gydag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Ceir copi o'r cod lleol ar ein gwefan yn <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-lywodraethu/llywodraethu-corrfforaethol/>. Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r cod ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) ac yn ateb gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

3 PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac yn rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn ei harwain. Dylai alluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac yn ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i dylunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gall ei rhoi o ran effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus, wedi'i dylunio i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, asesu pa mor debygol yw i'r risgiau hynny ddigwydd a'r effaith os byddant yn digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Y fframwaith llywodraethu a ddisgrifir isod oedd yn ei lle yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013, ac mae'n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Nodir yn y ddogfen lle cyflwynwyd trefniadau newydd yn ystod y flwyddyn, neu yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai.

4 Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Disgrifir y fframwaith cyfredol fel mae'n berthnasol i bob un o'r chwe egwyddor Llywodraethu Gorfforaethol yn yr atodiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol sydd ar gael yn <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-lywodraethu/llywodraethu-corfforaethol/> .

Mae'r crynodeb sy'n dilyn yn pwysleisio'r gwendidau a'r gwaith a wnaed i ddatblygu a chryfhau'r fframwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13. Fe'i cysylltir yn ôl i'r Themau Trawsnewid hefyd.

Egwyddor Un: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu gweledigaeth i'r ardal leol.

Thema Trawsnewid: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth; Cyflawni

Roedd Strategaeth Gymunedol yn ei lle yn ystod y flwyddyn gyda Chynllun Strategol Integredig Lleol yn cael ei ddatblygu i gymryd ei lle dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Canlyniad y fenter genedlaethol i resymoli partneriaethau a chynlluniau oedd hyn. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Cynllun Strategol Integredig Lleol yn fuan wedi diwedd y flwyddyn.

Roedd Cynllun Corfforaethol 2012-15 yn ei le trwy'r flwyddyn ac fe'i hatgyfnerthwyd gan waith yn ystod y flwyddyn. Adroddiad strategol a lefel uchel oedd Cynllun Cyflawni yr Ynys Môn newydd a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Medi 2012. Mae'r Cynllun Trawsnewid a ddatblygwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'i fabwysiadu yn Ionawr 2013 yn adnabod y rhaglen waith yn codi o'r Cynllun Cyflawni a'i integreiddio gyda rhaglenni gwaith eraill y Cyngor.

Cymeradwywyd cyllideb flynyddol a'r Strategaeth ar gyfer Cyllideb Refeniw Tymor Canol ym Mawrth 2012 a'i ddiweddarau ym Mawrth 2013 yn dilyn ymgynghori cyhoeddus. Roedd y broses gyllidebol yn cynnwys trafodaeth gyhoeddus ar ddigonolrwydd yr arian wrth gefn; cadernid amcangyfrifon a threfniadau rheoli trysorlys yn ôl y disgwyl. Mae angen datblygu Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

Cyhoeddwyd Datganiad Cyfrifon 2011-12 yn amserol gyda drafft cyhoeddus ar gael ar ddiwedd Mehefin a'r cyfrifon terfynol wedi eu cyhoeddi gyda barn archwilio ddiamedod erbyn diwedd Medi fel sydd angen. Ni chafwyd tystysgrif gwblhau ar gyfer yr archwiliad nes mis Gorffennaf o ganlyniad i wrthwynebiad i'r cyfrifon gan etholwr. Mae trefniadau yn eu lle i gyhoeddi cyfrifon 2012-13 yn gyson â'r amserlen statudol.

Rhodddwyd cymeradwyaeth i Gynllun Gwella (Adolygu Perfformiad) gan y Cyngor Sir yn Hydref 2012. Roedd y Cynllun yn edrych yn ôl er mwyn asesu sut y bu i ni berfformio yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau a osodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2011/12. Aseswyd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Lythyr Asesu Gwelliant gyda'r canlyniad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; ond gallai cynnwys a strwythur yr adroddiad gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol er mwyn creu gwell sail tystiolaeth. Cwblhawyd Hunanarfarniad Corfforaethol yn Ebrill 2013.

Mae trefniadau partneriaeth yn cael eu sefydlu fesul achos a does dim fframwaith cynhwysol yn ei le. Mae hyn wedi cael ei adnabod fel gwendid.

Gwnaed cynnydd wrth osod a mesur safonau ansawdd mewn gwasanaethau ac mae angen asesu'r anghenion gwybodaeth a'u gwella. Yn ystod Hydref 2012, gynhaliwyd cyfres o Adolygiadau Gwasanaeth yn cynnwys cyllidebau a pherfformiad a bu'r rhain yn gymorth i siapio'r gyllideb.

Roedd Fframwaith Rheoli Perfformiad mewn lle trwy'r flwyddyn gyda her chwarterol i Wasanaethau gydag adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ac i Sgriwtini. Mae gosod targedau yn parhau yn wendid. Parheir i ddatblygu'r fframwaith i bwysleisio meysydd allweddol o risg a thrawsnewid.

Roedd trefniadau Rheolaeth Ariannol mewn lle trwy'r flwyddyn, er bod gwendidau wedi eu hadnabod yn yr hen ledjer ariannol a systemau cysylltiedig. Bydd modd datrys y gwendidau hynny gyda chyflwyno'r systemau ariannol a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf yn Ebrill 2013.

Egwyddor Dau: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir.

Thema Trawsnewid: Proffesiynol a Threfnus

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn Pwyllgor Gwaith gydag Arweinydd a etholir gan y Cyngor ynghyd a Phwyllgor Gwaith o hyd at ddeg aelod a benodir gan yr Arweinydd. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau ar faterion strategol allweddol ac yn gyfrifol am weithredu'r polisiau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Mae gan bob Cynghorydd bortffolio i swyddogaeth benodol y Cyngor. Mae pum pwyllgor sgrwtini yn dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif, mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith. Mae chwe phwyllgor rheoleiddio yn cynnwys Cynllunio, Trwyddedu, Apeliadau ac Archwilio, ynghyd â nifer o bwyllgorau eraill a sefydlwyd at ddibenion penodol. O fis Mawrth 2011 i Fedi 2012, roedd Comisiynwyr yn ymarfer swyddogaeth weithredol y Cyngor ac ym mis Hydref 2012 dychwelwyd y grym i wneud penderfyniadau i'r Arweinydd a'i Bwyllgor Gwaith ond gyda mesurau diogelwch.

Mae'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau a'r cynllun dirprwyo i swyddogion ac aelodau wedi eu cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor. Gwnaed newidiadau sylweddol i'r strwythur pwyllgorau ac i'r swyddogaeth sgrwtini dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2012-13 datblygwyd trefniadau newydd wrth baratoi ar gyfer etholiadau Mai 2013 a'r gostyngiad yn nifer yr aelodau o ddeugain i ddeg ar hugain ac ar gyfer wardiau aml-aelod.

Cytunwyd ar Brotocol Perthynas newydd rhwng Aelodau a Swyddogion ym Mai 2012 ac yn ystod 2013 cytunwyd ar raglen, gyda chefnogaeth CLILC i gynorthwyo i ddatblygu'r Pwyllgor Gwaith a'r ffordd y mae aelodau ac uwch swyddogion yn cydweithio; mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Cwblhawyd strwythur uwch reoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn wrth i'r Dirprwy Brif Weithredwr gychwyn yn ei swydd ym Mehefin 2012, Cyfarwyddwyr Dysgu Gydol Oes a Chymuned yng Ngorffennaf a Medi a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn Ionawr 2013. Mae'r strwythur Uwch Reoli yn cynnwys Prif Weithredwr sydd wedi ei ddynodi'n Bennaeth y Gwasanaeth Tâl; Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am arwain ar swyddogaethau mewnol y Cyngor ac am sicrhau llywodraethu corfforaethol da; a thri Chyfarwyddwr sy'n arwain y rhaglenni ar gyfer eu grŵp o wasanaethau, gan gymryd cyfrifoldeb am bolisi, cynllunio a pherfformiad y swyddogaethau hynny. Y pum swyddog hyn yw Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yr Awdurdod.

Y ddau Bennaeth Swyddogaeth ar gyfer Adnoddau ac ar gyfer Cyfreithiol a Gweinyddol yw'r Prif Swyddog Cyllid (PSC) dynodedig a'r Swyddog Monitro. Mae'r ddwy'n adrodd i'r Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli eu perfformiad ac am gydlynu eu swyddogaethau llywodraethu o fewn y fframwaith llywodraethu corfforaethol, perfformiad a rheoli newid.

Y model rheoli a gytunwyd yw bod yr UDA yn arwain ar ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor ac yn cael eu dal i gyfrif yn y swyddogaeth honno; a bod rôl weithredu gan y tîm rheoli ehangach. Mae'r PSC a'r Swyddog Monitro yn aelodau allweddol o'r tîm rheoli ehangach a chanddynt fynediad i'r Prif Weithredwr a'r UDA a'i aelodau unigol.

Mae'n ofynnol bod pob awdurdod lleol yn asesu eu trefniadau yn flynyddol yn erbyn Datganiad CIPFA ar Swyddogaeth y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol ac yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth neu'n egluro unrhyw drefniadau gwahanol. Hyd at Ionawr 2013 roedd y PSC interim yn aelod o'r UDA yn adrodd i'r Dirprwy Brif Weithredwr ond gyda mynediad at y Prif Weithredwr. Ers Ionawr, mae'r model rheoli a gymeradwywyd yn fodel gwahanol i'r hyn a ragwelir gan Ddatganiad CIPFA ond bwriedir iddo gael yr un effaith. Mae protocol yn cael ei greu i sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cael effaith cyfatebol; bydd hyn yn cynnwys mynediad i gyfarfodydd a phapurau'r UDA ynghyd â mesurau diogelwch eraill. Mae effeithlonrwydd trefniadau'r protocol ar gyfer papurau pwyllgor wrthi'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y swyddogion hyn yn gallu i roi cyngor ar yr adeg briodol. Adolygir effeithlonrwydd yr holl drefniadau yn flynyddol.

Telir lwfansau i aelodau yn ôl trefn leol sy'n seiliedig ar benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol. Cyhoeddwyd adroddiadau penodol i'r Cyngor hwn ynglŷn â'r flwyddyn dan sylw. Y Cyngor Llawn sy'n penderfynu ar faterion dewisol ac mae'r cynlluniau, a'r taliadau a wnaed i aelodau dan y cynllun, wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mabwysiadwyd Datganiad Polisi Tâl am y tro cyntaf ym Mawrth 2012 yn ôl y galw ac fe'i diweddarwyd yn 2013.

Egwyddor Tri: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.

Thema Trawsnewid: Proffesiynol a Threfnus

Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-15 yn nodi gwerthoedd y Cyngor a daeth y rheini'n rhan greiddiol o Weledigaeth y Cynllun Trawsnewid a'r Diwylliant Trawsnewid.

Mabwysiadwyd Cod Lleol Llywodraethu Corfforaethol yn Hydref 2012, gan ffurfioli a thynnu ynghyd y trefniadau llywodraethu cyfredol.

Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau yn eu lle fel rhan o'r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad. Mae Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad ynghyd â chynlluniau atodol .

Mae Pwyllgor Safonau gweithgar ac effeithiol wedi'i sefydlu ac fe adroddodd ar ei waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Egwyddor Pedwar: Cymryd penderfyniadau tryloyw sydd ar sail tystiolaeth ac yn cael eu sgrwrtineiddio'n effeithiol a rheoli risg.

Thema Trawsnewid: Arloesol, Uchelgeisiol ac Iach

Mae'r cyfansoddiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn sefydlu'r cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau. Gwneir penderfyniadau ar sail cyngor proffesiynol priodol gan gynnwys cyngor cyfreithiol a chyllidol. Cyhoeddir penderfyniadau gweithredol. Nid yw'r trefniadau ar gyfer dirprwyo penderfyniadau gweithredol yn ddealedig ar draws yr awdurdod ac mae arweiniad yn cael ei gylchredeg eto.

Yn Nhachwedd, cyflwynodd y Cyngor systemau newydd i sicrhau mynediad hawdd i bapurau a chofnodion y Cyngor ac o fis Mai mae aelodau a'r cyhoedd wedi cael budd llawn y mynediad at bapurau pwyllgor a'r wybodaeth gefndirol. Mae gan aelodau fynediad uniongyrchol i'r systemau electronig yn ystod y cyfarfodydd.

Cryfhawyd rôl y swyddogaeth sgrwtini fel rhan o raglen waith y Comisiynwyr a chyhoeddwyd Adroddiad Blynnyddol ym mis Mai yn gosod allan y gwaith a wnaed gan y Pwyllgorau yn ystod y flwyddyn.. Roedd sgrwtini hefyd yn destun Astudiaeth Gwella genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gynnar yn 2013 a chynhaliodd y Cyngor hunanwerthusiad fel rhan o'r astudiaeth. Mae canlyniadau'r hunanwerthusiad yn dangos canfyddiad nad yw sgrwtini eto'n cefnogi'n gadarnhaol y Cyngor a'i Wasanaethau. Bydd canlyniadau'r hunanwerthusiad yn cael ei ystyried yng nghyd-destun newidiadau a wnaed ers Mai 2013 a'r adroddiad a'r canllawiau cenedlaethol sydd i ddod. Ers Mehefin 2013 lleihawyd nifer y pwyllgorau sgrwtini o bump i ddau.

Bu trefniadau Rheoli Risg yn datblygu dros y ddwy flynedd diwethaf ac fe ail-gadarnhawyd a mabwysiadu'n ffurfiol y polisïau a'r arweiniad ym mis Medi 2012. Parheir i fewnosod y trefniadau yn y gwasanaethau ac yn gorfforaethol.

Bu rheoli newid yn wan o fewn yr awdurdod a doedd rheoli prosiect ddim wedi ei sefydlu. Ers diwedd y flwyddyn, cymerwyd camau breision i ddatblygu fframwaith rheoli rhaglen a phrosiect newydd ac i greu capasiti i gefnogi'r Cynllun Trawsnewid.

Mae Pwyllgor Archwilio Effeithiol mewn lle. Cwblhaodd y pwyllgor hunanasesiad yn ystod y flwyddyn gan adrodd ar ei waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau tryloyw a hygyrch ar gyfer delio gyda chwynion a daeth Polisi Pryderon a Chwynion i rym yn Ebrill 2013 yn seiliedig ar y polisi safonol a ddatblygwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Hefyd mae gennym drefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu pryderon.

Egwyddor Pump: Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.

Thema Trawsnewid: Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl

Bu'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Siartr Aelodau a gyflwynwyd gan CLILC. Mae disgrifiadau swydd wedi bod yn eu lle i aelodau ers 2012 a chyflwynwyd adolygiadau datblygu personol a chynlluniau datblygu. Cyflwynwyd rhaglen gynefino i aelodau newydd o fis Mehefin ymlaen. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd sy'n goruchwyllo'r meysydd hyn ac mae'r Cadeirydd yn gweithredu fel Pencampwr Datblygu Aelodau.

Cwblhawyd Strategaeth Adnewyddu Democraidaidd yn ystod y flwyddyn wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau a gynhaliwyd ym Mai 2013. Cyfrannodd y Strategaeth at gynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yn yr etholiad a'r canran a bleidleisiodd.

O ganlyniad i weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ddinasyddion wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor yn y dyfodol.

Mae gennym Strategaeth Pobl a llwyddwyd i ddal gafael yn yr achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl yn ystod y flwyddyn.

Roedd rhaglen anwytho staff yn ei lle i staff trwy'r flwyddyn ac fe lanswyd rhaglen gynefino i reolwyr yn Ebrill 2013.

Yn ystod y flwyddyn datblygwyd a sefydlwyd yn gadarn y cynllun Corfforaethol ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol a gyflwynwyd yn 2011-12. Mae'r cynllun yn berthnasol i'r holl staff gan gynnwys Uwch Reolwyr. Gwerthuswyd dros 60% o staff, sef lefel debyg i'r llynedd. Gosodwyd targedau i sicrhau graddfa uwch yn ystod 2013-14. Mae trefniadau wedi eu gwneud i dargedu hyfforddiant a datblygiad ar sail fwy cyson a gyda ffocws pendant, sydd â chysylltiad â'r broses werthuso, wrth i gyllidebau leihau.

Yn ystod 2012 mabwysiadwyd Strategaeth Datblygu Gweithlu a Strategaeth Cynllunio Dilyniant. Roedd Strategaeth Talent yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ac mae gwaith yn parhau er mwyn ei fewnosod i'r broses werthuso cymhwysedd. Mae i'w fabwysiadu'n llawn yn 2013.

Bwriedir adolygu Strategaeth Pobl 2012-15 yn ystod 2013 gan ymgorffori anghenion y Cynllun Trawsnewid a deilliannau'r holiadur staff a wnaed ym Mai a Mehefin 2013.

Fel rhan o weithgaredd y Cynllun Trawsnewid a gweithgaredd ymgysylltu a staff, rhoddwyd cyfle i unigolion ar draws yr awdurdod i weithio ar brosiectau a strategaethau corfforaethol.

Egwyddor Chwech: Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn.

Thema Trawsnewid: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

Roedd y Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned a baratowyd yn 2011 yn ei lle o hyd ac fe'i cefnogwyd gan y Canllawiau ar Ymgynghori ac Ymgysylltu â Staff. Mae'r strategaeth wedi dyddio bellach a bwriedir sefydlu Strategaeth Gofal Cwsmer ynghyd â'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol newydd.

Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddatblygu trefniadau ymgysylltu gyda grwpiau o gydranddeiliaid a datblygwyd gyda Siartr Cynghorau Cymuned yn ystod y flwyddyn a chymeradwywyd Compact Sector Gwirfoddol ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau mewn lle i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Archwilio Allanol, rheoleiddwyr allanol a CLILC. Cryfhawyd y rhain yn ystod y cyfnodau diweddar o ymyrraeth ac mae angen eu cynnal fel rhan o'r trefniadau llywodraethu i'r dyfodol.

Roedd Strategaeth Gyfathrebu a grëwyd ar gyfer 2012-15 mewn lle ar gyfer y flwyddyn ac fe'i cytunwyd yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae pedair rhan i'r strategaeth: Ymgysylltu a'r Dinesydd a'r Gymuned; Y Wasg; Brand y Cyngor; a Chyfathrebu Mewnol. Daeth Cyfathrebu Mewnol yn faes creiddiol i'w ddatblygu yn y Cynllun Trawsnewid.

Roedd cynllunio corfforaethol ar gyfer y flwyddyn wedi ei seilio'n gadarn ar ymgysylltu efo bobl leol a chydranddeiliaid ynglŷn â'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Integredig Sengl. Cysylltwyd Cynllunio Corfforaethol gyda chynllunio ariannol trwy ymgynghori ar y cyd ar Flaenoriaethau Gwella a'r Strategaeth Gyllideb.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan Sgriwtini yn ogystal â'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio.

Mae trefniadau sefydlog ar gyfer ymgysylltu â staff: gyda'r Undebau Llafur trwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol a chyfarfodydd llai ffurfiol, a chyfathrebu gyda staff yn gyffredinol trwy, er enghraifft bwletinâu staff misol. Mae ymgynghori a rheolwyr a staff a chant eu cynnwys yn y penderfyniadau fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid.

5 ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd o fewn y flwyddyn neu yn ymwneud a'r flwyddyn;
- adroddiadau'r Comisiynwyr yn arwain at ddirwyn yr ymyrraeth i ben ar ddiwedd Mai 2013;
- yr adroddiad Hunanarfarnu Corfforaethol dros y cyfnod Tachwedd 2012 i Ebrill 2013 a'r symud yn ôl i reolaeth leol, gan gynnwys adolygu adborth gan Estyn ac AGGCC a'r byrddau adfer perthynol ar y gwaith gwella ynglŷn ag Addysg a Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweiliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth gyda, a chael sylwadau gan, grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae adolygiadau a monitro cyson yn golygu:

- adolygiadau o'r Cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu moesegol gan y Swyddog Monitro, ynghyd ag adolygiad o gydymffurfiaeth â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio;
- gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, y mae eu gwaith yn cymryd ystyriaeth o risgiau sydd wedi eu hadnabod, trwy archwiliadau cyson o'n prif systemau, sefydliadau, prosiectau o sylwedd a phrif brosesau llywodraethu gan gynnwys rheoli risg, yn gyson efo'r cynllun

archwilio mewnol, ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn cyflwyno'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;

- asesiad blynyddol Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Archwilio a Safonau,
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill,
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o wella perfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol,
- asesiadau'r swyddogion statudol, yn cynnwys y Prif Swyddog Cyllid a'r Swyddog Monitro yn erbyn gofynion rheoleiddio ac ymarfer da.

Cymeradwyir y polisiau allweddol, ac unrhyw addasiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Bu'r ffynonellau aswiriant yn fwy ffurfiol ac yn fwy amrywiol ar agweddau ar lywodraethu dros y ddwy flynedd diwethaf oherwydd y ffocws ychwanegol, o ganlyniad i ymyrraeth, trwy hunanasesiadau, adroddiadau'r Comisiynwyr ac adroddiadau rheoleiddwyr. Roedd y sicrwydd hwn yn sylweddol dros yr agweddau llywodraethu allweddol a nodwyd gan y Comisiynwyr er bod rhai o'r asesiad yn seiliedig ar welliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn a gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2013-14.

Gan fod y Cyngor yn symud allan o ymyrraeth ac yn rhoi ei drefniadau llywodraethu newydd yn eu lle, mae angen i nodi ffynonellau newydd o aswiriant ar gyfer y dyfodol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio am farn ar effeithlonrwydd a chyflawnrwydd y fframwaith a sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r DLIB hwn cyn cyflwyno drafft terfynol yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio i'w gytuno.

6 MATERION LLYWODRAETHU O SYLWEDD

Gwnaed cynnydd rhagorol ar draws nifer o themâu llywodraethu yn ystod y flwyddyn gan arwain at Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn casglu "mae gan y Cyngor gynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella a fydd yn heriol i'w gyflawni, ond sydd â rhagolygon realistig i sicrhau gwelliannau sylweddol i wasanaethau a phobl Ynys Môn. [daeth] i'r casgliad canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd graddol o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;
- mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn ond mae'n wynebu nifer o heriau ariannol yn sgil mesurau caledi parhaus; ac
- mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun datblygu sefydliadol i gefnogi gwelliannau hirdymor a moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio."

Yn dilyn hynny, dygwyd yr ymyrraeth i ben ar ddiwedd Mai 2013.

Mae adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ar y fframwaith am reolaeth fewnol. Mae'n adnabod tri adolygiad a wnaed yn ystod y flwyddyn a dderbyniodd raddfa aswiriant "coch". Mae'r adroddiadau yn ymwneud a Pharhad Busnes, Diogelwch Data a Rheoli Cofnodion Modern. Crynhoir argymhellion yr holl adroddiadau mewn Cynllun Gweithredu Rheolaeth Gwybodaeth Gorfforaethol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod pedwar maes lle y byddai gwendidau o sylwedd mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag dibynnu'n

rhesymol ar y systemau o reolaeth fewnol ar gyfer y systemau a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:

- Parhad Busnes;
- Rheoli Risg;
- Llywodraethu: cydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol;
- Rheoli Gwybodaeth.

Gwnaed cynnydd da ar nifer o weithredoedd yn codi o DLIB 2011-12:

- Mabwysiadodd y Cyngor God Llywodraethu lleol gan gytuno'n derfynol y Cynllun Integredig Cyfun yn gynnwys y strategaeth lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- Cyhoeddwyd cyfrifon wedi eu tystio'n ddiamed erbyn y dyddiad cau statudol;
- Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen ar y Cynlluniau Gweithredu yn dilyn adroddiadau beirniadol ar wasanaethau'r Cyngor gan Estyn ac AGGCC;
- Rhoddwyd mwy o frys ar brosesau Arfarnu Swyddi a Thal Cyfartal yn ystod y flwyddyn.

Mae cynnydd yn arafach ar rai o'r meysydd eraill:

- Rheoli Risg, er bod y fframwaith wedi ei gytuno'n ffurfiol bellach;
- Parhad Busnes;
- Cydymffurfio efo polisïau corfforaethol allweddol, gan gynnwys gwerthuso staff;
- Diogelwch Data a Rheoli Gwybodaeth.

Adlewyrchir yr eitemau hyn yn adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu am 2013-14.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a amlinellir uchod, ac yn benodol, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol; canfyddiadau'r Comisiynwyr diweddar yn Adroddiadau'r Comisiynwyr; Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru; a gwaith yr UDA wrth ddatblygu Cynllun Trawsnewid y Cyngor, mae'r materion canlynol wedi eu hadnabod fel y materion llywodraethu o sylwedd ynglŷn â chyflawni gweledigaeth yr awdurdod:

Materion Llywodraethu o Sylwedd	
Mater	Gweithredu sydd wedi ei adnabod
<i>Yr angen i sicrhau cyflawni'r Cynllun Trawsnewid fel sydd wedi ei gynllunio gan barhau i gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol</i>	<i>Sefydlu Byrddau Trawsnewid; Swyddfa Rheoli rhaglen a threfniadau llywodraethu.</i> <i>Datblygu capasiti mewnol i gefnogi trawsnewid a gwella.</i>
<i>Yr angen i gynllunio a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen gan y Cyngor</i>	<i>Datblygu Strategaeth Cyllideb Tymor Canol yn seiliedig ar y cynlluniau cyfredol a'r rhagamcanion</i> <i>Sefydlu Strategaeth Effeithlonrwydd fel rhan o gynlluniau strategol creiddiol y Cyngor</i> <i>Cyflwyno Polisi a strategaeth Comisiynu a Chaffael</i>
<i>Cymryd y camau technegol a strwythurol yn erbyn prosesu data personol heb ganiatâd neu yn anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddifrodi data personol ar ddamwain</i>	<i>Mae'r Cyngor wedi cytuno archwiliad cydsyniol gan y Comisiynydd Gwybodaeth.</i> <i>Creu bwrdd prosiect i weithredu cynlluniau gwaith presennol ynghyd ag argymhellion y Comisiynydd Gwybodaeth</i>

7 ARDYSTIO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Rydym wedi ein cyngori ar oblygiadau canlyniad yr **adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a bod y trefniadau **yn parhau i'w hystyried yn addas i bwrpas yn gyson a'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi cael ymateb a'r rhai sydd i'w trin yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin gyda'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a enwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu ac aswariant yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad gwelliannau trwy'r Pwyllgor Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Arweinydd y Cyngor

Dyddiad:

Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn

Prif Weithredwr

Dyddiad:



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2012-13

Cyhoeddwyd: Medi 2013

Cyfeirnod y ddogfen: C13317

Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon ar ffurf ddrafft a ddarperir yn gyfrinachol. Dim ond er mwyn cadarnhau cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ar y casgliadau y daethpwyd iddynt y'i darperir.

Trafod y ddogfen cyn ei chyhoeddi

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac erys felly. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan bwerau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol a allai gael ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Oni chaniateir yn benodol o dan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw ran o'i chynnwys, na'i storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw un ac eithrio'r sawl a'i derbyniodd yn wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Penodedig wrthi'n ystyried ffurf ei farn archwilio ar eich datganiadau ariannol o ystyried y materion a nodwyd o ran prisiad rhwymedigaeth pensiynau o fewn Datganiadau o Gyfrifon. Os caiff y materion hyn eu datrys, mae'r Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	3
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad	4
Annibyniaeth a gwrthrychedd	11

Atodiadau

Llythyr Sylwadau Terfynol	12
Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Sir Ynys Môn	16
Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt	18

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae Anthony Barrett, yn rhinwedd ei swydd fel yr Archwilydd Penodedig, yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y lefelau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn yw £2,199,000 ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2012-13, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

6. Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ar 28 Mehefin 2013 ac erbyn y dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad hwn nid oeddem wedi derbyn y canlynol:
 - Profion ar ddata aelodaeth y cynllun pensiwn
 - Profion ar ddyddlyfrau a gwblheir â llaw
 - Datrys materion sy'n codi o'n profion cychwynnol o gyflawnder cronïadau a chyfrifon taladwy
 - Profion ar gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a chysoni
 - Ymatebion terfynol i ymholiadau ar y cyfrifon gan y tîm archwilio
 - Cwblhau ein gwaith ar ddarpariaethau dyfarnu allweddol yn y cyfrifon mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal
 - Cwblhau'r gweithdrefnau Cyfrifon Llywodraeth Gyfan a oedd yn weddill
 - Gweithdrefnau cwblhau'r archwiliad

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon ar hynt y materion hyn ar lafar ar 24 Medi 2013.

7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol

Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r swyddog a.151, Clare Williams.

Adroddiad archwilio arfaethedig

8. Mae'r Archwilydd Penodedig wrthi'n ystyried ffurf ei farn archwilio ar eich datganiadau ariannol o ystyried y materion a nodwyd o ran prisiad rhwymedigaeth pensiynau o fewn Datganiadau o Gyfrifon. Os caiff y materion hyn eu datrys, mae'r Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

10. Nodwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.

Cost gwasanaethau gwariant

DR Cronfa'r Cyngor £126,000

CR Cost gwasanaethau (gwariant) £126,000

Nodwyd gwall dibwys gwerth £256 yn ein profion ar gost gwasanaethau gwariant a oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod 2011/12. Pe bai'r un gyfradd o wall yn codi ar draws cost gwasanaethau gwariant, byddai'n arwain at werth allosodedig o £126,000.

Cyflawnder croniadau a chyfrifon taladwy

DR Cost gwasanaethau (gwariant) £402,000

CR Croniadau £402,000

Nodwyd pedwar gwall dibwys gwerth £17,058 (o sampl o 14 o eitemau) yn ein hanfonebau profion a gofnodwyd ar ôl dyddiad diwedd y flwyddyn ar gyfer cyflawnder croniadau a chyfrifon taladwy. Pe bai'r un gyfradd o wall yn codi ar draws ein poblogaeth brawf, byddai'n arwain at werth allosodedig o £385,000.

Cydnabuwyd incwm ar gam, neu defnyddiwyd cod incwm anghywir

DR Cost gwasanaethau (incwm) £178,000

CR Cost gwasanaethau (gwariant) £85,000

CR Dyledwyr byrdymor £93,000

Nodwyd tri gwall dibwys gwerth cyfanswm o £39,317 (o sampl o 42 o eitemau) yn ein hincwm grant profion a dderbyniwyd yn y flwyddyn, sy'n cynrychioli tâl mewnol a gydnabuwyd o fewn y balans ar gam, gordaliad yn erbyn anfonebau prynu a gofnodwyd fel incwm ar gam, ac incwm o gyngor sydd ar hyn o bryd yn cael ei herio ganddynt. Pe bai'r un gyfradd o wall yn codi ar draws ein poblogaeth brawf, byddai'n arwain at werth allosodedig o £138,000.

Camddatganiadau a gywirwyd

11. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

Risgiau archwilio sylweddol

12. Yn ein Strategaeth Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny

Risgiau	Camau gweithredu a gymerwyd
<p>Cydnabod refeniw a gwariant</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae risg benodol y gallai'r Cyngor ffugio'r incwm y mae'n ei gofnodi ar gyfer grantiau cyfalaf neu refeniw lle nad oes unrhyw sylwedd y tu ôl i'r trafodyn, cyn bod ganddo hawl i'w gydnabod fel incwm, neu cyn bod telerau ac amodau cysylltiedig â'r grant wedi'u bodloni er mwyn cynyddu'r refeniw a gydnabyddir a chael canlyniad mwy ffafriol ar gyfer y flwyddyn.• Rydym yn ystyried bod risgiau penodol pellach i gyflawnder a chywirdeb croniadau, a gweithdrefnau torbwynt lle y gallai'r Cyngor ffugio ei gydnabyddiaeth o wariant drwy gydnabod gwariant yn anghywir neu'n anghyflawn, neu yn y cyfnod cyfrifyddu anghywir er mwyn cael canlyniad sy'n fwy neu'n llai ffafriol ar gyfer y flwyddyn.	<p>Rydym wedi deall ac wedi gwerthuso'r rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risg hon ac wedi gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• wedi gwerthuso rheolaethau allweddol er mwyn cadarnhau ein dealltwriaeth o gynllun y rheolaeth;• wedi profi cysoniadau allweddol;• wedi profi bod gan y Cyngor hawl i gynnwys incwm a gydnabuwyd mewn perthynas ag arian grant yn ei gyfrifon; a• wedi profi bod trafodion sy'n digwydd tua diwedd y flwyddyn wedi'u cofnodi'n gyflawn ac yn gywir, ac wedi'u dosbarthu'n briodol yn y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi. <p>Ystyriwyd y polisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Cyngor a chynhaliwyd y lefel briodol o brofion ar incwm a gwariant. Rydym hefyd wedi ystyried y gwaith a</p>

	<p>wnaed gennym mewn perthynas â'r risg y gallai rheolwyr anwybyddu rheolaethau (gweler isod). Rydym wedi nodi camddatganiadau o ganlyniad i'n profion (gweler isod, ac atodiad 3).</p>
<p>Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Mewn unrhyw sefydliad, gall rheolwyr fod mewn sefyllfa i anwybyddu'r rheolaethau ariannol sydd ar waith gennych. Gall y fath achos o dorri'r rheolaethau arwain at gamddatganiad perthnasol. 	<ul style="list-style-type: none"> Gwnaethom ddeall a gwerthuso prosesau a gweithdrefnau rheoli mewnol fel rhan o'n gwaith cynllunio. Gwnaethom adolygu a phrofi priodoldeb sampl o'r dyddlyfrau a broseswyd â llaw yn ystod y flwyddyn. Edrychwyd yn ofalus ar unrhyw amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr ac ystyriwyd a oedd unrhyw duedd yn perthyn iddynt. Gwnaethom ddeall y rhesymeg fusnes dros drafodion sylweddol yr ymddengys nad ydynt yn fusnes arferol. Mae ein gweithdrefnau archwilio hefyd yn cynnwys elfen anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. <p>Nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o ganlyniad i'n profion hyd yma.</p>
<p>Amcangyfrifon rheolwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae nifer o amcangyfrifon rheolwyr yn y datganiadau ariannol a all fod, o gofio eu natur feirniadol, wedi'u camddatgan mewn modd perthnasol. Gall y rhain gynnwys y ddarpariaeth Cyflog Cyfartal / Statws Sengl, darpariaethau cyffredinol megis rhai ar gyfer drwgddyledion, cronïadau tâl gwyliau, a'r ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau tirlenwi mewn perthynas â Phenhesgyn. <p>Rydym wedi cynnig addasiadau cyn hyn mewn perthynas â darpariaethau Penhesgyn a Chyflog Cyfartal / Statws Sengl sy'n nesáu at ein trothwy o ran perthnasedd, ac mae risg felly y gallai unrhyw addasiadau o'r fath yn y dyfodol fod yn rhai perthnasol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi blaenoriaethu'r gwaith archwilio ar y meysydd barn allweddol er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n codi yn cael eu hystyried mor gynnar â phosibl. Gweler isod am ein hystyriaeth o amcangyfrifon allweddol rheolwyr a'n gwaith arnynt. <p>O ganlyniad i'n profion, cynigiodd y rheolwyr addasu'r ddarpariaeth ynglŷn â thirlenwi ac amcangyfrifon prisio (gweler isod, ac atodiad 3). Mae ein gwaith mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal yn barhaus a gall arwain at ragor o addasiadau.</p>
<p>Paratoi cyfrifon</p> <ul style="list-style-type: none"> Cafodd anawsterau o ran llenwi swyddi'n barhaol yn y Tîm Cyllid effaith andwyol ar broses llunio cyfrifon y 	<p>Gweithiwyd yn agos gyda'r rheolwyr er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed wrth baratoi cyfrifon 2012/13. Llwyddodd y staff i gydymffurfio â'r terfynau amser perthnasol.</p>

Cyngor yn 2009/10 a 2010/11. Llwyddodd staff interim profiadol i gwblhau'r gwaith erbyn y terfynau amser yn 2011/12. Mae rhai rolau cyfrifyddu allweddol yn dal i gael eu cyflawni gan staff interim ond mae swydd swyddog a151 wedi'i llenwi'n barhaol bellach. Mae'n hanfodol bod perfformiad 2011/12 yn parhau a bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i lunio'r cyfrifon statudol yn unol â'r amserlenni gofynnol.

Nodwyd un mater ynglŷn â'r broses o baratoi'r cyfrifon a oedd yn wendid rheolaeth perthnasol yn ein barn ni, ac rydym wedi ei nodi isod.

System rhenti tai a chyfrifyfr cyffredinol newydd

- Rhoddodd y Cyngor system rhenti tai newydd ar waith ym mis Tachwedd 2012, a bydd yn rhoi ei system cyfrifyfr cyffredinol newydd ar waith ym mis Ebrill 2013. Ceir risg y gall y broses drosglwyddo achosi problemau o bosibl, megis data yn cael ei drosglwyddo'n anghywir neu'n anghyflawn.

Adolygodd archwilwyr mewnol y Cyngor y broses drosglwyddo o'r hen system rhenti tai i Orchard ac maent wedi profi cywirdeb cofnodion a drosglwyddwyd, gan nodi un broblem o ran hawliau mynediad rhesymegol i'r system gan nifer o ddefnyddwyr. Nid effeithiodd hyn ar y gwaith rydym wedi'i wneud o ran rhenti tai.

Gwnaethom waith dadansoddi sylweddol ynglŷn â'r ffigurau incwm rhenti tai. Oherwydd ein dull gweithredu nid oedd angen i ni ddibynnu ar y rheolaethau yn y system rhenti tai newydd (Orchard).

Mae archwilwyr mewnol y Cyngor wedi adolygu'r broseso drosglwyddo i'r system cyfrifyfr cyffredinol newydd ac ni nodwyd unrhyw broblemau sylweddol.

Defnyddiwyd hen system cyfrifyfr cyffredinol y Cyngor (Finance Link) i baratoi'r datganiad o gyfrifon. Roedd y gwaith a wnaed gennym ar system cyfrifyfr cyffredinol newydd y Cyngor (Civica) wedi'i gyfyngu i asesu dilysrwydd unrhyw adroddiadau a geisiwyd gennym. Ni nodwyd unrhyw eithriadau gennym o ganlyniad i'r prawf hwn.

Cydnabod gwariant – cyflawnder cronniadau

13. Ar ôl i gyflawnder cronniadau gael ei nodi fel un o'n risgiau penodol, cynhaliwyd gweithdrefnau er mwyn nodi unrhyw rwyngedigaethau nas cofnodwyd.
14. Nododd ein samplau bedwar gwall mewn poblogaeth brawf o 14 o ddatganiadau i'r cyfrifyfr cyfrifon taladwy ar ôl dyddiad diwedd y flwyddyn. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Cyngor wrthi'n adolygu anfonebau a gofnodwyd ar ôl diwedd y flwyddyn er mwyn cadarnhau a ddylid cronni unrhyw eitemau eraill o wariant; yna bydd y tîm archwilio yn

cyflawni'r prawf unwaith eto. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r pwyllgor archwilio ar 24 Medi am ganlyniadau'r gwaith hwn.

Amcangyfrifon arwyddocaol

15. Yn ystod ein harchwiliad ymgwymerwyd â gweithdrefnau penodol mewn perthynas â meysydd sy'n destun risg o ran amcangyfrif

Prisiadau asedau sefydlog

16. Ailbrisiodd y Cyngor gyfran o'i bortffolio asedau sefydlog fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2012 yn unol â'i bolisi cyfrifyddu o ailbrisio asedau bob pum mlynedd. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar gadernid y cyfrifiadau a wnaed gan brisiwr mewnol cymwysedig y Cyngor a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad.
17. O ran asedau a ailbrisiwyd yn ffurfiol gan y Cyngor, nodwyd gwall o £472,000 a oedd yn ymwneud â'r Cyfleuster Cynhyrchu Methan ym Mhenhesgyn, y gorddatganwyd ei werth. Yn ogystal, yn seiliedig ar wall yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn eu cyfrifiad, tanddatganwyd gwerth Eiddo Buddsoddi £352,000. Mae pob un o'r gwallau wedi'u haddasu yn y datganiadau ariannol terfynol.
18. Ar ein cais ni, cynhaliodd y Cyngor ymarfer mynegeio er mwyn diweddarau gwerth y categorïau sylweddol hynny o dir ac eiddo (nas prisiwyd yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn) hyd at 31 Mawrth 2013 yn ogystal â diweddarau gwerth yr asedau hynny a brisiwyd ar 1 Ebrill 2012. Arweiniodd hyn at leihau gwerth Anheddau'r Cyngor £2.5m yn seiliedig ar ostyngiad o 3.5% yng ngwerth cyfartalog anheddau hawl i brynu ar Ynys Môn ers y prisiad ffurfiol diwethaf (1 Ebrill 2010). Cynyddodd gwerth Tir ac Adeiladau £6.7m ar ôl cynnydd yn y mynegeion adeiladu (BCIS) sy'n sail i brisiadau o'r fath. Mae'r Cyngor wedi addasu'r newidiadau hyn yn ei ddatganiad o gyfrifon.
19. Yn ystod y flwyddyn flaenorol nodwyd bod y Cyngor yn defnyddio dull Beacon o brisio ei stoc tai cyngor, sy'n cynnwys dewis sawl eiddo sy'n nodweddiadol o wahanol gategorïau neu haenau o dai cymdeithasol, eu prisio, ac yna gymhwyso'r gwerth hwn at bob haen yn ei thro.
20. Er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng tai preifat a thai cymdeithasol (fel anheddau cyngor) lle mae gan denantiaid lawer mwy o hawliau, mae dull Beacon yn defnyddio ffactor addasu.
21. Ar adeg y prisiad diwethaf, nid oedd data ar gael ar y ffactorau addasu ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ranbarth cymharol (Swydd Efrog a Humberside) a chymhwysodd y ffactor addasu hon, sef 31%.
22. Cyhoeddwyd papur ymchwil gan DVS (arbenigwyr prisio yn y sector cyhoeddus) ym mis Ebrill 2011 a nododd wybodaeth ddangosol am ffactorau addasu ar gyfer rhanbarthau Cymru, a'r ffactor a roddwyd ar gyfer Gogledd a Gogledd-Ddwyrain Cymru oedd 39%. Fodd bynnag, nid yw'r papur hwn wedi'i gynnwys mewn unrhyw ganllawiau ffurfiol hyd yma.
23. Byddai newid o 1% yn y ffactor addasu a gymhwyswyd yn cael effaith berthnasol ar werth anheddau cyngor. Felly ystyriodd y Cyngor yn ofalus pa ffactor addasu y dylid ei

gymhwyso, gan ddod i'r casgliad na fu'r papur ymchwil yn destun ymgynghori a dilysu digonol i allu dibynnu arno fel sail ar gyfer gwneud newid mor sylweddol yn ei ddatganiad o gyfrifon. Felly mae wedi cadw'r ffactor addasu presennol, sef 31% ond mae wedi tynnu sylw darllenwyr at y papur ymchwil yn ei ddatganiad o gyfrifon gan nodi y gallai arwain at newid sylweddol yng ngwerth anheddau'r cyngor yn y dyfodol o tua £3.4m fesul 1% o wahaniaeth. Rydym o'r farn bod hyn yn rhesymol.

Rhwymedigaethau mewn perthynas â gwerthuso swyddi a chyflog cyfartal

24. Yn 1997, llofnododd cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur 'Gytundeb Statws Sengl'. Fel rhan o ddeddfwriaeth cyflog cyfartal, rhoddodd y cytundeb rwymedigaeth ar awdurdodau i gynnal adolygiadau cyflog cyfartal ac i gyflwyno strwythurau cyflog anwahaniaethol, gan fynd i'r afael â'r ffaith bod cyflogeion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol.
25. Mae'r Cyngor wedi cael hawliadau cyflog cyfartal yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chafodd ragor o hawliadau yn ystod 2012/13. Mae'r rheolwyr wedi asesu amlygiad posibl y Cyngor i hawliadau er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth mewn perthynas â'r hawliadau cyfreithiol hyn.
26. Rydym wedi cynnal profion trylwyr ar y cyfrifiadau a wnaed gan y rheolwyr ac wedi trafod yr amcangyfrif gyda'r swyddog a151. Fe'n hysbyswyd bod y datganiad o gyfrifon yn adlewyrchu'r amcangyfrif sy'n briodol ym marn y rheolwyr, ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddynt a'u bwriadau wrth ddelio â'r hawliadau. Mae ein gwaith mewn perthynas â dyfarniadau allweddol o fewn cyfrifiad y ddarpariaeth hon yn barhaus a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor archwilio am ganlyniad y gwaith hwn yn y cyfarfod ar 24 Medi 2013.
27. At hynny mae'r Cyngor wedi datgelu rhwymedigaeth wrth gefn mewn perthynas â rhwymedigaethau cyflog cyfartal posibl nad oes unrhyw hawliadau wedi dod i law yn eu cylch.
28. Mae'r Cyngor wrthi'n cynnal ei ymarfer Gwerthuso Swyddi, ond nid yw eto wedi gallu rhoi asesiad manwl o'i rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o'r gofyniad i gyflwyno system cyflog a graddio newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2007.
29. Mae sgoriau Gwerthuso Swyddi sy'n gysylltiedig â swyddi wedi cael eu rhoi i Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor sydd wedi ymateb i nifer o gwestiynau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd. Nid yw sgoriau Gwerthuso Swyddi wedi cael eu rhoi i aelodau unigol o staff eto, nac wedi eu cysylltu â system cyflog a graddio newydd.
30. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Cyngor gydnabod rhwymedigaeth berthnasol mewn perthynas â'r ymarfer hwn. Mae ganddo gronfa wrth gefn o £2.7m a neilltuwyd i ariannu'r costau a ragwelir. Gan nad yw'r Cyngor wedi cynnig system cyflog a graddio newydd eto ac nad yw wedi cyfrifo maint unrhyw rwymedigaethau posibl i dalu ôl-gyflog, ni wnaed darpariaeth mewn perthynas â'r ymarfer gwerthuso swyddi er bod rhwymedigaeth wrth gefn wedi'i ddatgelu.

Darpariaeth gwastraff

31. Mae'r Cyngor wedi cadw darpariaeth o £1.9m yn y datganiad o gyfrifon mewn perthynas â chostau ôl-ofal ar ran o safle gwastraff Penhesgyn a gapiwyd. Mae prisiad y ddarpariaeth hon yn deillio o asesiad amgylcheddol arbenigol a gynhaliwyd yn 2008. Mae'r asesiad yn rhagamcanu costau ôl-ofal dros gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer y safle cyfan. Fodd bynnag, dim ond cyfran o'r costau hyn a gydnabuwyd gan y Cyngor drwy ei ddarpariaeth gwastraff ar gyfer un rhan o safle gwastraff Penhesgyn.
32. Mae'r rhan arall o safle gwastraff Penhesgyn yn cynnwys cyfleusterau i gasglu a phrosesu nwy gwastraff a gynhyrchir wrth i wastraff bydru. Mae'r amcangyfrif a wnaed gan yr arbenigwr ar gyfer gweddill y ddarpariaeth wedi'i ddisodli'n rhannol gan y buddsoddiad cyfalaf a wnaed er mwyn echdynnu a gwerthu nwy. Fodd bynnag, mae'r costau sy'n weddill, sef costau refeniw, yn rhai gofynnol o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol ac felly dylid darparu ar eu cyfer.
33. Dengys yr asesiad amgylcheddol arbenigol y dylai'r Cyngor gydnabod darpariaeth o £756,000 yn ychwanegol at ei ddarpariaeth bresennol o £1.9m. Cyfrifwyd hyn ar sail heb ei disgowntio, gan dybio dim chwyddiant hefyd.
34. Mae'r rheolwyr wedi cytuno y dylai'r ddarpariaeth a gydnabyddir yn y datganiad o gyfrifon gael ei chynyddu, ac mae wedi ei chynyddu £775,000, wedi'i ariannu o gronfa wrth gefn benodol a sefydlwyd yn flaenorol at y diben hwn.
35. Rydym wedi cynnal ychydig o waith dadansoddi sensitifrwydd, disgowntio yn seiliedig ar y costau a nodwyd yn yr asesiad amgylcheddol arbenigol, cymhwyso nifer o ragdybiaethau o ran cyfradd ddisgowntio a chwyddiant er mwyn rhoi amrediad o werthoedd darpariaeth posibl. Rydym yn fodlon bod darpariaeth ddiwygiedig y Cyngor yn dod o fewn amrediad rhesymol o amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel wedi'i ddisgowntio.

Pensiynau

36. Ar ôl profi cyflawnder a chywirdeb data ar aelodaeth a ddarparwyd i'r cynllun pensiwn, nodwyd ei bod yn bosibl bod y data ar aelodaeth a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yn anghywir mewn ffordd berthnasol.
37. Rydym wrthi'n cynnal profion pellach er mwyn cadarnhau goblygiadau hyn. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Medi 2013.

Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

38. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:
 - **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall.

Daethom i'r casgliad fod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.
- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Mae un mater arall sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses adrodd ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdano.**

Goruchwylio'r broses o baratoi'r cyfrifon

Nodwyd camddatganiad perthnasol o £61.6m gennym yn ystod ein gwaith maes archwilio (gweler Atodiad 3) a ddigwyddodd oherwydd bod aelod o'r tîm cyllid wedi gwrthdroi taliadau a ailgodir yn fewnol yn anghywir. Er na chafodd unrhyw effaith ar Gost Net Gwasanaethau, cafodd Costau Incwm a Gros Gwasanaethau eu gorddatgan mewn ffordd berthnasol yn y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'r tîm archwilio.

At hynny, nodwyd sawl gwall amherthnasol o natur debyg lle cafodd cronïadau agoriadol eu gwrthdroi'n anghywir neu lle cafodd incwm a gwariant grantiau eu dyblygu ar gam (gweler Atodiad 3).

Gallai'r materion hyn fod wedi cael eu nodi drwy adolygiad manylach wrth baratoi'r cyfrifon.

Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol eraill yn y rheolaethau ond rydym wedi nodi sawl maes lle gellid gwella rheolaethau. Caiff y rheolwyr eu hysbysu am y rhain ar wahân.

- **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill penodol y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

Annibyniaeth a gwrthrychedd

39. Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
40. Mae PwC yn darparu gwasanaethau ardystio grantiau i'r Cyngor a chodir taliadau blynyddol o tua £140,000 am hynny.
41. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydbertnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru/PwC a Chyngor Sir Ynys Môn sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

(Pennawd llythyr y corff a archwilir)

Anthony Barrett

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

PwC

Un Ffordd y Brenin

Caerdydd

CF10 3PW

26 Medi 2013

Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2012-13

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a, lle y bo'n briodol, ar ôl archwilio dogfennaeth ategol fel ag yr oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddir

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a

-
- mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol i chi, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
 - canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
 - ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
 - ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
 - ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
 - manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a honiadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

Cost gwasanaethau gwariant

DR Cronfa'r Cyngor	£126,000
CR Cost gwasanaethau (gwariant)	£126,000

Nodwyd gwall dibwys gwerth £256 yn ein profion ar gost gwasanaethau gwariant a oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod 2011/12. Pe bai'r un gyfradd o wall yn codi ar draws cost gwasanaethau gwariant, byddai'n arwain at werth allosodedig o £126,000.

Cyflawnder croniadau a chyfrifon taladwy

DR Cost gwasanaethau (gwariant) £402,000

CR Croniadau £402,000

Nodwyd pedwar gwall dibwys gwerth £17,058 (o sampl o 14 o eitemau) yn ein hanfonebau profion a gofnodwyd ar ôl dyddiad diwedd y flwyddyn ar gyfer cyflawnder croniadau a chyfrifon taladwy. Pe bai'r un gyfradd o wall yn codi ar draws ein poblogaeth brawf, byddai'n arwain at werth allosodedig o £385,000.

Cydnabuwyd incwm ar gam, neu defnyddiwyd cod incwm anghywir

DR Cost gwasanaethau (incwm) £178,000

CR Cost gwasanaethau (gwariant) £85,000

CR Dyledwyr byrdymor £93,000

Nodwyd tri gwall dibwys gwerth cyfanswm o £39,317 (o sampl o 42 o eitemau) yn ein hincwm grant profion a dderbyniwyd yn y flwyddyn, sy'n cynrychioli tâl mewnol a gydnabuwyd o fewn y balans ar gam, gordaliad yn erbyn anfonebau prynu a gofnodwyd fel incwm ar gam, ac incwm o gyngor sydd ar hyn o bryd yn cael ei herio ganddynt. Pe bai'r un gyfradd o wall yn codi ar draws ein poblogaeth brawf, byddai'n arwain at werth allosodedig o £138,000.

Ar sail y cynnydd a wnaed hyd yma, ar hyn o bryd ni allwn asesu ein rhwymedigaethau posibl o ran ôl-gyflog mewn perthynas â'r ymarfer Gwerthuso Swyddi.

Mae'r ddarpariaeth 'Arall' (a gynhwysir mewn perthynas â hawliadau Cyflog Cyfartal) yn seiliedig ar ein hamcangyfrif gorau o'r rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o setlo'r hawliadau hyn, ac ystyriwyd pob hawliad a datblygiad o dan gyfraith achosion gymwys yr ydym yn ymwybodol ohoni. Rydym yn cadarnhau bod y Cyngor yn bwriadu ceisio setlo'r hawliadau hyn y tu allan i dribiwnlys ac mai dim ond i'r hawlwyd hynny sydd â hawliad dilys ym marn y Cyngor y caiff setliadau eu cynnig, ac mae wedi gwneud darpariaeth yn y datganiadau o gyfrifon ar eu cyfer yn unol â hynny.

Rydym yn cadarnhau ein bod yn fodlon bod y ffigurau a roddwyd mewn perthynas ag Asedau Sefydlog ac Eiddo Buddsoddi yn y Datganiadau o Gyfrifon yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau o werth yr asedau hynny a bod y dulliau prisio a ddefnyddiwyd yn briodol.

Mae'r rhagdybiaethau sylfaenol a'r data ar aelodaeth a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraidd y cynllun pensiwn yn briodol i Gyngor Sir Ynys Môn.

Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni. Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 26 Medi 2013.

Llofnodwyd gan:

[Swyddog sy'n llofnodi ar ran rheolwyr]

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

[Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu]

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

-
- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
 - wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ar dystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Archwilydd Penodedig

Cyfeiriad

Dyddiad

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
£61,580,000	DR Cost Gwasanaethau (Incwm) CR Cost Gwasanaethau (Gwariant)	Arweiniodd gwall wrth wrthdroi taliadau a ailgodwyd yn fewnol yn y cyfrifyfr cyffredinol at orddatgan incwm a gwariant o fewn cost gwasanaethau.
£6,710,000	DR Asedau sefydlog CR Cronfa ailbrisio wrth gefn	Yn seiliedig ar fynegeio tuag i fyny ar gyfer categorïau sylweddol o dir ac adeiladau eraill ers dyddiad y prisiad ffurfiol diwethaf.
£2,534,000	DR Cyfrif addasu cyfalaf DR Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant CR Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai CR Asedau sefydlog	Yn seiliedig ar fynegeio tuag i lawr ar gyfer anheddau'r cyngor ers dyddiad y prisiad ffurfiol diwethaf.
£352,000	DR Eiddo buddsoddi CR Ariannu ac incwm buddsoddiadau a gwariant	Yn seiliedig ar gywiro gwall methodolegol wrth gyfrifo gwerth eiddo.
£775,000	DR Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio CR Darpariaethau	Mae'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â chost rheoli'r safle tirlenwi ym Mhenhesgyn wedi cael ei chynyddu i gwmpasu amcangyfrif y Cyngor o gyfanswm y costau tebygol. Fe'i hariannwyd o gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio a neilltuwyd ar gyfer costau tirlenwi.
£643,000	DR Cost Gwasanaethau (Incwm) CR Cost Gwasanaethau (Gwariant)	Arweiniodd gwall wrth ailddadansoddi costau ac incwm mewn perthynas â grantiau yn y cyfrifyfr cyffredinol at ddyblygu'r costau hyn o fewn cost gwasanaethau.
£472,000	DR Costau lleihad mewn gwerth	Gorddatganwyd gwerth Cyfleuster

	CR Asedau sefydlog DR Cyfrif Addasu Cyfalaf CR Cronfa'r Cyngor	Cynhyrchu Methan yn safle tirlenwi Penhesgyn.
£322,000	DR Dyledwyr byrdymor CR Credydwyr byrdymor	Arweiniodd gwall wrth ailgysoni balansau dyledwyr y Dreth Gyngor a'r Ardreth Annomestig Genedlaethol at oraddasu'r cyfriflyfr.
£164,000	DR Credydwyr byrdymor CR Cost gwasanaethau (incwm)	Sef rhyddhau balans Grant Cefnogi Pobl a gofnodwyd yn anghywir fel credydwr i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

DRAFT



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk



Y rhaglen waith ddiweddaraf ar berfformiad i'r Pwyllgor Archwilio 24 Medi 2013

Cyngor Sir Ynys Môn

Llythyr Asesu Gwelliant 1 - Cynllunio gwelliant

Mae'r adolygiad wedi cael ei gwblhau ac mae Llythyr wedi'i gyhoeddi. Adolygiad o drefniadau cynllun gwella'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus yw hwn. Mae'r llythyr yn dilyn cyhoeddi cynllun gwella'r Cyngor. Fodd bynnag, gan fod etholiad eleni, mae'r Cyngor wedi gohirio llunio ei gynllun gwella tan fis Hydref 2013. Mae hyn yn debyg i'r trefniadau y llynedd gydag awdurdodau eraill yng Nghymru. Rhoddir adborth i'r Pwyllgor Archwilio.

Llythyr Asesu Gwelliant 2 - Profi ac Archwilio Cyhoeddiad Asesu Perfformiad y Cyngor

Adolygiad o ba mor dda y mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf yw hwn. Bydd y llythyr hefyd yn rhoi sylwadau ar Gynllun Gwella'r Cyngor a'i Archwiliad o Ansawdd Data. Caiff y Llythyr ei lunio erbyn mis Tachwedd 2013 a rhoddir adborth i'r Pwyllgor Archwilio.

Adroddiad Gwella Blynnyddol

Mae'r Adroddiad Gwella Blynnyddol (AGB) yn crynhoi'r holl waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, fel Estyn, AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg. Caiff yr AGB ei lunio ym mis Ionawr/Chwefror 2014.

Adolygiad o ansawdd data

Adolygiad o ddetholiad o ddangosyddion a systemau perfformiad er mwyn sicrhau cywirdeb gwybodaeth am berfformiad. Mae'r adolygiad wedi cael ei gwblhau ac adroddir arno drwy adborth lleol ac yn Llythyr AG 2 ym mis Tachwedd 2013.

Astudiaeth wella - Diogelu

Mae'r astudiaeth hon yn cael ei chwmpasu a chynigir y bydd y gwaith yn canolbwyntio ar asesu cadernid trefniadau rheolaeth fewnol cynghorau er mwyn rhoi sicrwydd i'w hunain fod trefniadau diogelu yn gweithio'n effeithiol. Cynhelir yr astudiaeth yn y 22 o awdurdodau. Prif allbynnau'r astudiaeth fydd adroddiad cenedlaethol ar ganfyddiadau gwaith lleol ac adroddiad cryno ar gyfer pob cyngor sy'n cynnwys prif ganfyddiadau'r gwaith maes. Caiff briff prosiect sy'n amlinellu'r gwaith ei roi i bob cyngor erbyn dechrau mis Hydref 2013.

Astudiaeth Genedlaethol Llywodraeth Leol - Diwygio Lles

Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar baratoi i ymdrin ag effaith Deddf Diwygio Lles 2012. Mae'r astudiaeth hon yn cael ei chwmpasu a chynigir y bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae llywodraeth leol wedi cynllunio ar gyfer cyflwyno diwygiadau lles drwy olrhain y goblygiadau i dai cymdeithasol. Mae naw awdurdod ledled Cymru wedi cael eu nodi ond nid yw Ynys Môn yn un ohonynt, er y gall pob cyngor dderbyn ceisiadau am ddata gan dîm yr astudiaeth. Caiff briff prosiect sy'n amlinellu'r gwaith ei roi i bob cyngor ym mis Medi 2013.

Astudiaeth Genedlaethol Llywodraeth Leol - Cyflawni â llai - yr effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion

Mae'r astudiaeth gwasanaeth benodol hon yn cael ei chwmpasu ac mae briff prosiect drafft wedi cael ei lunio. Bydd y gwaith yn asesu effaith lleihau adnoddau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd er mwyn pennu pa mor dda y maent yn ymdopi â llai. Bwriedir i'r gwaith gael ei wneud yn y 22 o gynghorau yng Nghymru, ond ni fydd angen gwneud gwaith maes manwl gan fod y gwaith cyflenwi yn cael ei reoli a'i gydgysylltu'n ganolog. Caiff briff prosiect sy'n amlinellu'r gwaith ei roi i bob cyngor ym mis Medi 2013.

Effeithiolrwydd Craffu

Astudiaeth ar gyfer 2012-13 yw hon. Mae'r hunanasesiadau a'r gweithdai rhanbarthol wedi cael eu cwblhau a chyflwynwyd adroddiadau hunanasesu terfynol i gynghorau. Caiff adroddiad cenedlaethol ei ddrafftio a dylai gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2013. Ym mis Tachwedd, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal cynhadledd genedlaethol ar y cyd â Llywodraeth Cymru, CLILC, y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ac Ysgol Fusnes Caerdydd, Bydd y gynhadledd yn tynnu sylw at brif themâu'r astudiaeth.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Astudiaeth ar gyfer 2012-13 yw hon. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau ac mae crynodebau lleol terfynol wedi cael eu dosbarthu i gynghorau. Caiff adroddiad cenedlaethol ei ddrafftio a dylai gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2013. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gyda rhai partneriaid cyfeirio llywodraeth leol er mwyn datblygu adnodd ar-lein i helpu cynghorau i gynnal adolygiadau o drefniadau llywodraethu.

Astudiaeth Llywodraeth Leol - Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Astudiaeth ar gyfer 2012-13 yw hon. Mae'r astudiaeth yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol: **A oes gwersi i'w dysgu gan lywodraeth leol o ymdrechion i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant?** Mae gwaith maes y prosiect ymhell ar y blaen a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2013.

Cafodd wyth cyngor eu cynnwys yn y gwaith maes, heb gynnwys Ynys Môn.

O ran yr 11 o gynghorau lle na wnaed unrhyw waith maes, caiff llythyr yn eu gwahodd i'n hysbysu am arfer da, ynghyd â chrynodeb o'r data ymchwil cenedlaethol, ei anfon yn fuan.

Bydd canfyddiadau elfen llywodraeth leol yr astudiaeth hon yn bwydo i mewn i adroddiad cenedlaethol sy'n cwmpasu'r canfyddiadau o'r astudiaethau llywodraeth leol a gwerth am arian a bwriedir ei gyhoeddi ar ddechrau 2013.

Astudiaeth Llywodraeth Leol - Rheoli'r her ariannol

Mae'r gwaith maes dilynol wedi cael ei gwblhau ac mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio. Dylai'r adroddiad fod yn barod i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2013. Ni roddir adborth penodol i gynghorau unigol fel rhan o'r ymarfer hwn.

Gwaith sy'n benodol i Ynys Môn

Digartrefedd

Cafodd adolygiad o Ddigartrefedd ei gynnal cyn y Cyngor newydd. Cyflwynir y canfyddiadau yn Llythyr AG 1 a thrwy adborth lleol.

Adolygiad lleol

Adolygiad o effeithiolrwydd cydberthnasau rhwng cynghorwyr a rhwng cynghorwyr a swyddogion yn dilyn etholiadau 2013. Bwriedir cynnal y gwaith ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2013 ac adroddir arno drwy adborth lleol ac yn yr AGB.

This page is intentionally left blank



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebst: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Richard Parry Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Dyddiad 13 Medi 2013
Eich cyfeirnod 467A2013
Tudalennau 1 o 14

Annwyl Richard

Asesiad Gwella

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliannau;
- fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys:
 - cynnydd y Cyngor ar feysydd i wella arnynt ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
 - unrhyw faterion perthnasol a allai fod wedi codi ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ynghylch sut y mae'r Cyngor yn ymdrin â heriau ariannol; a
 - chrynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyflwynwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion; a
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy Asesiadau Gwella.

Byddaf yn diweddarau fy marn yn ystod y flwyddyn ac yn darparu llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

Nid wyf yn gallu datgan a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur am nad yw'r Cyngor hyd yma wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer y flwyddyn hon

Mae'r Cyngor wedi penderfynu gohirio cyhoeddi Cynllun Gwella'r flwyddyn hon tan fis Hydref 2013. Y rheswm dros yr oedi hwn yw er mwyn rhoi digon o amser i'r aelodau sydd newydd eu hethol adolygu Amcanion Gwella presennol y Cyngor a chysoni'r rhain â'r rhaglen wella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. Yn ogystal, mae ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos, sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd, o'r enw *Gwneud gwahaniaeth*, a ddechreuodd ym mis Awst ac a fydd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Gwella. Credaf fod dull gweithredu'r Cyngor yn rhesymol ac yn ymarferol a bydd yn rhoi'r amser angenrheidiol i'r Cyngor ymgysylltu â'r Cynllun Gwella a Chynllun Corfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2013-17, a chymryd perchnogaeth ohonynt. Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar fy archwiliad o'r Cynllun Gwella erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa well i gyflawni gwelliannau cynaliadwy tymor hwy ac mae'r cynnydd a wnaethpwyd ganddo eisoes wedi arwain at ddirwyn ymyrraeth Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mai 2013;
- ategir rhaglen wella uchelgeisiol y Cyngor gan fframwaith rheoli rhaglen priodol ac mae'n adlewyrchu ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn;
- er gwaethaf heriau sylweddol a pharhaus, mae'r Cyngor yn rheoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol;
- gwelwyd gwelliant mewn nifer o wasanaethau allweddol, ond ceir gwendidau mewn rhai meysydd y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy o hyd;
- mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud;
- ymgysylltodd y Cyngor yn dda â chynghorau eraill yn y gogledd a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Wella ddiweddar ar effeithiolrwydd trefniadau craffu; a
- gwnaethpwyd cynnydd cyson o ran gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol.

Mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa well i gyflawni gwelliannau cynaliadwy tymor hwy ac mae'r cynnydd a wnaethpwyd ganddo eisoes wedi arwain at ddirwyn ymyrraeth Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mai 2013

Fel y nodais yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mawrth 2013, cafodd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ei lleihau ym mis Hydref 2012, gyda phwerau penderfynu'n cael eu dychwelyd i Arweinydd y Cyngor a'i Bwyllgor Gweithredol. Fodd bynnag, er mwyn diogelu'r gwelliannau roedd y Cyngor wedi'u cyflawni, rhoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd gyfarwyddyd y dylid cadw tri o'r pum Comisiynydd tan 31 Mai 2013. Byddai'r Comisiynwyr hyn yn monitro cynnydd ac yn cyflwyno adroddiadau i Weinidogion ar hyn ac yn cynnig arweiniad, mentora a chymorth parhaus i'r Cyngor a'i swyddogion. Yn ogystal, cadwodd y Comisiynwyr y pŵer i gadarnhau neu wyrdroi unrhyw un o benderfyniadau'r Cyngor a fyddai'n mynd yn groes i gyngor swyddogion statudol. Gelwid y cyfnod hwn yn gyfnod 'gwella a chynaliadwyedd' yr ymyrraeth.

Gyda chymorth y Comisiynwyr ac ymgynghoriaeth allanol, datblygodd a mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Trawsnewid (y Cynllun) yn sail i'w waith datblygu a gwella strategol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella ac mae'n ymgorffori 10 thema rheolaeth gorfforaethol y Comisiynwyr o dan fframwaith rheoli rhaglen, y byddaf yn cyfeirio ato yn ddiweddarach yn y llythyr hwn.

Yn ystod cam 'gwella a chynaliadwyedd' yr ymyrraeth, gwnaeth y Cyngor ragor o gynnydd. Yn benodol:

- ailgydiodd y Weithrediaeth yn rheolaeth ddemocrataidd y Cyngor mewn ffordd aeddfed ac ystyriol gan barhau i weithio gyda'r Comisiynwyr ac eraill yn eu dymuniad i sicrhau gwelliant hirdymor;
- gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran sefydlu cynlluniau trawsnewid ac o ran cadernid y trefniadau sydd ar waith i'w cyflawni;
- cytunodd y Cyngor ar gyllideb heriol ar gyfer 2013-14 a chryfhaodd ei gyfansoddiad;
- gwnaethpwyd gwaith cynllunio gofalus cyn etholiad Mai 2013, gan gynnwys cytuno ar strwythur Pwyllgorau diwygiedig i alluogi'r Cyngor newydd trideg aelod i gyflawni ei ddyletswyddau;
- gwelwyd gwelliant mewn gwasanaethau megis tai, addysg a gofal cymdeithasol i blant;
- cwblhaodd y Cyngor ei hunanasesiad cyntaf a roddodd werthusiad teg a chytbwys o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gynnal gwelliant; a
- chwblhaodd y Cyngor ei gylch 180 diwrnod cyntaf o'r rhaglen drawsnewid.

Amlygodd seithfed adroddiad cynnydd y Comisiynwyr ym mis Ebrill 2013 gynnydd y Cyngor a barn gadarnhaol y Comisiynwyr ar allu'r Cyngor i gyflawni gwelliannau tymor hwy, cynaliadwy heb yr angen am ymyrraeth allanol barhaus.

Cyn yr etholiad ym mis Mai, gweithiodd y Cyngor yn dda gyda'r Comisiwn Etholiadol, gan hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Ymladdodd 106 o ymgeiswyr am seddi mewn un ar ddeg o wardiau aml-aelod newydd, gan ddangos y cynnydd yn y diddordeb a'r parodrwydd ymhlith dinasyddion Ynys Môn i chwarae rhan yn nyfodol y Cyngor. Newidiodd yr aelodau newydd gyfansoddiad y Cyngor, gan leihau'r proffil oedran, gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ryw ychydig a chyflwyno ystod fwy amrywiol o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau. Teimlaf fod y ffactorau hyn yn dangos llwyddiant sylweddol y Cyngor o ran mynd i'r afael ag adnewyddu democrataidd yn dilyn yr argymhelliad yn fy Adroddiad Arolygu Arbennig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011.

Yn dilyn yr etholiad, mae'r cynghorwyr wedi parhau i ddangos y ddisgyblaeth grŵp yr oedd y Comisiynwyr wedi'i chefnogi a'i datblygu'n flaenorol. Arweiniodd y ddisgyblaeth grŵp hon at sefydlu'n drefnus glymblaid reoli ac yn dilyn hynny penodwyd Arweinydd a Chabinet newydd. Roedd y Cyngor wedi disgwyl y gallai rhai cynghorwyr newydd fod yn llai profiadol ac felly lluniwyd rhaglen gynefino wedi'i chynllunio i adlewyrchu anghenion datblygu a hyfforddi aelodau unigol. Darparwyd cyfres o sesiynau briffio i gynorthwyo aelodau newydd gyda rhaglen drawsnewid y Cyngor a'u rôl bwysig ynddi.

Mae'r Cyngor wedi cael ymrwymiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddarparu mentoriaeth i'r Arweinydd newydd a chymharol ddibrofiad, yn ogystal â mathau eraill o gymorth, wrth i'r Cyngor newydd barhau i ddatblygu. Bydd cryfder yr Uwch Dîm Arwain, cynnydd yn y capsiti i reoli a fframwaith cyfansoddiadol cadarnach yn helpu'r Cyngor i atal unrhyw broblemau posibl a all godi a, lle bo angen, ymateb iddynt.

Ar 10 Mai 2013, ysgrifennodd y Comisiynwyr at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (y Gweinidog), gan argymhell y dylai ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru ym musnes Cyngor Sir Ynys Môn ddod i ben pan fyddai'r Cyfarwyddyd Gweinidogol yn dod i ben ar 31 Mai 2013. Ar 13 Mai 2013, ysgrifennais at y Gweinidog yn cydnabod cynnydd y Cyngor a nodais nad oeddwn yn gweld unrhyw ddiben pellach mewn parhau â'r ymyrraeth. Ar 23 Mai 2013, cyhoeddodd y Gweinidog yn ffurfiol y byddai'r ymyrraeth yn dod i ben.

Ategir rhaglen wella uchelgeisiol y Cyngor gan fframwaith rheoli rhaglen priodol ac mae'n adlewyrchu ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn

Gyda chymorth y Comisiynwyr ac ymgynghoriaeth allanol, datblygodd y Cyngor Gynllun Trawsnewid cynhwysfawr, a chytuno arno, yn sail i'w waith datblygu a gwella strategol dros y tair blynedd nesaf. Mae'n rhaglen uchelgeisiol, yn seiliedig ar chwe thema gwella a ffrydiau gwaith sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion corfforaethol y Cyngor a themâu llywodraethu'r Comisiynwyr.

Gydag unrhyw gynllun ar raddfa fawr, mae angen trefniadau cadarn i reoli a gweithredu newid. Mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith rheoli rhaglen sy'n cynnwys tri Bwrdd Rhaglen i helpu i gyflawni'r Cynllun. Mae pob Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am themâu penodol a ffrydiau gwaith sy'n ymwneud ag:

- Ynys Fenter;
- Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth;
- Trawsnewid Busnes.

Nodau'r tri Bwrdd Rhaglen yw goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun a sicrhau bod rhaglenni newid a phrosiectau unigol yn cael eu rheoli, eu cyflawni a'u monitro. Mae'r Byrddau'n cynnwys uwch swyddogion a chynghorwyr, ac felly rhoddir arweinyddiaeth ynghylch y daith drawsnewid a chaiff ei chydgyssylltu. Mae'r Byrddau'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd ac mae ganddynt yr awdurdod i gyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Weithrediaeth a'r Uwch Dîm Arwain. Mae gan aelodau'r Bwrdd y statws angenrheidiol yn y Cyngor i allu dylanwadu ar benderfyniadau'r Weithrediaeth a sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gweithredu wedi hynny.

Yn fy marn i mae sefydlu'r fframwaith rheoli rhaglen a'r Byrddau Rhaglen ar sail gadarn ac mae ganddynt y potensial i resymoli a chryfhau cydweithio rhwng aelodau/swyddogion wrth fonitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn erbyn y Cynllun Trawsnewid a'r amcanion gwella. Mae ganddo hefyd y potensial i wella capasiti a gallu'r Cyngor i gyflawni'r Cynllun.

Mae'r Cynllun Trawsnewid yn amlygu'r angen i ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd i gynorthwyo gwelliant tymor hir a moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Cyfeiriais yn gynharach at y ffaith bod y Cyngor wedi gohirio cyhoeddi Cynllun Gwella'r flwyddyn hon i roi digon o amser i'r aelodau newydd eu hethol i adolygu Amcanion Gwella presennol y Cyngor a chysoni'r rhain â'r rhaglen wella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. I sicrhau bod barn dinasyddion a rhanddeiliaid Ynys Môn yn helpu i lunio blaenoriaethau a'r rhaglen wella, mae'r Cyngor wedi datblygu'r amcan canlynol:

Llunio a gweithredu proses ymgynghori gynhwysfawr, hyblyg a gwirioneddol, gan sicrhau bod opsiynau'n cael eu datblygu mewn ffordd agored, dryloyw a chadarn a bod gan bob cymuned fusnes a chydranddeiliad ar ein hynys gyfle i gyfrannu.

I helpu i gyflawni'r amcan, ym mis Awst 2013 lansiodd yr Arweinydd ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos o'r enw *Gwneud Gwahaniaeth*. Mae'r Cyngor yn gofyn am farn y cyhoedd drwy:

- arolwg ar-lein ar ei wefan a'i safleoedd cyfryngau cymdeithasol;
- cynghorau cymuned;
- sefydliadau partner lleol;
- digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd; a
- chardiau post sydd ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun cyfathrebu a'r cyfryngau i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r ynys gan gynnwys defnyddio'r wasg a'r radio lleol, posterï mewn lleoliadau sector preifat gan gynnwys archfarchnadoedd, siopau lleol, meddygfeydd a deintyddfeydd. Rydym hefyd wedi gweld bod y Cyngor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol, gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddinasyddion a'r rhai sy'n ymweld â'r ynys a hefyd hyrwyddo'r ymgynghoriad presennol drwy'r cyfrwng hwn.

Yn fy marn i mae'r trefniadau hyn yn dangos dull mwy aeddfed ac ystyriol o ymgynghori na'r hyn a welwyd yn y gorffennol, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl leol a galluogi dinasyddion i ddylanwadu ar gynlluniau'r Cyngor.

Er gwaethaf heriau sylweddol a pharhaus, mae'r Cyngor yn rheoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol

Nodais yn flaenorol fod *Datganiad Cyfrifon* drafft y Cyngor wedi'i gwblhau'n unol â'r holl amserlenni statudol am y tro cyntaf ers tair blynedd. Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â pharatoi'r datganiad cyfrifon a lluniodd ei gyfrifon drafft ar gyfer 2012-13 ar 28 Mehefin 2013, yn unol â'r terfynau amser i baratoi'r cyfrifon.

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol tymor-canol sydd wedi'u sefydlu'n dda ac sy'n cynnwys ymgynghori helaeth a chryn her. Mae'r strategaeth cyllideb referniw tymor canol ddiweddaraf ar gyfer 2014-2017 yn dangos bylchau ariannu o £3.1 miliwn yn 2014-15, £4.0 miliwn yn 2015-16 a £4.25 miliwn yn 2016-17. Pennwyd cyllideb y Cyngor ochr yn ochr â'r cynllun corfforaethol a blaenoriaethau gwella, ac mae'n cynnwys nid yn unig arbedion ond hefyd buddsoddiad mewn meysydd blaenoriaeth megis y fenter *Ynys Ynni*. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod maint yr her ariannol yn golygu y bydd angen i rai gwasanaethau gael eu darparu'n wahanol.

Mae'r Weithrediaeth wedi nodi Addysg, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Hamdden a Llyfrgelloedd fel gwasanaethau i'w hailgynllunio a'u had-drefnu yn ystod 2013-14 er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Disgwylir i'r buddsoddiad diweddar mewn systemau newydd a'r defnydd gwell o dechnoleg sicrhau arbedion yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol ond, wrth i'r sefyllfa ariannol fynd yn fwy difrifol, daw'n anos diogelu mathau a lefelau presennol yr holl wasanaethau a

ddarperir i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn datblygu ei gynigion manwl i reoli ei sefyllfa ariannol.

Gwelwyd gwelliant mewn nifer o wasanaethau allweddol, ond ceir gwendidau mewn rhai meysydd y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy o hyd

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol, adroddais ar gynnydd y Cyngor o ran ymateb i'r meysydd ar gyfer datblygu a nodwyd gan AGGCC yn 2012, yn enwedig mewn perthynas â Gwasanaethau Plant. Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei arweiniad, cynyddu ei staff a chyflwyno arbenigedd ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon. Gwnaethpwyd ymdrechion sylweddol i wella perfformiad a rheoli ansawdd hefyd. Mae'r cynnydd yn parhau i fod yn foddhaol, gyda'r Cyngor yn symud o fod yn awdurdod sy'n perfformio'n wael i awdurdod sy'n perfformio'n dda yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad.

Cyfeiriais hefyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol at yr arolygiad ym mis Mai 2012 gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru o Wasanaethau Addysg y Cyngor i Blant a Phobl Ifanc. Canfu'r arolygiad fod y gwasanaethau'n anfoddhaol a bod eu gallu i wella yn anfoddhaol. Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'r adroddiad ac wedi hynny penodwyd Bwrdd Adfer gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ddarparu cymorth a her allanol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Adfer wedi adolygu gwybodaeth strategol a gweithredol fanwl ac wedi cael adroddiadau cynnydd rheolaidd. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw'r Bwrdd Adfer wedi cyflwyno adroddiad cyhoeddus ar ei ganfyddiadau i'r Gweinidog nac i'r Cyngor. Bydd Estyn yn parhau i adolygu cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn ystod 2013-2014.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mawrth 2013, nodais fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gwybodaeth yn cyfyngu ar ei allu i wella. Yn benodol, roedd gwendidau o ran diogelwch data a rheoli gwybodaeth. Roedd gwendidau tebyg wedi'u nodi'n flaenorol mewn amrywiaeth o adroddiadau'n dyddio o fis Mai 2011, gan gynnwys adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar Reoli Cofnodion Modern, Diogelwch Data a Pharhad Busnes, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012.

Yn dilyn achosion o dorri Deddf Diogelu Data 1998, cytunodd y Cyngor i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gynnal archwiliad cydsyniol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer prosesu data personol. Cynhaliodd archwilwyr y Comisiynydd Gwybodaeth waith maes ym mis Gorffennaf 2013 a disgwylir i'w hadroddiad gadarnhau ac ychwanegu at yr argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiadau rheoleiddio blaenorol.

Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cytuno i gynnal prosiect ar lywodraethu gwybodaeth sy'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

- rheoli gwybodaeth – Archwiliad TGCh a diogelwch; rheoli cofnodion a hyfforddiant ar bolisi diogelwch gwybodaeth y Cyngor;
- adolygu trefniadau i gael gwared ar wastraff cyfrinachol;

- adolygu mynediad i brif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni; a
- sut mae ysgolion yn ymdrin â gwybodaeth.

Byddwn yn asesu cynnydd y prosiect hwn drwy gydol y flwyddyn hon a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn 2014.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mawrth 2013, adroddais fod gwasanaethau tai yn gwella ar y cyfan, bod y Cyngor wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed a bod y trefniadau ar gyfer atgyweiriadau ymatebol i dai yn gwella. Ym mis Rhagfyr 2012, cynhaliwyd adolygiad o wasanaeth digartrefedd Ynys Môn. Daethom i'r casgliad:

- fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd yn 2012-13 o ran y trefniadau i ddarparu gwasanaeth digartrefedd effeithiol; a
- bod y Cyngor wedi nodi meysydd i'w gwella yn ei drefniadau i ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth digartrefedd.

Ailfodelodd y Cyngor y gwasanaeth digartrefedd a chyngor ar dai, gan greu Tîm Opsiynau Tai. Mae adnoddau staff ychwanegol wedi'u darparu i atal digartrefedd a hwyluso defnydd mwy effeithiol o eiddo'r sector preifat i'r rhai sy'n gofyn am gymorth tai. Er bod gan y Cyngor gynllun cyfranogiad tenantiaid gweithgar a fforwm digartrefedd, mae'n anodd dangos gwerth yr ymgysylltu. Roeddem wedi rhoi adborth manylach i'r Cyngor ar wahân.

Bydd y Cyngor yn adolygu ei strategaeth digartrefedd yn 2013 ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ein hadolygiad.

Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud

Rhaid i bob awdurdod lleol baratoi datganiad llywodraethu blynyddol er mwyn cyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar i ba raddau y mae wedi cydymffurfio â'i god llywodraethu ei hun. Dylai'r broses gynnwys gwerthusiad o sut mae'r awdurdod wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraeth yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac ar unrhyw newidiadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

Rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Mawrth 2013, gwerthuswyd effeithiolrwydd adolygiadau awdurdodau lleol o lywodraethu yn 2011-12 ledled Cymru. Wrth wneud hynny, ceisiwyd nodi sut y gellir gwella datganiadau llywodraethu blynyddol i roi sicrwydd eu bod yn ddulliau hunanwerthuso dibynadwy.

Canfu ein hadolygiad o'r Cyngor drefniadau llywodraethu'n seiliedig ar egwyddorion cadarn ac sy'n rhoi lefel resymol o sicrwydd. Fodd bynnag, mae lle i ehangu ar y trefniadau i roi mwy o sicrwydd ar weledigaeth y Cyngor a chanlyniadau i'r cyhoedd. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith hwn i Gymru gyfan yn ddiweddarach yn 2013.

Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'n hadolygiad ac mae wedi bod yn agored i ddysgu fel y dangoswyd gan y gwelliannau a wnaethpwyd i'r trefniadau ar gyfer drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012-13. Yn ogystal, nododd y Cyngor ffyrdd eraill o wella ei drefniadau yn y dyfodol, megis:

- cysoni'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol â'r Hunanasesiad Corfforaethol, y Cynllun Trawsnewid a'r Gofrestr Risgiau;
- defnyddio'r Grŵp Adolygu Perfformiad i sicrhau bod materion cynllunio corfforaethol a pherfformiad yn cyfrannu'n gryfach nag o'r blaen at lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- datblygu cynllun gweithredu i roi'r diweddaraf ar y cynnydd a wnaethpwyd a lleihau'r risgiau a'r wybodaeth sydd wedi dyddio sy'n aros yn ei fframwaith llywodraethu;
- ystyried ymagwedd awdurdodau eraill a chanddynt arferion da cydnabyddedig; a
- chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lywodraethu a lleihau'r canfyddiad bod llywodraethu'n ymwneud â materion ariannol yn bennaf.

Ymgysylltodd y Cyngor yn dda â chynghorau eraill yn y gogledd a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Wella ddiweddar ar effeithiolrwydd trefniadau craffu

Yn ystod hydref 2012 a gwanwyn 2013, cymerodd y Cyngor ran weithgar yn ein Hastudiaeth Wella Cymru gyfan o effeithiolrwydd trefniadau craffu cynghorau. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2013 ac yn cynnal digwyddiad cyd-ddysgu ym mis Tachwedd 2013.

Yn ystod yr astudiaeth, gwnaeth Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid y Cyngor, gan gynnwys cynghorwyr a swyddogion, y canlynol:

- cymryd rhan mewn dau weithdy rhanbarthol gyda thimau cyfnewid dysgu cymheiriaid o gynghorau eraill yn y gogledd;
- arsylwi ar ddau gyfarfod pwyllgor craffu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan roi adborth i aelodau'r pwyllgor;
- trafod y ffordd mae craffu'n gweithio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda grŵp o gadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau; a
- thrwy ddefnyddio'i drafodaethau a'i arsylwadau, rhoi safbwynt allanol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy werthuso ei swyddogaeth graffu yn erbyn meini prawf a ddatblygwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith y Swyddogion Craffu.

Gwnaeth Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid o Gyngor Gwynedd waith tebyg yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Cyn ymgymryd â'r gweithgareddau a nodwyd uchod, roedd y Cyngor wedi gwerthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu ei hun yn erbyn y meini prawf. Ar ôl i'r Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid ymweld â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chael gwerthusiad Cyngor Gwynedd, ail-werthusodd y Cyngor ansawdd ei drefniadau craffu ei hun, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddo. Rydym wedi rhoi dadansoddiad i'r Cyngor o'i ddau hunanwerthusiad, a sut maent yn cymharu â'r rhai mewn cynghorau eraill ledled Cymru. Rydym yn cydnabod bod trefniadau craffu'r Cyngor o reidrwydd wedi newid yn dilyn

etholiadau mis Mai, ac nad ydynt bellach yn adlewyrchu'r model a oedd ar waith pan gwblhaodd y Cyngor ei hunanwerthusiadau. Serch hynny, rhagwelwn y bydd y Cyngor yn ystyried y dadansoddiad o'i hunanwerthusiadau ac yn penderfynu a oes angen iddo wneud rhagor o newidiadau i'w drefniadau craffu.

Gwnaethpwyd cynnydd cyson o ran gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol

Rwyf wedi adrodd ar nifer o gynigion ar gyfer gwella yn y gorffennol. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn yn Atodiad 1. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn rhai o'r meysydd hyn yn y llythyr hwn a/neu ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni chyflwynir cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Cyhoeddi'r llythyr

Caiff fy llythyr ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl iddo fynd drwy broses ddemocrataidd y Cyngor neu o fewn deufis i'w gyhoeddi, pa un bynnag sydd gyntaf.

Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesu Gwella yn rhoi'r diweddaraf i'r Cyngor ar y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad y flwyddyn hon ac, yn benodol, sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd gan y Cyngor a'r Swyddfa Archwilio.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad ag awdurdodau gwella ynglŷn â'm cynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2013-14.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau mwy effeithiol ac effeithlon byth yn datblygu dros amser. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu sicrwydd priodol i'r cyhoedd yn ogystal â'ch

cynorthwyo i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a'r newid o ganlyniad i hyn.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

copi: Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Andy Bruce – Arweinydd Archwilio Perfformiad

Atodiad 1

Cynigion ar gyfer gwella	Cynnydd
<p>P1. Dylai'r Cyngor wneud trefniadau sy'n galluogi'r Prif Weithredwr i ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arwain a datblygu'r Uwch Grŵp Arwain; • rheoli aelodau unigol o'r Uwch Grŵp Arwain, a'u dwyn i gyfrif am gyflawni agweddau penodol ar agenda'r Cyngor ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu; a • chynrychioli'r Cyngor yn allanol. 	<p>Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gwblhau. Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arwain ac mae'r trefniadau newydd yn caniatáu i'r Prif Weithredwr ymgysylltu'n fwy o ran datblygu arweinyddiaeth a chydweithio rhanbarthol. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r cyfraniadau a wnaethpwyd gan y Prif Weithredwr i'r broses gynllunio cyn yr etholiad; ac ymateb y Cyngor i gais y Gweinidog bod Ynys Môn yn cymryd rhan flaenllaw o ran mynd i'r afael â masnachu pobl a gwaith gydag asiantaethau traws-sector ledled y gogledd.</p>
<p>P2. Dylai'r Cyngor ddatblygu rôl ei reolwyr canol fel eu bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyda'i gilydd, yn rhoi adborth i uwch reolwyr am weithredu newid; ac • yn unigol a chyda'i gilydd, yn atebol am gyflawni newid yn y gwasanaethau y maent yn eu rheoli. 	<p>Gwnaethpwyd cynnydd da ac mae'r argymhelliad hwn wedi'i gwblhau'n rhannol. Mae Penaethiaid Gwasanaethau'n cyflwyno Cynlluniau Darparu Gwasanaethau i'w huwch reolwyr. Fodd bynnag, mae model gweithredol newydd y Cyngor yn ailstrwythuro rheolwyr canol a dylai hyn gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2013. Yn sgil yr ad-drefnu cyflwynir rolau diwygiedig gan roi mwy o atebolrwydd i Benaethiaid Gwasanaethau. Mae'r Cynllun Trawsnewid yn gwneud Penaethiaid Gwasanaethau'n gyfrifol am raglenni newid a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â risgiau, cyfleoedd ac yn ymateb i alw allanol. Caiff y cynllun trawsnewid ei oruchwylio gan y tri Bwrdd Rheoli Prosiectau.</p> <p>Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael diweddariadau ar risg a chynnydd.</p> <p>Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd wrth i'r trefniadau fwrw gwreiddiau.</p>

Cynigion ar gyfer gwella	Cynnydd
<p>P3. Dylai'r Cyngor sicrhau digon o allu ac adnoddau yn ei wasanaethau cyllid, adnoddau dynol a TGCh i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyflawni'r swyddogaethau corfforaethol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â phob un o'r gwasanaethau hyn i safonau gofynnol; a • darparu cymorth i wasanaethau eraill y Cyngor yn unol â safonau y cytunwyd arnynt. 	<p>Mae'r cyngor yn gwneud peth cynnydd i gynyddu ei gapasiti a'i allu o ran gwasanaethau TGCh, Adnoddau Dynol a Chyllid. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Daeth cyfriflyfr ariannol newydd yn weithredol ym mis Ebrill 2013. Mae'r system yn gwella'r wybodaeth ariannol at ddibenion rheoli a monitro. • Mae'r strwythur staffio yn yr adran Gyllid wedi newid i ddarparu mwy o gapasiti i gynorthwyo gwasanaethau yn ogystal â darparu'r gwasanaethau cyllid corfforaethol gofynnol. I gynorthwyo capasiti ymhellach, mae'r Cyngor wedi penodi Pennaeth Adnoddau, Pennaeth TGCh, ac wedi recriwtio Rheolwr Rhaglen i gydlynu'r gwaith o wella gwasanaethau. • Mae gwaith i'w wneud o hyd i gryfhau capasiti corfforaethol, yn enwedig o ran TGCh, caffael, rheoli asedau a gwybodaeth. Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd wrth i'r Cyngor symud ymlaen i gam nesaf ei ddatblygiad.
<p>P4. Dylai'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyda'i gilydd, nodi ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 mewn ffordd sy'n ei alluogi i benderfynu ac adrodd a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio; a • defnyddio'i ddadansoddiad o berfformiad 2011-12 i ddysgu o'r hyn sydd wedi mynd yn dda a phenderfynu ar ba gamau mae angen iddo eu cymryd i wella a chyflwyno adroddiad ar hyn. 	<p>Yn sgil yr etholiad ym mis Mai 2013, mae Blaenoriaethau Gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 yn cael eu datblygu a chânt eu cyhoeddi ym mis Hydref 2013. Mae'r broses yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus mawr ac mae'n rhan o'i gynllun trawsnewid. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth i nodi cryfderau a gwendidau perfformiad a mesur cynnydd yn well yn erbyn y targedau gwasanaeth a chorfforaethol.</p> <p>Datblygwyd Grŵp Adolygu Perfformiad i gynorthwyo a llywio'r broses o reoli perfformiad ar draws gwasanaethau.</p> <p>Mae'r cyngor yn gwneud defnydd gwell o'i ddadansoddiad o berfformiad, ac mae'r broses hunanasesu ddiweddar yn dangos dealltwriaeth gliriach o ffactorau llwyddiant a bylchau a gyfrannodd at berfformiad gwaeth. Byddwn yn adolygu'r cynnydd ym mis Hydref 2013, pan fydd cynlluniau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno.</p>
<p>P5. Dylai'r Cyngor hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws gwasanaethau o ran ansawdd hunanwerthuso.</p>	<p>Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'r argymhelliad fel y dangoswyd gan y gwelliannau a wnaeth i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn hon a'r hunanasesiad diweddaraf ym mis Ebrill 2013. Disgwylir adroddiad perfformiad y Cyngor ym mis Hydref 2013 a byddwn yn adolygu cynnydd yr adeg honno.</p>

Cynigion ar gyfer gwella	Cynnydd
P6. Dylai'r Cyngor sicrhau rheolaeth olygyddol gryfach o ran ei adroddiad perfformiad er mwyn gwella pa mor ddarllenadwy ydynt a dileu gwallau teipograffyddol.	Mae'r Cyngor wedi ymateb yn adeiladol ac mae'n sicrhau rheolaeth olygyddol gryfach o ran dogfennau'r Cyngor. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru gynnis sylwadau adeiladol ar fersiynau drafft. Byddwn yn adolygu cynnydd ym mis Hydref 2013, pan fydd cynlluniau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	24 MEDI 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	RHEOLI RISG AC YSWIRIANT
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)
GWEITHREDIAD:	ER GWYBODAETH YN UNIG

1. CYFLWYNIAD

1.1 Fe gyweradwywyd y Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor a'r Canllawiau Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref, 2012.

1.2 Mae'r dogfennau hyn yn datgan y dylai'r Pwyllgor Archwilio : -

- Adolygu effeithiolrwydd y fframwaith rheolaeth fewnol a rheoli risg.
- Adolygu a herio'r Gofrestr Risg Corfforaethol a chynlluniau gweithredu dilynol ar gyfer y risgiau corfforaethol uchaf.

1.3 Mae'r dogfennau hyn hefyd yn gosod cyfrifoldebau tebyg ar y Pwyllgorau Gwaith a Sgriwtini, a rolau a chyfrifoldebau penodol ar swyddogion unigol a grwpiau o swyddogion.

1.4 Mae'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini wedi mynegi eu dymuniad i dderbyn crynodeb a / neu adroddiadau eithriad yn hytrach na'r gofrestr risg cyfan.

2. GWEITHREDU'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG

2.1 Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, bu newidiadau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac i'r strwythur rheoli. Mae'r newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y prosesau adrodd ar gyfer rheoli risg.

2.2 Mae'r Strategaeth Rheoli Risg a Chanllawiau Rheoli Risg wrthi'n cael eu hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Bydd y dogfennau wedi eu hadolygwyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo maes o law ac wedi hynny i'r Pwyllgor Archwilio.

2.3 Mae adolygu'r strategaeth hefyd yn rhoi cyfle i newid yr hyn sy'n cael ei adrodd ar risg i'r Aelodau. Cynigir mai dim ond y prif risgiau ac unrhyw newidiadau sylweddol i risgiau corfforaethol eraill fydd yn cael eu hadrodd i'r Aelodau, ynghyd â'r cynnydd ar unrhyw gamau i liniaru'r risgiau hynny . Mae sampl o'r adroddiad arfaethedig, yn dangos y sefyllfa fel y mae ar ddiwedd chwarter 1, yn cael ei gynnwys fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

- 2.4** Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn parhau i gefnogi Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth, er bod y cynnydd ar hyn wedi cael ei effeithio gan yr Adolygiad Penaethiaid Gwasanaeth.

3. COFRESTR RISGIAU CORFFORAETHOL

- 3.1** Gan fod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob chwarter nid oes diweddariad i'r hyn a adroddwyd i chi ar y 23 Gorffennaf, 2013 .

- 3.2** Mae risgiau uchaf y Cyngor felly yn parhau i fod fel a ganlyn:-

YM8 Methu â chynllunio ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn cyllideb o 2015/2016

YM33 Methu â darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir

YM31 Risg o beidio cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data

YM36 Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd.

4. HAWLIADAU YSWIRIANT

- 4.1** Bu profiad hawliadau y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2013 ei adrodd ar ym mis Gorffennaf 2013, a nodwyd bryd hynny bod cynnydd sylweddol yn y nifer o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus sydd wedi eu cyflwyno i'r Cyngor, yn bennaf am ddifrod i gerbydau oherwydd cyflwr ffyrdd y Cyngor.

- 4.2** Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2013 i 30 Mehefin 2013 mae 40 o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus pellach wedi cael eu cyflwyno, 34 ohonynt yn ymwneud â Priffyrdd, gan barhau y duedd o 2012/2013. Mae'n dal yn rhy gynnar i wneud sylwadau ar effeithiau ariannol y cynnydd yn y nifer o hawliadau.

5. TELERAU ADNEWYDDU YSWIRIANT

- 5.1** Bu'r Cyngor tendro ei bolisiau yswiriant yn ystod 2012 a ddaeth i gytundeb tymor 3 blynedd gyda Zurich Municipal (gyda'r opsiwn o ymestyn am 2 flynedd ychwanegol).

- 5.2** Mae Zurich Municipal wedi nodi, o ganlyniad i ddirywiad canfyddedig yn y profiad hawliadau cyhoeddus, efallai y bydd angen i gynyddu'r gyfradd premiwm ar gyfer y polisi hwnnw. Nid ydynt wedi nodi eu bod yn bwriadu cynyddu'r unrhyw cyfraddau premiwm arall. Mae trafodaethau mewn perthynas â'r telerau adnewyddu ar y gweill, ond dylid gael eu cytuno cyn y dyddiad adnewyddu ar y 1 Hydref, 2013.

6. ARGYMHELLION

- 6.1** Gofynnir i'r Pwyllgor gadarnhau os yw'r cynigion mewn perthynas ag adrodd ar risg yn dderbyniol ac i nodi'r sefyllfa mewn perthynas â hawliadau yswiriant a thelerau adnewyddu.

COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cyfeirnod Risg	Risg Adnabuwyd	Sgôr Risg Cyfredol	Tuedd Sgôr Risg	Gweithrediad	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed	Sylwadau
YM8	Methu â chynllunio am ostyngiad sylweddol mewn cyllid o 2015/2016	25	↔	Darparu Cynllun Cyllidol Tymor Canolig a'i ddiwygio'n chwarterol.	Clare Williams	Hydref 2013	
				Adnabod pwysau demograffig.	Clare Williams	Hydref 2013	
				Monitro gostyngiadau mewn grantiau a datblygu strategaethau ymadael â'r grantiau.	Clare Williams	Hydref 2013	
				Adolygu'r broses o bennu'r gyllideb.	Clare Williams	Hydref 2013	
				Darparu a gweithredu Strategaeth Effeithlonrwydd.			
YM33	Methu â darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir	20	↔	Adolygu'r broses o bennu'r gyllideb.	Clare Williams	Hydref 2013	
				Gweiddio'r sytemau ariannol newydd (lejer, ayb).	Richard LI Jones		
				Sefydlu proses newydd ar gyfer adrodd ariannol.	Clare Williams	Mehefin 2013	
				Sefydlu proses newydd ar gyfer adrodd ariannol.	Clare Williams	Medi 2013	
				Adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.			
Tudalen 155	Risg o beidio gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Gwarchod Data	20	↔	Gweithredu a gweiddio rôl y SIRO.	Huw Pritchard		Apwyntio'r Swyddog Monitro fel SIRO.
				Gweithredu'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth (wrth gymryd i ystyriaeth canfyddiadau archwiliad yr ICO).	Huw Pritchard		Derbynir yr adroddiad terfynol gan y Cyngor ar 16 Medi 2013. Darperir cynllun gweithredu ar gyfer ei gylawni ar hyn o bryd. Bydd y Bwrdd Rhaglen Llywodraethu Gwybodaeth yn cwrrd ar 18 Medi 2013 i gytuno'r Mandad.
YM36	Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd	16	↔	Sefydlu Bwrdd Prosiect i ddatblygu a gweithredu trawsnewid a chynllun moderneiddio ar gyfer y gwasanaeth.	Anwen Davies	Medi 2016	Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen i danseilio trawsnewid o wasanaethau pobl hyn a nodwyd 5 blaenoriaeth allweddol – . Anghenion preswyl . Ail-alluogi . Dementia . Broceriaeth . Atodlen o gyfraddau.
				Gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd mewn ardaloedd penodol i sicrhau bod effeithiau yn cael eu cyfyngu.	Anwen Davies	Medi 2016	Cyrrhaeddwyd at gytundeb amlinellol â'r Bwrdd Iechyd ynglyn â llywodraethu ar y cyd o'n gwasanaethau yn yr ardal. Datblygir hyn yn awr a'l fabwysiadu gan yr Awdurdod Leol a'r Bwrdd Iechyd.
				Cynnal astudiaeth i sefydlu anghenion tymor hir posib y boblogaeth a chost darparu gwasanaeth.	Anwen Davies / Clare Williams	Mawrth 2014	Comisiynwyd asesiad anghenion ynglyn â gwasanaethau pobl hyn ar yr Ynys i'r dyfodol a disgwylir i'w gwblhau erbyn Tachwedd, 2013.
YM2	Methu â chynnal y gwelliannau wnaed yn nhermau Llywodraethu	15	↔	Darparu cynefino a sesiynau briffio manwl i'r holl Aelodau.	Carys Edwards	Gorffennaf 2013	Hyfforddiant cychwynnol wedi ei gwblhau, gyda'r ail rhan i'w gwblhau erbyn diwedd 2013.
				Gweithredu'r Cynllun Trawsnewid a gweiddio'n llawn swyddogaethau'r Byrddau Trawsnewid.	Danielle Edwards		Sefydlwyd Byrddau ac meant yn cyfarfod yn rheolaidd ag Uwch Aelodau a Swyddogion yn eistedd ar bob bwrdd.
				Paratoi a chynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol.	Einir Thomas		Cwblhawyd – gweler eitem 6 ar Agenda'r Pwyllgor Archwilio 24/09/2013.
				Gweiddio'r trefniadau Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol.	Gethin Morgan		Cytunwyd a mabwysiadwyd calendr. Cyflwynwyd cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer Ch1.
				Gweiddio'r fframwaith hunan-asesu.	Gethin Morgan		Ymgymenwyd yr hunan-asesiad cyntaf ac fe'i mabwysiadwyd. Gweithrediadau lliniaru wrthi'n cael eu gweithredu.
				Gweithredu canfyddiadau'r adroddiad cyfathrebu mewnol.	Gwen Sion	Mawrth 2014	Cwblhawyd Cynllun Gwella Cyfathrebu Mewnol gyda thasgau ychwanegol yn cael eu dyrannu i amryw wasanaethau cefnogol. Fframwaith Cyfathrebu Mewnol yn cael ei ddatblygu (dyddiad targed Mawrth 2014).

COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

YM7	Risg o beidio rheoli gwybodaeth yn effeithlon na'n effeithiol	15	↔	Datblygu a gweithredu Strategaeth TGCh.	Barry Eaton		
				Adnabod yr holl systemau cyfredol a sefydlu sut maent yn integreiddio â'i gilydd.	Barry Eaton	Medi 2013	
				Adolygu unrhyw fylchau a pha systemau ychwanegol sydd eu hangen i'w llenwi.	Clare Williams	Mawrth 2014	
				Cyflwyno'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth (gan ystyried canfyddiadau'r Archwiliad ICO).	Huw Pritchard		Derbynir yr adroddiad terbynol gan y Cyngor ar 16 Medi 2013. Darperir ar hyn o bryd cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni. Bydd y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth yn cyfarfod 18 Medi 2013il gytuno Mandad.
YM23	Methu â gweithredu cynnwys y cynllun ôl-arolygiad Estyn a gwella perfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol	15	↔	Cynnydd yn erbyn pob un o'r pwyntiau gweithredu a nodir yn y CGOA yn cael eu monitro'n rheolaidd ac adroddir arnynt i'r Pwyllgor Addysg a Hamdden.	Dr Gwynne Jones	Awst 2014	
				Adroddiad interim ar leoedd dros ben yn y sectorau cynradd ac uwchradd a gynhrychir, gan amlygu ffigyrau diwygiedig ar gyfer lleoedd dros ben ac ystafelloedd posibl mewn ysgolion penodol y gellid eu defnyddio i leoli staff ardal.	Dr Gwynne Jones	Yn gyflawn	
				Cwblhau ymgynghori mewn ardaloedd penodol.	Dr Gwynne Jones	Yn gyflawn	
				Amlinellu'r cynllun strategol ar gyfer moderneiddio ysgolion gytunwyd gan yr UDA.	Dr Gwynne Jones	Yn gyflawn	

Tudalen 156

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	24 MEDI 2013
TEITL YR ADRODDIAD	ADRODDIAD GWAITH AR ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2013 – 30 AWST 2013
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH
ADRODDIAD GAN:	RHEOLYDD ARCHWILIO
GWEITHREDU:	Penderfyniadau/cymeradwyo fel y manylir yn yr adroddiad.

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1** Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013-14 i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2013 ac fe'i derbyniwyd. Cynhyrchwyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, y Swyddog Adran 151 ac yn sgil amryw o gyfarfodydd a chyfathrebiadau gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.
- 1.2** Mae'r adroddiad isod yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 30 Awst 2013 a'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf.
- 1.3** Bydd angen adolygiad dilyn-i-fyny ar gyfer yr holl adroddiadau terfynol a dderbyniodd farn 'Sicrwydd Coch'. Bydd yr adolygiad hwnnw yn cynnwys barn archwilio ar y cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran gweithredu'r argymhellion lefel Uchel a Chanolig yn yr adroddiad terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-Fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.
- 1.4** Nid oedd unrhyw un o'r adolygiadau yn y cyfnod yn cynnwys barn 'Sicrwydd Coch'. Mae crynodebau gweithredol ar gyfer adroddiadau 'Sicrwydd Coch' i'w gweld mewn atodiadau lle mae hynny'n berthnasol.
- 1.5** Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae modd gwneud hynny, ond gall hefyd ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaeth Allweddol, Adolygiad Sefydliad neu Adolygiad Ymgynghorol os gwelir bod y rheini'n fwy priodol.
- 1.6** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, yn gyfrinachol ar gais i'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio.

2. ADRODDIADAU A GYHOEDDWDYD HYD YMA A GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

- 2.1** Mae tabl 1 yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod, ynghyd â'r farn archwilio ar eu cyfer.

Tabl 1

Teitl yr Adolygiad	Maes Gwasanaeth	Blwyddyn y Cynllun AM	Statws	Barn CAG
<i>Adolygiadau System/Adolygiadau sy'n seiliedig ar risg</i>				
Cynllun AM 2012/13				
Incwm Arforol		2012/13	TERFYNOL	GWYRDD
Cynllun AM 2013/14				
Amdanaf I AD		2013/14	TERFYNOL	GWYRDD/AMBR
Cynllun Brecwast Am Ddim		2013/14	TERFYNOL	GWYRDD
Taliadau Uniongyrchol – Dilyn-i-Fyny		2013/14	TERFYNOL	CYNNYDD DA
Rhybuddion Dirwy		2013/14	TERFYNOL	YMGYNGHOROL
Orchard - Rheolaethau Mynediad Rhesymegol		2013/14	TERFYNOL	YMGYNGHOROL
Trin Credydwy a Dyledwyr		2013/14	TERFYNOL	YMGYNGHOROL
Gwiriad Stoc Blynnyddol – UCA		2013/14	TERFYNOL	GWYRDD
Canolfan Hamdden David Hughes (cyh. 05-09-13)		2013/14	DRAFFT	
Bathodynnau Glas		2013/14	DRAFFT	
Rheoli Gwastraff		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Grantiau – Cydymffurfiaeth		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Digartrefedd		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
TAW – Rheoli		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Grantiau Tai		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Trefniadau Goramser ac Amser Hyblyg		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Prif System Gyfrifo – CIVICA		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Credydwy – CIVICA		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Arbedion Effeithlonrwydd		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Adolygiad Dilyn-i-Fyny ar gyfer Ysgolion		2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Trefniadau Atal Twyll		2013/14	YN MYND	

		RHAGDDO	
Deddf Llwgrwobrwyo 2010 - ymateb CSYM	2013/14	YN MYND RHAGDDO	
Ysgolion			
2012/13 – Cynllun AM			
Ysgol Llanfachraeth	2012/13	DRAFFT	
2012/13 – Cynllun AM			
Ysgol Llangejni	2013/14	TERFYNOL	GWYRDD/AMBR
Cyfeiriadau			
Nodiadau Ffeil – 1 i 6	2013/14		D/B

2.2 Casgliadau Allweddol o Adroddiadau a gyhoeddwyd

2.2.1 Arforol

Cynhaliwyd archwiliad o Incwm a Chofnodion Systemau Arforol fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd am y cyfnod 2012/13. Mae gan yr Awdurdod oddeutu 450 o lecynnau angori ym Mhorthaethwy, Biwmares, Traeth Coch, Glyn Garth a Fryers Bay. Mae angorfeydd dros dro ar gael hefyd dros nos ym Mhier Porthaethwy a Phier Biwmares. Yn ystod y cyfnod y mae'r archwiliad yn ymwneud â fo, caewyd Pier Biwmares fel bod modd cwblhau gwaith gwella dan y Rhaglen Gwella'r Arfordir.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 cafwyd £94,602.46 o incwm yn sgil yr angorfeydd.

Barn: Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio Gwyrdd a phump o argymhellion categori isel.

2.2.2 Amdanaf I - AD

Cynhaliwyd archwiliad o Ddiogelwch a Threfniadau Adrodd y system Amdanaf I fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14. Mae Amdanaf I yn darparu system integredig ar gyfer Cyflogau ac Adnoddau Dynol yn seiliedig ar y system Northgate. Mae elfen Adnoddau Dynol y prosiect yn cael ei weithredu mewn tri cham i bwrpas cefnogi gweithgareddau AD a'r gwasanaeth cyflogaeth.

Prif gasgliad yr adolygiad oedd nad oedd dyletswyddau a chyfrifoldebau wedi eu gwahanu'n ddigonol rhwng yr Adain Cyflogau a'r Adain Adnoddau Dynol a bod hynny'n risg gynhenid mewn system ar y cyd.

Barn: Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio Gwyrdd/Ambr gydag un argymhelliad lefel uchel a dau argymhelliad lefel isel.

2.2.3 Cynllun Brecwast am Ddim LIC

Cynhaliwyd archwiliad o Gynllun Brecwast am Ddim LIC fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd am y cyfnod 2013/14.

Cyflwynwyd y Cynllun Grant Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd fel bod pob plentyn o oed ysgol gynradd yn cael cyfle i dderbyn brecwast iach yn rhad ac am ddim. Ar hyn o bryd mae 47 o ysgolion yn Ynys Môn yn cymryd rhan yn y cynllun. Yn ystod 2012/13 hawliwyd grant oddeutu £384k.

Casglodd yr adolygiad fod y systemau ar gyfer hawlio'r grant hwn yn cydymffurfio gyda thelerau ac amodau'r grant.

Barn: Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio Gwyrdd ac ni wnaed unrhyw argymhellion.

2.2.4 Taliadau Uniongyrchol – Dilyn-i-Fyny

Cyhoeddwyd adroddiad archwilio mewnol ar Taliadau Uniongyrchol ym mis Rhagfyr 2012 gyda barn archwilio Coch/Ambr. Ym mis Mehefin 2013 edrychwyd ar y cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran gweithredu'r ddau argymhelliad lefel Uchel; yr un argymhelliad lefel Canolig a'r saith argymhelliad lefel Isel a wnaed yn yr adroddiad gwreiddiol.

Barn: Casglodd yr adolygiad dilyn- i- fyny fod 'Cynnydd Da' wedi ei wneud o ran gweithredu'r argymhellion gwreiddiol. Fodd bynnag, nid oedd un o'r argymhellion lefel Uchel a thri o'r argymhellion lefel Isel wedi eu gweithredu'n llawn pan adroddwyd ym mis Gorffennaf 2013.

2.2.5 Rhybuddion Dirwy

Pwrpas yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd bod y ffigyrau a gofnodwyd ar gyfer Rhybuddion Dirwy yn Ynys Môn fel yr adroddwyd arnynt i PATROL – Cyd-bwyllgor Lloegr a Chymru ar gyfer gorfodaeth sifil Rheoliadau Parcio a Thraffig y tu allan i Lundain yn adlewyrchiad cywir o nifer y Rhybuddion a gyhoeddwyd.

Mae Cyd-bwyllgor Dyfarnu PATROL wedi penderfynu y bydd treuliau'n cael eu rhannu rhwng yr awdurdodau perthnasol yn gymhesur â nifer y rhybuddion a gyhoeddwyd.

Barn: Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio Gwyrdd a oedd yn gallu rhoi sicrwydd o'r tu allan i'r Adain Barcio bod y ffigyrau a gofnodwyd ar y Dystysgrif o nifer y Rhybuddion Dirwy a gyhoeddwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 yn adlewyrchiad cywir o nifer y rhybuddion dirwy a gyhoeddwyd.

2.2.6 Orchard – Rheolaethau Mynediad Rhesymegol

Cynhaliwyd adolygiad o'r rheolaethau mynediad rhesymegol a gwahaniad dyletswyddau o fewn y system Orchard yn dilyn yr adroddiad ar Renti Tai a gyhoeddwyd yn Ebrill 2013 a oedd wedi dwyn sylw at wendidau yn y meysydd hyn.

Er bod y gwendidau a nodwyd yn Ebrill 2013 yn dal i fod yn amlwg casglodd yr adolygiad fod camau wedi eu cymryd i weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gwreiddiol ar renti tai yn Ebrill 2013.

Barn: Casglodd yr adolygiad fod peth cynnydd wedi ei wneud o ran cryfhau rheolaeth yn y maes hwn. Ar adeg cyflwyno'r adroddiad roedd gwaith pellach wedi ei gynllunio i weithredu'r argymhellion gan gynnwys cydgysylltu gyda safle Orchard a oedd eisoes wedi hen sefydlu (Cyngor Sir Wrecsam).

2.2.7 Trin Credydwy'r a Dyledwy'r – Diwedd Blwyddyn 2012-13

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn i roi sicrwydd mewn perthynas â'r prosesau ar gyfer anfonebau credydwy'r a dyledwy'r ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a dyddiadau cau perthnasol. Roedd y maes hwn yn bwysig ar gyfer 2012-13 oherwydd defnyddio'r system CIVICA i dalu anfonebau yn 2012-13 o Ebrill 2013 ymlaen a'r angen i gynnwys cronïadau digolledu yn systemau ResourceLink a CIVICA.

Barn: Yn yr adolygiad canfuwyd a chofnodwyd y prosesau sy'n gysylltiedig â thrin credydwyr a dyledwyr ar ddiwedd blwyddyn 2012-13. Rhoddwyd copi o'r adroddiad i'r Archwiliwr Allanol.

2.2.8 Gwiriad Stoc Blynyddol – Uned Cynnal Adeiladau

Cynhaliwyd gwiriad blynyddol o'r stoc yn storfeydd yr Uned Cynnal Adeiladu ar 6 Ebrill 2013. Ar ôl cwblhau'r gwaith priodol, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gallu dod i'r casgliad bod y cofnod o'r stoc a gedwir yn y depo'n ddigon cywir ar y diwrnod ac yn rhoi darlun dibynadwy o'r lefelau stoc ar ddiwedd y flwyddyn.

Barn: Roedd yr adolygiad yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb nifer y stoc ar adeg yr archwiliad.

2.2.9 Archwiliad o Reolaethau Allweddol yn yr Ysgolion – Cyllid a Llywodraethu

Cwblhawyd adroddiad terfynol ar waith archwilio a wnaed mewn un ysgol yn ystod y cyfnod. Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio Gwyrdd/Ambr. Gwnaed argymhellion i unioni'r gwendidau a nodwyd mewn rheolaethau mewnol ac fe'u cyflwynwyd i sylw'r Pennaeth perthnasol.

2.3 Crynodeb o Ganlyniadau Adroddiadau a gyhoeddwyd hyd yma - ers 1 Ebrill 2013 rydym wedi cyhoeddi 9 o adroddiadau terfynol o Gynllun Archwilio Mewnol 2012-13; 12 o gynllun archwilio 2013-14 a thri adroddiad cyfeirio. Hyd yma mae 21 o adroddiadau terfynol wedi eu cyhoeddi yn 2013/14.











Mae crynodeb o raddfeydd a roddwyd yn yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae'r crynodeb o'r graddfeydd a gyhoeddwyd fel a ganlyn:

Barn / Graddfa CAG	Beth yw ystyr y raddfa / barn CAG	Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf	Ebrill i Awst 2013
Gwyrdd (Graddfa A&B)	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.	3	8
Gwyrdd Ambr (Graddfa C)	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad.	3	5
Coch Ambr (Graddfa D)	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg.	0	1
Coch (Graddfa E)	Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.	0	0

	Rhaid cymryd camau i reoli'r risg.		
Cynghorol / Ymchwiliad	Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol.	3	7
Cyfanswm		9	21

3 PERFFORMIAD YN ERBYN TARGEDAU AM Y CYFNOD 01/04/13 – 30/06/13

3.1 Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Darparu'r Gwasanaeth am 2013/14. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i'r Uned Berfformio Gorfforaethol.

Mesur Perfformiad	Targed 2011/12	Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod	Statws Targed	Cyfeiriad y Daith ers y cyfnod blaenorol
% o adolygiadau archwilio a gwblhawyd hyd at adroddiad drafft yn y flwyddyn (56 o adolygiadau yn y cynllun – 4 hyd at adroddiad drafft yn y cyfnod a 12 adroddiad Terfynol – heb gynnwys cyfeiriadau)	90%	70%		
Lefelau boddhad cwsmeriaid yn seiliedig ar holiaduron	90%	100%		
% o argymhellion lefel Uchel a Chanolig a weithredwyd – o 01-04-11	80%	51%		
Adolygu fframwaith Rheoli Risg y Cyngor a gwerthuso effeithiolrwydd camau lliniarol ar gyfer gostwng y pum risg uchaf ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.	1	0		
Sesiynau Hyfforddiant i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y cyfnod.	2	1		

3.2 Cwblhawyd 70% o'r Cynllun Archwilio (ar gyfartaledd) yn y cyfnod. Mae hynny i'w ddisgwyl oherwydd bod y cyfnod hwn wedi cychwyn gyda chwblhau a chyhoeddi 9 o adroddiadau terfynol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol ac nad ydynt wedi eu cynnwys yn y targed canrannol yma.

Mae'r cynnydd yn erbyn y cynllun hefyd yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed oherwydd derbyn cyfeiriadau yn ystod y cyfnod. Mae llawer o'r gwaith ychwanegol hwn yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â gweithredu'r system lejer CIVICA.

3.3 Mae'r ganran o argymhellion lefel 'Uchel' a 'Chanolig' a weithredwyd yn is na'r targed. Gweithredwyd 61% ohonynt o gymharu â 68% yn y cyfnod adrodd diwethaf.

3.4 Gwyddys bod problem gyda thracio argymhellion yn yr ysgolion sy'n golygu bod cyfraddau gweithredu argymhellion yn isel yn y maes Addysg. Mae swyddog canolog yn yr Adran Addysg yn cael ei ddefnyddio i dracio cynnydd a wnaed gan Benaethiaid gyda gweithredu argymhellion ond mae'r broses honno'n cymryd llawer o amser. Mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi cynorthwyo yn y gorffennol ac unwaith eto eleni trwy gynnal adolygiad o'r holl argymhellion sydd angen sylw mewn perthynas ag ysgolion a thrwy ymweld â Phenaeithiaid i gynorthwyo gyda chau argymhellion lle mae hynny'n briodol.

3.5 Er mwyn darparu darlun cywirach o ran cyfraddau gweithredu'n gyffredinol rwyf wedi ychwanegu graff at Atodiad A yn dangos cyfraddau gweithredu heb yr argymhellion sydd angen sylw gan yr Adran Addysg. Y gyfradd gweithredu yn y graff hwn yw 78%.

3.6 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi adolygu'r llinellau adrodd ar gyfer Archwilio Mewnol, gan gynnwys gweithredu argymhellion, a hynny mewn adroddiad ar wahân a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio hwn. Y bwriad yw codi proffil gwaith archwilio mewnol ymysg uwch reolwyr a dwyn sylw at bwysigrwydd gweithredu argymhellion gan wella cyfraddau gweithredu.

4. CYFEIRIADAU

- 4.1 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio rhaglunedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd y mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haerid yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).
- 4.2 Er mwyn darparu gwasanaeth mwy diwastraff rydym wedi dechrau ymateb i gyfeiriadau ar ffurf nodiadau ffeil yn hytrach nag adroddiadau llawn os nad oes unrhyw dystiolaeth o dwyll neu anghysondeb. Cyhoeddwyd 6 o nodiadau ffeil yn ystod y cyfnod hyd yma yn 2013/14. Nid yw dim o'r gwaith wnaed ar gyfer Nodyn Ffeil wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll neu anghysondeb.
- 4.3 Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio diwethaf, mae un cyfeiriad o 2012/13 wedi ei drosglwyddo i sylw'r Heddlu ac fe gaiff y Pwyllgor wybod am ganlyniad yr achos hwnnw gyda hyn.

5. TRACIO ARGYMHELLION


- 5.1 Ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor hwn, dim ond argymhellion a wnaed ers 01-04-2011 sydd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion.
- 5.2 Mae'r perfformiad o ran gweithredu argymhellion yn y cyfnod yn is na'r targed, gyda 61% o argymhellion 'Uchel' a 'Chanolig' yn cael eu cofnodi fel rhai sydd wedi eu gweithredu. Mae'r perfformiad mewn perthynas ag argymhellion ac eithrio'r rheini ar gyfer yr Adran Addysg yn 78%. Mae cyfeiriad ym mharagraff 3.4 yr adroddiad hwn at adolygiad o'r prosesau ar gyfer tracio argymhellion.
- 5.3 Mae graff yn dangos manylion yr argymhellion y gweithredwyd arnynt fesul Gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad A.

RHEOLYDD ARCHWILIO
17 Medi 2013


ATODIAD A

Tabl Tracio Argymhellion – yr holl argymhellion a wnaed ers 01-04-2011.

Tabl Cynnydd: % o argymhellion categori uchel a chanolig a weithredwyd/na chawsant eu gweithredu fesul gwasanaeth lle gwnaed dros 10 o argymhellion.



Yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd uchod rydym yn credu bod y Cyngor wedi gwneud 'cynnydd digonol' yn y cyfnod o ran gweithredu argymhellion uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o argymhellion (ac eithrio'r rheini nad ydynt wedi cyrraedd eu dyddiad gweithredu cytunedig) sydd eisoes wedi eu gweithredu neu eu disodli sef 61% o'r holl argymhellion o'r fath ar ddiwedd y cyfnod.

**Tabl Tracio Argymhellion – argymhellion a wnaed ers 01-04-2011 nad ydynt yn ymwneud â'r Gwasanaeth Addysg**

Tabl Cynnydd: % o argymhellion categori uchel a chanolig a weithredwyd/na chawsant eu gweithredu fesul gwasanaeth lle gwnaed dros 10 o argymhellion heb gynnwys Addysg; cyfanswm ar ddiwedd y cyfnod yn 78% o'r holl argymhellion o'r fath .

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	24 MEDI 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL - GAN GYNNWYS ADRODD AR GYNNYDD O RAN GWEITHREDU ARGYMHELLION
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH GWASANAETH – ARCHWILIO
GWEITHREDU:	ER GWYBODAETH

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 **Gwaith Archwilio Mewnol** - Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiadau gwaith i bob Pwyllgor Archwilio yn manylu ar waith a wnaed gan y Gwasanaeth yn y cyfnod ers y Pwyllgor diwethaf, gan ddwyn sylw at unrhyw wendidau sylweddol mewn rheolaethau ac unrhyw faterion eraill a ddaeth i'r wyneb ac adrodd ar ystadegau tracio argymhellion. Nid yw'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adrodd yn ffurfiol ar hyn o bryd i'r Penaeithiad Gwasanaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- 1.2 **Tracio Argymhellion** - Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn cynnwys yn ei adroddiadau gwaith i'r Pwyllgor Archwilio fanylion am gynnydd o ran gweithredu argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Gosodwyd targed o weithredu **80%** o argymhellion lefel uchel a chanolig o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt fel targed sy'n cyfateb i 'gynnydd da' yn unol â methodoleg dilyn-i-fyny RSM Tenon. Fodd bynnag, yn achos y rhan fwyaf o'r adroddiadau gwaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio dros y blynyddoedd, mae'r cyfraddau gweithredu hyn wedi bod yn is na'r targed 80%. Siomedig yw dweud bod y gyfradd weithredu ar gyfer argymhellion lefel 'Uchel' a 'Canolig' yr adroddwyd arnynt yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2013 yn 53%.
- 1.3 Mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi cynnal ymarfer glanhau data mewn perthynas â'r argymhellion a gofnodwyd ar y rhaglen 4action ac mae wedi 'cau' nifer o argymhellion sydd bellach wedi cael eu disodli, yn ogystal â rhai eraill sydd eisioes wedi eu gweithredu. Dylai hynny roi darlun cywirach o'r cyfraddau gweithredu.
- 1.4 Dylid nodi mai swyddogaeth y rheolwyr ac nid swyddogaeth yr Adain Archwilio Mewnol yw gweithredu'r argymhellion. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn hwyluso'r defnydd o feddalwedd tracio argymhellion y Cyngor ac yn darparu'r adroddiadau a'r graffiau angenrheidiol er budd Uwch Reolwyr ac Aelodau trwy'r Pwyllgor Archwilio.
- 1.5 Mae'r adroddiad hwn felly'n ceisio amlinellu gweithdrefn adrodd newydd ar gyfer Archwilio Mewnol, gan gynnwys cyfraddau gweithredu argymhellion gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gweithredu argymhellion ymysg uwch reolwyr.

2. CEFNDIR – ADRODDIADAU CYFREDOL

- 2.1 Gwaith Archwilio Mewnol** - Adroddir ar ganlyniadau gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn yr adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Ar hyn o bryd, nid yw'r Adain Archwilio Mewnol yn adrodd yn ffurfiol i'r uwch reolwyr fel grŵp ar wendidau a materion rheolaeth a ddaeth i'w sylw yn ystod ei waith. Fodd bynnag, anfonir adroddiadau unigol i Benaethiaid Gwasanaeth perthnasol ac mae copïau ohonynt yn mynd i'r Swyddog Adran 151 er gwybodaeth.
- 2.2 Tracio Argymhellion** - Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn defnyddio system gwe **4Action** RSM Tenon i gofnodi'r holl argymhellion a wneir ganddo. Gellir defnyddio'r system i dracio'r holl argymhellion a wneir un ai gan yr Adain Archwilio Mewnol, rheoleiddwyr eraill a chynlluniau gweithredu adrannol fel y bydd angen. Fodd bynnag, defnyddir y system yn bennaf ar hyn o bryd i gofnodi a thracio argymhellion gan yr Adain Archwilio Mewnol.
- 2.3** Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cofnodi'r holl argymhellion a wneir yn ei adroddiadau, p'un a ydynt yn rhai 'Uchel', 'Canolig' neu 'Isel', yn ogystal ag argymhellion nad ydynt wedi eu rhoi mewn categori. Mae gweithwyr sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhellion yn cael mynediad i'r system 4action sy'n caniatâu iddynt dracio cynnydd pob argymhelliad a wnaed a chofnodi unrhyw gamau a gymerwyd i'w gweithredu. Unwaith y mae argymhelliad wedi ei neilltuo ar gyfer gweithwyr unigol, mae'r system yn anfon e-bost atynt i gadarnhau'r argymhelliad a'r amserlen ar gyfer ei weithredu.
- 2.4** Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynhyrchu adroddiad bob chwarter ar gynnydd a wnaed yn erbyn gweithredu argymhellion ac sy'n dangos statws gweithredu'r argymhellion lefel '**Uchel**' a '**Chanolig**' i bwrpas adrodd i bob Pwyllgor Archwilio. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn gofyn am ddiweddariadau gan y gweithwyr perthnasol bob chwarter i sicrhau bod yr adroddiadau ar y statws gweithredu yn gyflawn ac yn gyfredol.

3. Y FFRAMWAITH ADRODD ARFAETHEDIG

- 3.1** Cynigir y dylid adrodd i uwch reolwyr yn rheolaidd gan roi crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol a wnaed, y materion sylweddol a nodwyd yn sgil y gwaith hwnnw yn y cyfnod, ynghyd â chyfraddau gweithredu ar gyfer argymhellion 'arwyddocaol'. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys blaenraglen waith ar gyfer Archwilio Mewnol er gwybodaeth uwch reolwyr.
- 3.2** Byddai adroddiad rheolaidd i'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn codi ymwybyddiaeth Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr o faterion a godwyd gan yr Adain Archwilio Mewnol a blaenraglen waith y Gwasanaethau. Byddai adroddiadau o'r fath hefyd yn ceisio eu hatgoffa o'r argymhellion lefel 'Uchel' a 'Chanolig' sydd angen sylw yn eu meysydd penodol a'r argymhellion hynny y bydd angen eu gweithredu yn y dyfodol agos.
- 3.3** Byddai'r adroddiadau Archwilio Mewnol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd eisoes ac a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a byddent yn cael eu cyflwyno i'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwyr (lle mae modd gwneud hynny) cyn y bydd yr adroddiad cyfatebol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Byddai hynny'n gyfystyr ag adrodd yn chwarterol i'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth.
- 3.4** Fe wnawn gymryd y cyfle i adolygu fformat yr adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r adolygiad cyffredinol yma o linellau adrodd. Y nod fydd i unioni adroddiadau i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

- 3.5 Gofynnwyd i'r Uned Bolisi greu fframwaith ar gyfer cofnodi, tracio ac adrodd ar yr holl adroddiadau gan reoleiddwyr allanol yn dilyn adolygiad Archwilio Mewnol o Adroddiad Monitro Sicrwydd Trydydd Partïon a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012. Dylai unrhyw gynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion gael ei gymryd i ystyriaeth yn y gwaith a wneir gan yr Uned Bolisi.
- 3.6 Darperir adroddiadau manylach i'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio am y gwasanaethau unigol lle mae'r cyfraddau gweithredu'n disgyn islaw'r targed 80%.
-

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	24 MEDI 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	ADRODDIAD BLYNYDDOL AR ATAL TWYLL A LLYGREDD 2012-13
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ADOLYGU GWEITHGAREDD YN Y MAES HWN
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH GWASANAETH ARCHWILIO A RHEOLWR TWYLL GWEITHREDOL
GWEITHREDU:	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

Rhaid i bolisi'r Cyngor ar Atal Twyll a Llygredd gael ei adolygu'n flynyddol gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gweithgaredd yn y maes hwn yn 2012/13. Mae'r meysydd canlynol wedi eu cynnwys ym Mholisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llygredd:

- **Twyll:** - "mynd ati'n fwriadol i ystumio datganiadau cyllidol neu gofnodiadau eraill y tu mewn i'r Awdurdod neu'r tu allan gyda golwg ar guddio camddefnydd o asedau neu i sicrhau math arall o fudd".
- **Llygredd:** - "cynnig, rhoi, gofyn am neu dderbyn cymhelliad neu wobr allai ddylanwadu ar y modd y mae unrhyw berson yn gweithredu."
- **Lladrad :**
- **Methiant i ddatgelu diddordeb:** boed budd ariannol yn gysylltiedig ai peidio.

Mae egwyddorion allweddol y polisi mewn perthynas â thwyll a llygredd fel a ganlyn:-

- Lleihau cyfleon;
- Atal;
- Rhwystro;
- Darganfod ac Ymchwilio;
- Erllyn ac Adennill.

Wedi eu sylfaenu ar:-

- Diwylliant ac Ymwybyddiaeth.

2. LLEIHOU CYFLEON AC ATAL

Prif nod y polisi yw atal twyll, llygredd neu ladrad rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gwneir hyn i raddau helaeth drwy weithgareddau arferol rheoliadau ariannol yn cynnwys gwaith siecio mewnol a gwahanu dyletswyddau. Mae'n amhosibl adrodd yn ôl yn systematig ar atal gan nad oes ystadegau ar gael am yr hyn nad yw wedi digwydd. Fodd bynnag, rhoddir i aelodau sicrwydd ar effeithlonrwydd y systemau

rheoli mewnol gan yr archwilyr mewnol ac allanol a thrwy farn sicrwydd gan drydydd partiön eraill. Bydd Archwilio Mewnol yn adrodd yn ôl i bob Pwyllgor Archwilio ar gynnydd yn cynnwys asesiad parhaol o'r system reoli fewnol yn dilyn adolygiadau a wnaed yn ystod y cyfnod. Rhoddir barn ar y fframwaith o reolau mewnol yn flynyddol fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Dyma rai esiamplau o weithgareddau arferol sy'n parhau i atal twyll a llygredd rhag digwydd:

- (i) Gwaith rhagweithiol o ran cynhyrchu a monitro adroddiadau ar daliadau dyblyg ac adolygiadau yn cynnwys cysoni adroddiadau'r sefydliad i'r gyflogres yn cael ei wneud i nodi anghysonderau fydd wedyn yn cael eu dilyn i fyny. Mae gwaith o'r fath yn cefnogi'r system reoli fewnol ac yn fodd o reoli'n sylweddol y gweithgareddau perthnasol.
- (ii) Gweithdrefnau cadarn wrth ddelio â hawliadau yswiriant yn cynnwys anfon hawliadau ymlaen ar unwaith i'n cwmni yswiriant i'w hymchwilio yn ôl yr angen a delio ar unwaith i setlo hawliadau a brofwyd ond gwrthod y gweddi, ac mae hyn yn rhoi peth diogelwch i'r Cyngor rhag unrhyw hawliadau twyllodrus.
- (iii) Mae'r broses arferol o gasglu a bancio arian yn cyflwyno risg ynddi ei hun o safbwynt y demtasiwn i "gwagio a llwytho" all yn y pen draw arwain at ladrad. Drwy fonitro'r patrwm o fancio mae'n nod gennym gywiro'r sefyllfa cyn bod unrhyw golledion yn digwydd: Fe allwn nodi achosion o fancio hwyr trwy'r Tîm Incwm neu drwy i reolwyr adolygu penawdau incwm cyllideb neu fel rhan o adolygiad sicrwydd ansawdd trydydd parti. Mae dilyn hyn i fyny gyda'r staff oedd yn delio â'r mater yn helpu i rwystro a chanfod lladrad. Fe nodwyd enghreifftiau o'r fath yn y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn ac ymchwiliodd yr Adain Archwilio Fewnol iddynt ac adrodd arnynt.

3. CANFOD, YMCHWILIO, ERLYN

Gall amheuaeth o ladrad neu dwyll gwirioneddol ddeillio o nifer o ffynonellau. Efallai mai staff yr awdurdod fydd yn nodi'r amheuaeth drwy waith gweinyddu arferol, fe allant fod yn destun 'chwythu'r chwiban' yn fewnol / allanol fel y llinell ffôn Twyll Budd-dal, fe allant gael eu nodi gan staff adolygu a chydymffurfio'r Cyngor neu fe allant fod wedi eu cyfeirio gan asiantaethau eraill neu'r cyhoedd.

Beth bynnag fo'r amheuon, mae angen i ymchwiliadau fod yn gymesur, yn gyfrinachol ac yn deg. Bydd rhai amheuon neu honiadau yn troi allan i fod yn rhai maleisus neu yn gamgymeriadau syml; mae'r rhagdybiaeth bod rhywun yn ddieuog yn bwysig ac nid pob ymchwiliad sydd yn canfod bod drwg wedi ei wneud.

Un ffactor fawr gyda gwneud penderfyniad ar atgyfeiriad ac ymchwilio iddo'n llwyddiannus yw ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd. Mewn achosion lle ceir atgyfeiriadau dienw a honiadau yn cael eu gwneud heb unrhyw dystiolaeth i'w cefnogi, mae'r gobaieth o gael ymchwiliad llwyddiannus yn llawer llai. Mae atgyfeiriadau o'r fath yn wrthgynhyrchiol yn yr ystyr eu bod yn dargyfeirio adnoddau ymchwilio prin y Cyngor.

Achosion o Dwyll Budd-dal - Yn 2013/13 roedd 616 o atgyfeiriadau o dwyll budd-dal posibl gyda Budd-dal Tai / Treth Gyngor ac roedd 532 o'r achosion yn rhai oedd yn addas i'w hymchwilio. O'r 532 achos, gwelwyd rhyw fath o rybudd ffurfiol yn cael ei roi mewn 39 ohonynt. Nodwyd cyfanswm o £236,555 o fudd-dal oedd wedi ei ordalu fel 'twyll a chamgymeriad' gan yr adain Atal Twyll yn ystod 2012/13.

Yn Hydref / Tachwedd 2002 fe nododd yr adain fudd-daliadau nifer sylweddol o achosion nad oeddent wedi eu hadolygu dros gyfnod o amser ac roedd y rhain yn cynnwys achosion safonol lle'r oedd Budd-dal Tai wedi ei dalu ar y sail bod yr

hawlydd neu'r partner mewn gwaith ac wedi gwneud datganiad am eu hincwm pan wnaed yr hawliad i ddechrau. Nodwyd mewn rhai o'r achosion hyn bod cynnydd i'w weld yn yr incwm gwaith ac nad oedd hyn wedi ei ddatgan. O ganlyniad i hyn fe gafwyd nifer fawr o atgyfeiriadau tua diwedd y flwyddyn, a derbyniwyd 183 o atgyfeiriadau ym mis Ionawr 2013 yn unig.

Mae polisiâu erlyn sefydledig yn achos twyll Budd-dal yn cynnwys ystod o gosbau sy'n caniatáu inni allu rhoi ymateb cymesur. Ar waelod y raddfa, bydd rhybudd neu ddirwy weinyddol yn aml yn ddigon i danlinellu difrifoldeb y twyll ac atal iddo ail ddiwydd. Nid yw'r awdurdod yn gyndyn o erlyn twyllwyr am achosion mwy difrifol. Mae'r tabl isod yn dangos math a nifer y cosbau a roddwyd yn 2012-13, o gymharu y dair blynedd diwethaf:

	Erlyn	Dirwy Weinyddol	Rhybudd	Budd-dal wedi ei Ordalu
2012-13	7	13	19	£236 555
2011-12	10	6	26	£344 303
2010-11	8	5	23	£165 023

Bydd yr Awdurdod yn ystyried bod canlyniad cadarnhaol i achosion lle mae'r tîm ymchwilio yn nodi gordaliad mewn budd-dal ac yn ei basio ymlaen i'w adennill. Mae swm y budd-dal a or-dalwyd ac a nodwyd yn y 12 mis diwethaf yn parhau yn sylweddol. Er y cafwyd ychydig o achosion gwerth uchel yn y flwyddyn ariannol, mae'n cael ei dderbyn bod y cynnydd wedi digwydd oherwydd y nifer uwch o "dwyll a chamgymeriad" lefel is.

Yn y tabl isod fe welir dadansoddiad o ffynhonnell yr atgyfeiriadau Budd-dal yn y dair blynedd ddiwethaf:

	2012/13	2011/12	2010/11
Ffynhonnell	Achosion	Achosion	Achosion
Swyddogion yn Ymweld	1	6	9
Staff Budd-dal Tai	12	6	2
Treth Gyngor / Adennill	0	0	2
Di-enw	4	4	1
DWP	5	6	3
HBMS	16	14	14
NFI	0	3	4
Arall	1	3	1

Achosion Arall o Dwyll - Yn ychwanegol at ymchwilio i atgyfeiriadau yn ymwneud â Budd-dal, cafwyd 11 o ymchwiliadau mewn perthynas â honiadau o dwyll neu ddrwg weithredu arall yn cael ei adrodd i'r Adain Archwilio Mewnol. Yn dilyn ymchwilio i'r honiadau, gwelwyd tystiolaeth o reolaeth fewnol wan mewn rhai enghreifftiau a hefyd dystiolaeth gadarnhaol o anghysondeb ac / neu dwyll yn digwydd mewn dau o'r ymchwiliadau a ddechreuwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Yn sgil ymchwiliad gan yr Adain Archwilio Mewnol, canfuwyd tystiolaeth bod incwm wedi cael ei fancio'n hwyr yn systematig. Yn ystod ymweliad safle i ymchwilio i'r mater, nid oedd y gweithiwr yn gallu cynhyrchu arian a oedd, yn ôl cofnodiadau, wedi ei gasglu ond heb ei fancio eto. Fe ymddiswyddodd y gweithiwr yn dilyn yr ymweliad safle. Banciwyd yr arian wedi hynny ac ni nodwyd unrhyw golled ariannol i'r Cyngor ac felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Treuliwyd llawer o amser yr Adran Archwilio Mewnol yn ymchwilio i brydau ysgol ac incwm arian cronfeydd ysgolion lle gwelwyd tystiolaeth o dwyll gyda ninnau'n cyfeirio'r mater i'r Heddlu. Unwaith yn rhagor, fe ymddiswyddodd y gweithiwr ar ddechrau ein hymchwiliadau. Mae'r Heddlu yn gweithio ar yr atgyfeiriad ond nid ydynt wedi rhoi diweddariad ar eu cynnydd hyd yn hyn.

Mae'r manylion am y gwaith ymchwiliol a nodir uchod yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i ymchwilio i atgyfeiriadau ac i gymryd camau priodol lle bo drwgweithredu ac / neu dwyll a llygredd yn cael ei nodi.

4. MENTER DWYLL GENEDLAETHOL (NFI)

Mae'r awdurdod yn cymryd rhan yn y Fenter Dwyll Genedlaethol sy'n digwydd bob dwy flynedd. Mae'r Fenter yn golygu bod data penodol o fewn yr awdurdod yn cael ei gyfatebu gydag awdurdodau eraill er mwyn nodi unrhyw anghysondeb all fod yn arwydd o dwyll. Wrth benderfynu ar ryddhau gwybodaeth ar gyfer cyfatebu data, mae angen ystyried a gafodd unigolion rybudd teg o'r bwriad i brosesu eu gwybodaeth yn unol ag egwyddorion diogelu data.

Mae cyfranogi yn NFI yn ddull rhagweithiol o nodi twyll posibl o fewn systemau'r Cyngor a rhwng systemau'r Cyngor. Fel gyda phob atgyfeiriad, nid yw pob un yn darparu digon o dystiolaeth o dwyll i gyfiawnhau ymchwiliad ond lle maent yn gwneud hynny, bydd camau gweithredu ac ymchwilio priodol yn cael eu dilyn gan y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn ariannol fe ryddhawyd canlyniadau Cyfatebu Data 2012/13 NFI.

Cyfatebu Budd-dal - Mae'r NFI wedi nodi 788 o achosion o dwyll budd-dal posibl, ond, mae system hidlo yr NFI wedi argymhell mai dim ond 88 o'r achosion hyn sydd angen eu hymchwilio ymhellach ac sy'n nodi posibilrwydd uchel o dwyll. Fe wnaed adolygiad cychwynnol ar yr achosion hyn ac maent yn disgyn o dan y categori o Fudd-dal Tai yn erbyn taliadau Cyflogres a Phensiwn, ac mae un achos eisoes wedi nodi gordalu budd-dal o fwy na £5,400, ac fe nodwyd wedyn i hynny ddigwydd oherwydd i gamgymeriad gael ei wneud pan gyfrifwyd yr hawl i fudd-dal ac roedd y pensiwn wedi ei ddatgan, ond wedi'i fethu.

Cyfatebu heb fod yn ymwneud â Budd-dal - Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gyfrifol am hidlo ac asesu risg gyda'r holl achosion o gyfatebu Data NFI nad ydynt yn ymwneud â budd-daliadau ac yn 2012-13, fe gafwyd 3564 o gyfatebiadau gyda'r NFI yn argymhell y dylid ymchwilio i 1509 ohonynt. O'r rhain:

- Roedd 1238 o gyfatebiadau a argymhellwyd yn ymwneud â phobl a fu farw gyda Bathodynau Glas neu Docynnau bws Consesiynol. Ni chafwyd tystiolaeth o gamddefnyddio bathodynau na thocynnau yn sgil y gwaith cyfatebu hwn.

Adolygodd y tîm hefyd y gweithdrefnau sy'n eu lle i rybuddio'r Cyngor am rai a fu farw trwy'r broses 'Dywedwch wrthym Unwaith'. Rydym wedi trefnu i Wardeiniaid Traffig dderbyn rhestr o Fathodynau Glas nad ydynt yn ddilys er mwyn helpu i nodi a chael gwared ar unrhyw gamddefnydd posibl.

- Roedd 172 o'r cyfatebiadau a argymhellwyd yn ymwneud â data wedi'i ddyblygu o fewn system Credydwy'r Cyngor. Roedd yna fater yr oeddem yn gwybod amdano gyda chredydwy'r yn cael eu dyblygu yn system Credydwy'r ResourceLink y Cyngor oedd yn delio â phryd yr oedd y data yn cael ei lanhau cyn cael ei roi i mewn yn y modiwl Credydwy'r CIVICA newydd. O ystyried nifer y cyfatebiadau a'r rhesymau am nifer ohonynt, fe ganolbwyntiodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y cyfatebiadau oedd yn cael eu gweld fel y rhai â'r mwyaf o risg, sef y rhai a oedd yn ymwneud â chofnodiadau 'dyblyg yn ôl rhif anfoneb a swm ond gyda gwahanol gyfeiriad ac enw credydwy'r'.
- Roedd 52 o'r cyfatebiadau a argymhellwyd yn ymwneud â chyfatebu'r gyflogres i Gredydwy'r. Gall hyn fod oherwydd taliadau i weithwyr am resymau nad ydynt yn ymwneud â'u cyflogaeth h.y. dyletswyddau etholiad, ad-daliadau Treth Gyngor ac ati.

- Roedd 7 cyfatebiad arall a argymhellwyd yn ymwneud â 'Pharcio Bathodyn Glas i Docyn Parcio Bathodyn Glas' (1); 'Hawlwyr Yswiriant i Hawlwyr Yswiriant'; 'TAW a or-dalwyd'. Ymchwiliwyd i'r cyfatebiadau hyn a chafwyd eglurhad.

Ni welodd Archwilio Mewnol unrhyw dystiolaeth o dwyll nac anghysondeb o'n hymchwiliadau i'r cyfatebiadau data a argymhellwyd.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ymrwymo i weithio ar y cyd gyda'r sefydliadau eraill, yn arbennig Gwasanaeth yr Adran Waith a Phensiynau ar gyfer Ymchwilio i Dwyll.

5. CYFATEBU DATA BUDD-DAL TAI

Gwasanaeth Cyfatebu Budd-dal Tai (HBMS) – mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ymchwilio i atgyfeiriadau a gynhyrchir drwy HBMS, sef achosion lle nodwyd anghysondeb drwy gyfatebu data Budd-dal Treth Gyngor a Thai yn erbyn data DWP a HMRC sy'n cynhyrchu atgyfeiriad y mae angen ymchwilio iddo ac a all arwain at achos o dwyll.

Yn 2012/13 roedd 16 o achosion a sancsiynwyd mewn rhyw ffurf yn dilyn cyfatebu drwy HBMS.

6. AWDURDOD TWYLL CENEDLAETHOL (NFA)

Yn Ebrill 2011, fe gyhoeddodd yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol y Strategaeth ar gyfer Ymladd Twyll yn Lleol. Roedd yn amcangyfrif bod cost twyll i lywodraeth leol yn £2.2 biliwn y flwyddyn. Mae hwn yn arian y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau lleol. Mae Ymladd Twyll yn Lleol yn agwedd strategol a ddatblygwyd gan lywodraeth leol ar gyfer llywodraeth leol, ac mae'n mynd i'r afael â'r angen am fwy o fesurau atal twyll a gwell gorfodaeth.

Mae Ymladd Twyll yn Lleol yn amlinellu agwedd strategol fydd, os caiff ei mabwysiadu ar draws llywodraeth leol, yn fodd i awdurdodau lleol gael eu diogelu'n well rhag twyll a hefyd i gyfrannu at allu'r wlad i ganfod a chosbi twyllwyr. Bydd yr agwedd newydd yn cryfhau'r ymateb gwrthdwyll ar draws llywodraeth leol gan olygu y bydd mwy o dwyllwyr yn cael eu dal, mwy o dwyll yn cael ei rwystro a mwy o arian yn cael ei ddychwelyd i awdurdodau.

Mae'r Awdurdod yn ystyried sefydlu ymchwiliadau i fathau eraill o dwyll sy'n effeithio'r Cyngor, ac mae hyn wedi cynnwys twyll Bathodynnau Glas ar gyfer Parcio, Teithio Consesiynol (pasis bws) a thwyll disgownt Treth Gyngor person sengl.

7. GRŴP YMCHWILIO BUDD-DAL CYMRU (WBIG)

